ARUP

**Llywodraeth Cymru**

# Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) Adolygiad Ôl-weithredu Atodlen 3

## Adroddiad Adolygiad Ôl-weithredu

Cyfeirnod: 287773-ARP-00-00-RP-ZX-0001

P02 | 2 Mai 2023



© Cydnabyddiaeth ar gyfer lluniau: Brig yr ochr chwith: Cyngor Caerffili a Llanmoor Homes. Brig yr ochr dde: The Urbanists. Gwaelod yr ochr chwith: Arup a Walters. Gwaelod yr ochr dde: Bellway Homes

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfarwyddiadau a gofynion penodol ein cleient. Nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw drydydd parti, ni ddylai unrhyw drydydd parti ddibynnu arno ac ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti.

Rhif y gwaith 287773

**Ove Arup & Partners Limited**
4 Pierhead Street
Glannau'r Brifddinas
Caerdydd
CF10 4QP
Y Deyrnas Unedig
arup.com

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

## Cynnwys

| | | |
|---|---|---|
| 1. | Crynodeb Gweithredol | 1 |
| 1.1 | Y Cam Gweithredu | 1 |
| 1.2 | Arsylwadau | 2 |
| 1.3 | Set o Faterion ac Argymhellion a gasglwyd | 2 |
| 1.4 | Argymhellion Blaenoriaethol Tymor Byrrach | 4 |
| 2. | Cyflwyniad | 5 |
| 2.1 | Cefndir | 5 |
| 2.2 | Cwmpas yr Adolygiad | 5 |
| 2.3 | Y Broses Adolygu | 6 |
| 3. | Adolygiad o Lenyddiaeth | 8 |
| 3.1 | Crynodeb o’r Llenyddiaeth a Adolygwyd | 8 |
| 4. | Y Cam Gweithredu | 12 |
| 5. | Materion, Adborth ac Argymhellion | 14 |
| 5.1 | Categorïau a Themâu | 14 |
| 6. | Categori A: Llywodraethu ac Adnoddau | 16 |
| 6.1 | Casglu Data a Dangosyddion Perfformiad | 16 |
| 6.2 | Cyfnod machlud | 18 |
| 6.3 | Adnoddau | 18 |
| 6.4 | Bylchau Sgiliau | 21 |
| 7. | Categori B: Cysondeb | 24 |
| 7.1 | Canllawiau | 24 |
| 7.2 | Cyfnod Penderfynu | 34 |
| 7.3 | Y Broses Ymgeisio (gan gynnwys Alinio â Chynllunio) | 39 |
| 7.4 | Alinio â Phriffyrdd | 44 |
| 7.5 | Eithriadau Presennol | 50 |
| 8. | Categori C: Gofynion Technegol | 51 |
| 8.1 | Cymesuredd | 51 |
| 8.2 | Safonau Technegol | 57 |
| 8.3 | Bioamrywiaeth ac Amwynder | 63 |
| 9. | Categori Ch: Fforddiadwyedd a Gorfodi | 73 |
| 9.1 | Ffïoedd | 73 |
| 9.2 | Gorfodi | 75 |
| 9.3 | Apeliadau | 78 |
| 9.4 | Mabwysiadu | 79 |
| 9.5 | Ariannu Gwaith Cynnal a Chadw Tymor Hir | 81 |
| 9.6 | Archwiliadau | 86 |
| 9.7 | Bondiau | 87 |

## Atodiadau


Atodiad A 89
Argymhellion sy'n weddill o Adolygiad Pitt (2008) 89
Atodiad B 91
Adroddiad Interim 91
Atodiad C 92
Nodiadau Gweithdy â Ffocws i Ymgeiswyr 92
Atodiad Ch 93
Canlyniadau'r Holiadur â Ffocws 93
Atodiad D 94
Nodyn Adolygu Ffïoedd 94
Atodiad Dd 95
Nodyn Adolygu'r Broses Cyn-ymgeisio 95
Atodiad E 96
Adborth o'r Digwyddiad Ymgysylltu Rhithwir 96

# 1. Crynodeb Gweithredol

Ym mis Ionawr 2019, dechreuwyd Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 yng Nghymru, sy'n mynnu bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn cynnwys Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS). Ym mis Mawrth 2022, comisiynwyd Ove Arup and Partners (Arup) gan Lywodraeth Cymru i gynnal Adolygiad Ôl-weithredu.

Lluniwyd yr adroddiad hwn ar yr Adolygiad i:

- Grynhoi'r data sydd ar gael am weithgareddau yn dilyn gweithredu.
- Coladu adborth gan randdeiliaid o adroddiadau blaenorol ac ymgysylltu yn rhan o'r Adolygiad, gan gynnwys cyfweliadau, digwyddiadau, a holiadur cynhwysfawr.
- Amlinellu a blaenoriaethu argymhellion i oresgyn materion a godwyd.
- Llywio ymagwedd Llywodraeth Cymru at y Rhaglen Lywodraethu ar gyfer defnyddio SuDS sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt.

**Cyfyngiadau gwersi o Gymru ar gyfer Lloegr**

Dechreuwyd Atodlen 3 yng Nghymru yn 2019. Nid yw wedi'i dechrau eto yn Lloegr, ond bwriedir ei rhoi ar waith yn ystod 2024.

Mae'r adroddiad hwn yn taflu goleuni ar heriau a llwyddiannau cam gweithredu Atodlen 3. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod gwahaniaethau sylfaenol yn y cyd-destun deddfwriaethol a'r 'ffyrdd o weithio' rhwng Cymru a Lloegr; gan gynnwys strwythur llywodraeth leol, y system Gynllunio, a'r sefydliadau sy'n ymwneud â chyflawni datblygiad. Gallai'r gwahaniaethau hyn o ran deddfwriaeth, prosesau a rhanddeiliaid olygu nad yw'r canfyddiadau a'r argymhellion yn yr adroddiad hwn yn uniongyrchol berthnasol i Loegr.

## 1.1 Y Cam Gweithredu

Mae datblygu ledled Cymru wedi newid yn dilyn rhoi Atodlen 3 ar waith ym mis Ionawr 2019. Ar ôl pedair blynedd o weithio o dan y ddeddfwriaeth hon, cafwyd adborth cynhwysfawr gan sampl o randdeiliaid yr effeithir arnynt sy'n cynrychioli llawer o sectorau. Mae'r adborth yn gymysg. Mae llawer o'r ymatebion yn rhoi enghreifftiau sy'n dangos gwerth a budd bwriad y ddeddfwriaeth, sef draenio datblygiad mewn ffordd fwy cynaliadwy. Fodd bynnag, fel y gellid disgwyl gyda phroses a gofynion newydd, mae'r holl bartïon wedi profi nifer o heriau, y byddai eu datrys yn arwain at welliant i bawb.

Mae'r rhai hynny sy'n hyrwyddo, dylunio, a chyflawni datblygiadau wedi mynd trwy'r broses newydd a gynhelir gan Gyrff Cymeradwyo SuDS (SABau) ledled Cymru. Mae nifer y ceisiadau a dderbynnir gan SABau yn amrywio'n fawr o ddegau lawer o geisiadau y flwyddyn, i sawl cant – mae llawer o'r ceisiadau hyn yn ymwneud â datblygiadau llai o faint. Er bod data ar gael, mae'n ymddangos bod diffyg sylweddol o ran ceisiadau SAB a dderbyniwyd o gymharu â nifer y ceisiadau Cynllunio a gyflwynwyd (gan nodi efallai nad oes angen caniatâd Cynllunio ar rai datblygiadau y mae angen iddynt gyflwyno cais SAB).

Cymharol brin yw'r enghreifftiau o SuDS a fabwysiadwyd yn llawn, ar ôl dylunio ac adeiladu systemau draenio. Mae hyn yn ddisgwyliedig, efallai, o ystyried y graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â chyflawni a throsglwyddo datblygiad, sy'n aml yn cynnwys cyfnodau diffygion. Effeithiodd y pandemig ar gyflymder datblygu yng Nghymru hefyd.

## 1.2 Arsylwadau

Drwy gydol yr Adolygiad, cydnabu'r holl randdeiliaid y canlyniadau cadarnhaol yr oedd Atodlen 3 yn ceisio eu cyflawni. Mae'r materion a amlygwyd yn ymwneud yn bennaf â'r broses a'r weithdrefn gyflwyno. Dylid cydnabod bod llwyddiannau lleol yn aml yn deillio o ymagwedd gydweithredol, "ie, os" gan yr holl bartïon, wedi'i seilio ar y fframwaith deddfwriaethol.

## 1.3 Set o Faterion ac Argymhellion a gasglwyd

Wrth adolygu'r amryw ffynonellau adborth, mae 17 thema gyffredin wedi dod i'r amlwg. Mae'r rhain wedi'u rhannu'n bedwar categori: Llywodraethu ac Adnoddau, Cysondeb, Gofynion Technegol, a Fforddiadwyedd a Gorfodi. Rhestrir set gynhwysfawr o faterion ac argymhellion o dan y penawdau isod, gydag amserlen weithredu ddangosol ar gyfer pob un.

**A. Llywodraethu ac Adnoddau**

- Dangosyddion perfformiad
- Adnoddau
- Bwlch sgiliau

**B. Cysondeb**

- Canllawiau
- Cyfnodau penderfynu
- Y broses ymgeisio (gan gynnwys alinio â Chynllunio)
- Alinio â phriffyrdd

**C. Gofynion Technegol**

- Cymesuredd
- Safonau technegol
- Bioamrywiaeth ac amwynder

**Ch. Fforddiadwyedd a Gorfodi**

- Ffïoedd
- Gorfodi
- Apeliadau
- Mabwysiadu
- Ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir
- Archwiliadau
- Bondiau

**Ffigur 1 – Grwpiau materion ac argymhellion yr Adolygiad**

### A. Llywodraethu ac Adnoddau

Mae Llywodraethu ac Adnoddau yn awgrymu fframwaith perfformiad, wedi'i lywio gan gasglu data cyson ac eto cymesur gan SABau. Bydd hyn yn ffurfio tystiolaeth empirig i wella'r broses a'r strwythur yn y dyfodol, gan gynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol i ffïoedd ymgeisio.

Amlygir bod adnoddau a bylchau sgiliau yn y diwydiant yn arwyddocaol. Mae'n anodd cadw adnoddau ac mae rhai staff profiadol wedi gadael swyddi SAB yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Gallai symudiadau tuag at bartneriaethau rhanbarthol a rhannu adnoddau feithrin llwybrau gyrfaol sy'n rhoi boddhad ar yr un pryd â chydbwyso gofynion adnoddau a galluogi mynediad at arbenigwyr. Mae angen

hyfforddiant parhaus yn y diwydiant. Dylid mynd i'r afael â'r her adnoddau trwy roi pwyslais ar ddatblygu talent newydd trwy hyrwyddo sgiliau SuDS ar draws y system addysg, gyda chynnwys cwrs penodol.

Mae angen arweinyddiaeth fwy diffiniedig ar SuDS yng Nghymru i gyflawni cysondeb a sbarduno arfer da. Byddai cyflwyno sefydliad goruchwyliol yn cyflawni rôl allweddol yn hyn o beth.

## B. Cysondeb

Mae cysondeb yn thema sy'n codi droeon drwy gydol yr Adolygiad. Mae'r prif feysydd yn ymwneud ag eglurder diffiniadau allweddol, dogfennau mwy eglur gan gynnwys canllawiau/atodiadau lleol, a datblygu fframweithiau ymgysylltu a chymorth parhaus trwy ailgychwyn Grŵp Ffocws (y Grŵp Gweithredu SuDS gynt).

Mae cyfnodau penderfynu ar geisiadau sy'n ymestyn y tu hwnt i'r raddfa amser statudol mewn llawer o achosion yn achos pryder ac yn oedi datblygiad. Mae angen graddfeydd amser ar gyfer dilysu ceisiadau. Dylid ffurfio sefydliad goruchwylio yn y tymor hwy i reoleiddio a helpu i wella'r broses yn barhaus yn genedlaethol.

Dylai'r broses cyn-ymgeisio gael ei ffurfioli, gan gynnwys cyngor fesul cam, gwell alinio â Chynllunio (lle y bo'n bosibl), cysondeb ffioedd ar gyfer cyn-ymgeisio, a sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu dibynnu ar y cyngor a roddwyd ar gam cynnar yn ddiweddarach yn y broses.

Mae'r ymagwedd at SuDS a'r derbyniad ohonynt ym maes priffyrdd yn anghyson ledled Cymru, ond nid yw SuDS yn cael eu mwyafu mewn lleoliadau priffyrdd fel arfer. Mae angen mynd i'r afael â hyn trwy well canllawiau a Safonau sy'n ymwneud â phriffyrdd i fwyafu buddion ochr yn ochr ag amcanion fel Teithio Llesol ac ategu polisïau eraill a weithredir gan Lywodraeth Cymru (e.e. ffyrdd 20mya).

Dylid egluro ymhellach yr eithriadau presennol a roddir i reilffyrdd a mathau penodol o gynlluniau priffyrdd. Dylid adolygu'r eithriad ar gyfer cynlluniau priffyrdd lle mae Gweinidog Cymru yn awdurdod priffyrdd.

Mae'r dull swm gohiriedig yn cael ei ddefnyddio'n anghyson ledled Cymru ac nid yw ymgeiswyr yn gallu pennu hyfywedd/costau cynllun yn gynnar. Mae angen cysondeb cenedlaethol.

## C. Gofynion Technegol

Mae ymagwedd gymesur yn allweddol. Mae'r gofynion technegol yn heriol ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau. Y farn gyffredinol yw bod y Safonau technegol yn gweddu'n dda i ddatblygiadau tai newydd nodweddiadol, ond gallant fod yn aneglur o'u cymhwyso i fathau eraill o ddatblygiadau.

Credir y dylai rhai mathau o ddatblygiadau gael eu heithrio neu y dylid ystyried eu bod yn cydymffurfio â rhai neu bob un o'r Safonau, a dylai Llywodraeth Cymru egluro'r rhain ac ymgynghori ynglŷn â senarios lle y bo'r angen. Bydd hyn yn cefnogi ymagwedd gymesur, wedi'i seilio ar risg, at reoli datblygu yn unol â bwriad y ddeddfwriaeth, heb atal na rhoi baich anghymesur ar weithgareddau datblygu bach neu welliannau seilwaith.

Mae angen egluro diffiniadau yn y ddeddfwriaeth a'r Safonau ymhellach, neu mae angen diffiniadau newydd mewn rhai achosion. Y tu hwnt i hyn, mae angen teilwra'r ffurflen gais a'r gofynion technegol i'r math o ddatblygiad o ystyried graddfa a risg.

Mae'r safonau technegol hydrolig cyffredinol yn ymddangos yn rhesymol. Gallai'r safonau hyn gael eu cymhwyso'n well yn sgil canllawiau cenedlaethol mwy eglur. Mae rhai gofynion hydrolig technegol y mae angen eu hadolygu a'u mireinio ymhellach o ganlyniad.

Mae angen canllawiau ar gynlluniau ôl-osod SuDS i'w cynorthwyo i gyflawni ar y raddfa briodol wrth symud ymlaen.

Dylai'r safonau Bioamrywiaeth ac Amwynder gael eu diweddaru i ddarparu eglurder (yn hytrach na'r geiriad cyffredinol presennol 'mwyafu') a dylent gefnogi a chyd-fynd yn well â newidiadau i bolisi a chyfeiriad bioamrywiaeth yng Nghymru ers 2019 o ran Cynllunio.

### Ch. Fforddiadwyedd a Gorfodi

Mae adolygiadau fforddiadwyedd a gorfodi yn adleisio'r gofyniad am gasglu data. Canfu adolygiad a oedd yn canolbwyntio ar ffïoedd ymgeisio fod llawer o SABau o'r farn y dylai'r ffïoedd gael eu cynyddu i dalu am gostau, ond mae'r data i ddangos a chefnogi hyn yn annigonol ac yn anghyson.

Mae angen mwy o arweiniad ar fân ddiwygiadau i geisiadau, dynodi nodweddion SuDS, gorfodi, archwiliadau, apeliadau, mabwysiadu, a bondiau diffyg cyflawni.

Mae dull cynaliadwy o ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir yn flaenoriaeth i'r holl randdeiliaid. Mae rhai cyfnodau swm gohiriedig a ddefnyddir yn achosi i ddatblygiad ddod yn anhyfyw. Anogir yn gryf bod dull ychwanegol o ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir ar ffurf tâl gwasanaeth yn cael ei ystyried. Gallai'r dyfodol gynnwys cyfuniad o opsiynau.

## 1.4 Argymhellion Blaenoriaethol Tymor Byrrach

Ar ôl adolygu'r holl themâu ac opsiynau cysylltiedig, amlygir argymhellion tymor byr blaenoriaethol. Bydd y rhain yn gwella'r broses yn sylweddol, mae'r rhanddeiliaid yn fodlon arnynt yn gyffredinol, a gellir eu cyflawni yn y tymor byrrach:

- Cychwyn casglu data ac adrodd gorfodol gan SABau, sy'n bwydo i adroddiadau perfformiad blynyddol cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru.
- Cyfuno'r holl ganllawiau, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, yn un ddogfen glir, sy'n gyson â'r ddeddfwriaeth a'r Safonau. Bydd hyn yn helpu i gau bylchau yn y dogfennau presennol sy'n arwain at amwysedd ac anghysondeb.
- Cyflwyno ffurflenni cyfreithiol safonol i egluro disgwyliadau a rhoi strwythur i'r broses.
- Ailgychwyn Grŵp Ffocws SuDS (a adwaenwyd fel y Grŵp Gweithredu SuDS gynt) gyda chynrychiolwyr ar draws diwydiant i'w gadeirio gan Lywodraeth Cymru gyda phwyslais ar gyflawni, rhannu gwersi ac arfer gorau.
- Datblygu ymagwedd genedlaethol at symiau gohiriedig, gan gynnwys rhestr o gyfraddau a hyd cyfnod cynnal a chadw. Dylid darparu canllawiau ar opsiynau cynnal a chadw i gyd-fynd â hyn.
- Ystyried dymunoldeb a hyfywedd tâl gwasanaeth a godir gan Awdurdodau Lleol fel dull o ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir ar asedau SuDS mabwysiadwy.
- Darparu rhestr glir o senarios nad oes angen cymeradwyaeth SAB arnynt, yr ystyrir eu bod yn cydymffurfio neu sydd wedi'u heithrio rhag yr angen i gael cymeradwyaeth. Bydd hyn yn cefnogi ymagwedd gymesur, wedi'i seilio ar risg, at reoli datblygu yn unol â bwriad y ddeddfwriaeth, heb atal na rhoi baich anghymesur ar weithgareddau datblygu bach neu welliannau seilwaith.
- Datblygu proses cyn-ymgeisio fwy eglur a phriodol sy'n gyson ledled Cymru, sy'n cynnwys cyngor cyfrwymol gan y SAB.

# 2. Cyflwyniad

## 2.1 Cefndir

Ym mis Ionawr 2019, dechreuwyd Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr (FWMA) 2010 yng Nghymru. Mae hyn yn mynnu bod y rhan fwyaf o ddatblygiadau newydd yn cynnwys nodweddion Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) sy’n cydymffurfio â safonau cenedlaethol a threfniadau ar gyfer cynnal a chadw tymor hir, yn ddarostyngedig i gyrff cymeradwyo draenio cynaliadwy (SABau). Ymrwymodd Llywodraeth Cymru i adolygu’r gyfundrefn SuDS ar ôl y 2 flynedd gyntaf, ond gohiriwyd hyn gan y pandemig COVID-19.

Ym mis Mawrth 2022, comisiynwyd Ove Arup and Partners (Arup) gan Lywodraeth Cymru i gynnal Adolygiad Ôl-weithredu. Mae’r Adolygiad hwn yn ystyried y ddeddfwriaeth, y safonau a’r canllawiau ochr yn ochr ag adolygiadau blaenorol a gynhaliwyd. Ychwanegir at hyn gan adborth arolygon ac ymgysylltiad pellach yn ystod 2022-23.

Mae’r Adolygiad hwn yn ceisio dysgu o’r cam gweithredu a blaenoriaethu materion, ystyried opsiynau a, lle y bo’n bosibl, gwneud argymhellion gwybodus ar sail adborth i wella’r broses wrth symud ymlaen. Mae hefyd yn ceisio ystyried yr ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu a gyflwynwyd yn 2021 i ddefnyddio SuDS i ddarparu cynefin bywyd gwyllt.

## 2.2 Cwmpas yr Adolygiad

Cwblhawyd yr Adolygiad hwn ar ran Llywodraeth Cymru gan ymgynghorwyr annibynnol sy’n ymarferwyr profiadol. Dehongliad yr ymarferwyr at ddibenion gwybodaeth yw’r safbwyntiau a fynegir ac nid ydynt yn gyfystyr â chyngor cyfreithiol.

Mae cwmpas yr Adolygiad a amlinellwyd gan Lywodraeth Cymru yn cynnwys y tasgau canlynol:

### 2.2.1 Adolygu Deddfwriaeth

- Adolygu dogfennau, gan gynnwys y rhai hynny a restrir yn Tabl 1 a Tabl 2, a choladu canfyddiadau ac argymhellion cysylltiedig. Bydd hyn yn cynnwys amlygu unrhyw argymhellion o ddarnau hŷn o waith, fel rhaglen ddraenio’r 21ain Ganrif ac adolygiad Pitt, i amlygu argymhellion defnyddiol na weithredwyd a allai helpu i gyflawni SuDS yn y dyfodol.
- Cyflwyno rhestr wedi’i choladu a’i blaenoriaethu o argymhellion tymor byr, tymor canolig a thymor hir, gan ystyried goblygiadau adnoddau pob un. Gallai hyn ystyried newidiadau i ganllawiau, deddfwriaeth, neu ffyrdd o weithio i helpu i gyflawni SuDS yn effeithiol gyda buddion ehangach.
- Adolygu deddfwriaeth sy’n berthnasol i’r swyddogaeth SAB, gan gynnwys Atodlen 3, deddfwriaeth gynllunio a deddfwriaeth arall berthnasol, i amlygu rhwystrau rhag gweithredu SuDS a chynnig datrysiadau posibl. Bydd hyn yn cynnwys adolygu sut gall y swyddogaethau cynllunio a phriffyrdd gael eu hintegreiddio’n well â’r gofynion SuDS.
- Darparu rhestr wedi’i blaenoriaethu o feysydd eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru eu hadolygu.

### 2.2.2 Safonau a Chanllawiau SuDS

Cynnal adolygiad o’r Safonau a’r Canllawiau Statudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy, gan gynnwys y canlynol:

- Cael safbwyntiau rhanddeiliaid perthnasol (manylion cyswllt wedi'u darparu gan Lywodraeth Cymru) lle y codir pryderon a chynnig datrysiadau i ddiwygio'r safonau lle y bo'n briodol.
- Amlygu a, lle y bo'n bosibl, meintioli'r buddion bioamrywiaeth a gyflawnwyd eisoes trwy weithredu deddfwriaeth SuDS na fyddent wedi'u cyflawni fel arall. Cynnig ffyrdd o gynyddu buddion bioamrywiaeth mewn SuDS yn y dyfodol.
- Ystyried ac adrodd ar sut gellir gwneud y Safonau'n fwy mesuradwy, yn enwedig o ran cyflawni buddion ehangach, gan gynnwys darparu cynefinoedd bywyd gwyllt.
- Amlinellu p'un a oes angen unrhyw eithriadau ychwanegol i'r Safonau ac, os felly, cynnig rhai posibl.
- Ystyried meysydd lle mae angen egluro a/neu ddiwygio'r ddeddfwriaeth, y Safonau a/neu'r canllawiau ymhellach. Pan fo angen egluro, amlygu p'un a oes angen y newidiadau hyn yn y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau.

### 2.2.3 Adolygu Ffïoedd

Bydd elfen benodol o'r adolygiad yn ystyried ffïoedd sy'n daladwy i SABau. Bydd yr adolygiad hwn yn ceisio:

- Cynnal adolygiad wedi'i seilio ar dystiolaeth o'r ffïoedd sy'n gysylltiedig â cheisiadau SAB a chynnig strwythur ffïoedd diwygiedig, os yw'n briodol, gan sicrhau yr adenillir costau ar yr un pryd â sicrhau pris teg a rhesymol i ymgeiswyr.
- Amlygu meysydd lle y gellir cyflawni cysondeb taliadau a lle nad yw hyn yn bosibl neu'n ddymunol.

### 2.2.4 Adolygu'r Broses Cyn-ymgeisio

Un o'r ffactorau sy'n allweddol i weithredu gofynion SuDS yn llwyddiannus yw ymgysylltiad cynnar gan y datblygwr â'r SAB. Ar hyn o bryd, gwneir hyn trwy broses anstatudol a adwaenir fel cyn-ymgeisio lle gall y datblygwr ofyn am gyngor neu wybodaeth gan y SAB ynglŷn â'i gynnig cyn cyflwyno cais SAB llawn os yw'n dymuno.

Bydd yr elfen hon o'r Adolygiad yn ceisio:

- Cynnal adolygiad o'r defnydd o'r broses cyn-ymgeisio, gan gynnwys y costau cysylltiedig, ffïoedd (pan godir y rhain) ac ansawdd a phrydlondeb y gwasanaeth a ddarperir yn seiliedig ar adborth gan ddefnyddwyr.
- Awgrymu newidiadau neu welliannau i'r broses cyn-ymgeisio os oes angen.

## 2.3 Y Broses Adolygu

Canolbwyntiodd yr Adolygiad i ddechrau ar wybodaeth bresennol, materion a godwyd, ac opsiynau a gynigiwyd gan randdeiliaid rhwng mis Ionawr 2019 a mis Gorffennaf 2022. Llywiodd yr adolygiad hwn o lenyddiaeth Adroddiad Interim yr Adolygiad a gyflwynwyd ym mis Awst 2022. Mae'r adroddiad wedi'i gynnwys yn Atodiad B.


Amlygodd yr adolygiad o lenyddiaeth fod adborth gan ymgeiswyr ers gweithredu yn gyfyngedig. Cynhaliwyd Gweithdy â Ffocws i Ymgeiswyr ym mis Hydref 2022 i gael adborth gan y grŵp ymgeiswyr. Gweithdy hybrid ydoedd a gynhaliwyd yn rhithwir ac wyneb yn wyneb. Mae adborth o'r digwyddiad yn yr iaith y'i rhoddwyd ynddi wedi'i gynnwys yn Atodiad C.

Rhoddwyd holiadur ar-lein â ffocws i randdeiliaid ar draws diwydiant yng Nghymru i gael adborth ar y materion a'r opsiynau a godwyd yn yr Adroddiad Interim. Cwblhawyd yr holiadur gan 88 o bobl/sefydliadau, gan gynnwys 19 SAB. Mae cyfres lawn o gwestiynau a chanlyniadau yn yr iaith y'u derbyniwyd ynddynt wedi'i chynnwys yn Atodiad Ch. Mae hyn yn llywio blaenoriaethu a meysydd ffocws ar gyfer argymhellion. Defnyddir rhai canlyniadau a graffiau allweddol ym mhrif gorff yr adroddiad hwn ar gyfer cyd-destun.

Roedd ffrydiau gwaith yr Adolygiad yn canolbwyntio'n benodol ar Ffïoedd Ymgeisio a'r Broses Cyn-ymgeisio. Coladwyd data a oedd ar gael gan SABau ac Ymgeiswyr i lywio argymhellion, a gefnogwyd gan gyfarfodydd yn canolbwyntio ar faterion penodol. Adroddwyd ar y rhain ym mis Ionawr a mis Chwefror 2023, yn ôl eu trefn. Mae'r manylion yn Atodiad D ac Atodiad Dd. Mae'r canfyddiadau a'r argymhellion allweddol wedi'u cynnwys yn yr adroddiad hwn hefyd.

Cynhaliwyd Digwyddiad Ar-lein Canfyddiadau ac Argymhellion sy'n Dod i'r Amlwg ar 7 Mawrth 2023. Roedd y digwyddiad hwn ar agor i'r diwydiant cyfan ac fe'i mynychwyd gan fwy na 300 o bobl. Rhoddodd lwyfan i gyflwyno argymhellion sy'n dod i'r amlwg a'u dilysu trwy adborth. Mae crynodeb o'r adborth wedi'i gynnwys yn Atodiad E.

Rhannwyd adroddiad Drafft i gael sylwadau Llywodraeth Cymru cyn i'r adroddiad terfynol hwn gael ei gynhyrchu.




**Ffigur 2 – Llinell amser yr Adolygiad**

# 3. Adolygiad o Lenyddiaeth

Llywiodd yr adolygiad o lenyddiaeth a amlinellir isod Adroddiad Interim yr Adolygiad.

## 3.1 Crynodeb o’r Llenyddiaeth a Adolygwyd

**Tabl 1 – Offerynnau statudol a chanllawiau cysylltiedig**

| Math o Ddogfen | Dogfen |
|---|---|
| **Deddfwriaeth sylfaenol** | Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010<br>(Llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae’n cynnwys ‘Atodlen 3’) |
| **Is-ddeddfwriaeth** | 5 Gorchymyn (2019)<br>1 Gorchymyn Diwygio (2020, Llywodraeth Cymru) |
| **Safonau Cenedlaethol** | Safonau SuDS Cymru (2019)<br>Mae hyn hefyd yn cynnwys canllawiau o dan y 6 Safon |
| **Canllawiau Statudol** | Canllawiau i Awdurdodau Lleol (2019) |
| **Cwestiynau Cyffredin** | Arweiniad ac eglurhad ychwanegol (2019)<br>Mae’r rhain ar ffurf ‘Ddrafft’ o hyd |

**Tabl 2 – Llenyddiaeth arall a adolygwyd**

| Llenyddiaeth | Sylwadau |
|---|---|
| **Mesur effeithiau’r ddeddfwriaeth Draenio Cynaliadwy ar SABau yng Nghymru (2021, CLlLC)** | Adolygiad o faterion ac argymhellion o adroddiad Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC) yn canolbwyntio ar SABau yng Nghymru. Ystyrir materion ac argymhellion allweddol ochr yn ochr â llenyddiaeth arall ac adborth gan randdeiliaid eraill, gan gynnwys:<br>1. Cytundeb cryf ynglŷn â gwerth y bwriad cyffredinol a chefnogaeth iddo, ond pryder bod perygl y gallai problemau gweithredu daflu cysgod ar ddefnyddio SuDS yn ehangach.<br>2. Mae angen ailgychwyn y Grŵp Gweithredu SAB.<br>3. Mae angen i brosesau SAB a chynllunio gydweddu’n agosach er mwyn annog ymgysylltiad yn gynharach yn y broses ddatblygu.<br>4. Pryderon ynglŷn â defnyddio symiau gohiriedig ar gyfer cynnal a chadw asedau SuDS a’r angen am ddull cyllido amgen.<br>5. Mae SABau a grwpiau Datblygwyr yn dymuno cael templedi cyfreithiol cenedlaethol ar gyfer cytundebau mabwysiadu. |

| Llenyddiaeth | Sylwadau |
| --- | --- |
| | Cafwyd rhywfaint o adborth gan Ymgeiswyr ac Ymgyngoreion Statudol hefyd yn ystod yr adolygiad hwn ac fe'i hystyrir yma. |
| **Ymateb HBF i adolygiad CLlLC (2021)** | Ymatebodd y Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi (HBF) i adolygiad CLlLC, gan gynnwys sylwadau a rhoi gradd blaenoriaeth (isel, canolig, uchel) i'r materion a'r argymhellion a wnaed. |
| **Ymateb yr Is-adran Cartrefi a Lleoedd (Tai ac Adfywio) i adolygiad CLlLC, M. Jones (2021)** | Rhoddodd yr Is-adran Cartrefi a Lleoedd (Tai ac Adfywio) yn Llywodraeth Cymru adborth i adolygiad CLlLC. Ymhelaethodd yr adborth ar rai o argymhellion CLlLC a chydnabu y gallai rhai o'r datrysiadau gael eu cyflawni mewn cyfnod cymharol fyr i wella'r broses. |
| **Gweithredu Atodlen 3: Olrheiniwr Materion a Chamau Gweithredu, Llywodraeth Cymru** | Adolygiad manwl o faterion a gofnodwyd gan Lywodraeth Cymru trwy ymgysylltu â SABau a rhanddeiliaid eraill a'u coladu i lywio cynigion i'w cynnwys yn yr adroddiad hwn. |
| **Gohebiaeth ysgrifenedig a thrafodaethau eraill** | Gohebiaeth ysgrifenedig gan randdeiliaid, gan gynnwys ymgeiswyr / datblygwyr / ymgyngoreion, ynglŷn â materion ac argymhellion awgrymedig trwy brofiad ymarferol o'r broses hyd yma.<br>• Dŵr Cymru<br>• HBF<br>• Hygrove Homes<br>• Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) (ymgynghorai a datblygwr coedwigaeth)<br>• Community Housing Cymru<br>• Redrow<br>• Persimmon Homes<br>• Vale Consultancy<br>• Marshalls<br>• 3P Technik UK<br>• Y Gymdeithas Cynhyrchion Mwynau<br>• CLlLC<br>• Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr<br>• Waterco |

| Llenyddiaeth | Sylwadau |
|---|---|
| | • Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol |
| **Adolygiad Ymarferydd o'r Fframwaith Cyfreithiol sy'n Llywodraethu Asedau Carthffosiaeth a Draenio yng Nghymru (2017, Llywodraeth Cymru)** | Adolygiad ymarferydd cynhwysfawr o ddeddfwriaeth yn ymwneud â charthffosiaeth a draenio, gan gynnwys ymgysylltiad helaeth â'r sector. Un o arsylwadau allweddol yr adolygiad oedd cymhlethdod deddfwriaeth a natur ddarniog rheoli dŵr. Mae'r argymhellion allweddol a wnaed yn cyd-fynd â'r materion a'r opsiynau a gyflwynir yma, gan gynnwys:<br>• Gosod cyfrifoldebau clir a mynd i'r afael ag amwysedd ynglŷn â diffiniadau a therminoleg.<br>• Darparu dulliau cyllido cylch oes digonol, gyda phwerau priodol ar gyfer gweithredwyr.<br>• Ystyried 'meddwl sy'n rheoli/cydlynu' ar gyfer draenio dŵr wyneb i oruchwylio.<br>• Darparu'r modd ymarferol (adnoddau a sgiliau) ac ariannol i gyflawni swyddogaethau.<br>• Hyrwyddo ymwybyddiaeth a chefnogaeth gyhoeddus.<br>• Materion sy'n gysylltiedig ag etifeddu asedau, megis perchnogaeth a chynnal a chadw. |
| **Argymhellion i Ddiweddaru'r Safonau Technegol Anstatudol ar gyfer Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) (2021), Defra** | Adroddiad terfynol gan brosiect ymchwil Defra ar y Safonau Technegol Anstatudol sy'n cynnwys crynodeb o'u hadolygiad a'u canfyddiadau. Mae hefyd yn cynnwys argymhellion ar gyfer chwe safon newydd. Mae'r rhain yn cyd-fynd yn agos â Safonau Cymru.<br>• Safon 1: Cyrchfannau dŵr ffo<br>• Safon 2: Glawiad arferol<br>• Safon 3: Glawiad eithafol<br>• Safon 4: Ansawdd dŵr<br>• Safon 5: Amwynder<br>• Safon 6: Bioamrywiaeth |
| **Safonau technegol anstatudol ar gyfer systemau draenio cynaliadwy (2015), Defra** | Safonau technegol anstatudol ar gyfer SuDS a gyhoeddwyd gan Defra ym mis Mawrth 2015 i'w gweithredu ochr yn ochr â'r broses gynllunio. Mae'r safonau'n cynnwys:<br>• Perygl llifogydd y tu allan i'r datblygiad<br>• Rheoli llif brig<br>• Rheoli cyfaint<br>• Perygl llifogydd o fewn y datblygiad<br>• Cyfanrwydd strwythurol |


| Llenyddiaeth | Sylwadau |
|---|---|
| | • Dylunio ar gyfer ystyriaethau cynnal a chadw<br>• Adeiladu |
| **Asesu sut mae rheoli dŵr wyneb yn strategol yn llywio'r broses o gyflawni Systemau Draenio Cynaliadwy (SuDS) trwy'r system gynllunio (2021), Defra** | Adroddiad ar ddefnyddio'r system gynllunio i ddarparu dull mwy cydgysylltiedig o ddefnyddio cynlluniau rheoli dŵr wyneb strategol i lywio cynllunio gofodol a rheoli datblygu.<br>Mae'r adroddiad yn cynnwys adolygiad o'r sefyllfa bresennol o ran cynlluniau rheoli dŵr wyneb strategol a'r dyhead ar gyfer sut y gellir eu defnyddio'n well yn y dyfodol. Mae argymhellion cysylltiedig ynglŷn â sut i gyflawni'r dyheadau hyn sydd, yn eu tro, yn cyfeirio at Adolygiad Defra o Safonau. |
| **Adolygiad Pitt (2008)** | Adolygiad o'r argymhellion a wnaed yn dilyn llifogydd 2007, yn canolbwyntio'n benodol ar yr argymhellion ynglŷn â rheoli dŵr wyneb. Mae camau gweithredu sy'n weddill o Adolygiad Pitt wedi'u cynnwys yn Atodiad A yr adroddiad hwn. |
| **Argymhellion Rhaglen Ddraenio'r 21ain Ganrif, Water UK** | Mae Rhaglen Ddraenio'r 21ain Ganrif Water UK yn coladu gwybodaeth ac ymchwil ddiwydiannol, reoleiddiol, ac academaidd i lywio cynlluniau tymor hir ar gyfer y sector carthffosiaeth a draenio.<br>Yn ogystal, mae'r Strategaeth Ddŵr i Gymru wedi gosod y cyfeiriad ar gyfer polisi dŵr yng Nghymru dros gyfnod 20 mlynedd. Mae'n gosod amcanion tymor byr, tymor canolig a thymor hir, a chamau gweithredu ategol yn benodol i Systemau Draenio a Charthffosiaeth yr 21ain Ganrif. Mae hyn yn amlygu amcan tymor canolig ar gyfer fframwaith i nodi tystiolaeth, data a bylchau yn y sector carthffosiaeth a draenio – y gallai'r Grŵp Gweithredu ar gyfer Atodlen 3 yng Nghymru fwydo iddo pe byddai'n cael ei ailsefydlu. |

# 4. Y Cam Gweithredu

Mae'r adran hon yn rhoi rhywfaint o gyd-destun ar gyfer y cam gweithredu fel cefndir i'r Adolygiad Ôl-weithredu hwn.

Ar hyn o bryd, mae 19 o Gyrff Cymeradwyo SuDS (SABau) yng Nghymru o gymharu â'r 22 Awdurdod Lleol unedol, gan fod rhai wedi uno i gyflawni'r swyddogaeth SAB trwy ddull rhanbarthol. Yn nodweddiadol, penderfynodd Awdurdodau Lleol y dylai'r SAB ffurfio rhan o dîm yr Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol. Fodd bynnag, mae dulliau eraill yn cael eu defnyddio; mae un enghraifft o'r rôl SAB yn cael ei chileno gan y tîm priffyrdd mewn awdurdod lleol.

Mae'r data sydd ar gael yn anghyflawn ac yn anghyson, gan gyfyngu ar ddadansoddiad manwl.




**Ffigur 3 – Ceisiadau SAB yn ôl Awdurdod Lleol 2021 a 2022 wedi'u cyfuno, o'r data sydd ar gael a ddarparwyd**

Amlygodd adolygiad CLlLC (2021) fod cyfran fawr o geisiadau'n ymwneud ag eiddo unigol / datblygiad bach. Ar y pryd, nodwyd bod hyn yn cyfyngu ar adnoddau oherwydd bod angen tywys ymgeiswyr anghyfarwydd trwy'r broses ddylunio mewn sawl achos.


O'r data diweddar sydd ar gael, mae SABau yn amcangyfrif y derbynnir rhwng 20% a 60% o'r ceisiadau sy'n ofynnol, o gymharu â data ceisiadau Cynllunio. Mae hyn yn cyd-fynd â data ac arwyddion cynnar gan SABau bod diffyg sylweddol o ran ceisiadau o gymharu â disgwyliadau wrth ystyried datblygiadau yn gyffredinol, o ran yr hyn y gellid ei ddisgwyl wrth adolygu ceisiadau Cynllunio a chan nodi efallai na fydd angen caniatâd Cynllunio ar lawer o fathau o ddatblygiadau y mae angen iddynt gyflwyno cais SAB.

Mae llawer o ddatblygiadau wrthi'n mabwysiadu ar hyn o bryd, yn amrywio o 1 i 20 fesul SAB yn seiliedig ar y data diweddar sydd ar gael. Fodd bynnag, mae enghreifftiau SABau o SuDS a fabwysiadwyd yn llawn, yn dilyn dylunio ac adeiladu systemau draenio, yn gymharol brin. Mae'r broses ar gam cymharol gynnar o hyd o ystyried y graddfeydd amser sy'n gysylltiedig â dylunio, adeiladu a throsglwyddo datblygiad, sy'n aml yn cynnwys cyfnodau diffygion hir. Nid oedd yn ofynnol i ddatblygiad a chanddo gais cynllunio a gymeradwywyd neu a ddilyswyd cyn mis Ionawr 2019 fynd trwy'r broses. Effeithiodd y pandemig ar gyflymder datblygu yng Nghymru hefyd.

Mae'r camau gorfodi a gymerwyd gan SABau wedi bod yn gyfyngedig. Mae enghreifftiau'n cynnwys hysbysiadau stop dros dro a gwrthod ceisiadau o ganlyniad i ddiffyg manylion.

Mae'r cam gweithredu wedi amlygu llwyddiannau ochr yn ochr â meysydd lle mae angen gwelliannau. At ei gilydd, mae mwyafrif y rhanddeiliaid yn y broses yn cytuno â'r canlyniadau buddiol a gyflawnir gan SuDS ac yn cefnogi egwyddor Atodlen 3. Mae Ffigur 4, o'r holiadur diweddar a roddwyd i ystod eang o randdeiliaid, yn dangos y profiad cymysg. Er bod hyn yn canolbwyntio ar y problemau, ac argymhellion i

fynd i’r afael â nhw, cydnabyddir bod llawer o enghreifftiau da o’r broses a chanlyniadau ledled Cymru. Mae rhai o’r llwyddiannau hyn yn rhoi enghreifftiau defnyddiol a sylfaen ar gyfer cyflawni argymhellion.





| | Da iawn | Da | Gwael | Gwael iawn | Dim ymateb |
|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | 1 | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | | 1 | | |
| SAB | 7 | 6 | 5 | 1 | |
| Ymgeisydd | 4 | 26 | 20 | 11 | 3 |

**Ffigur 4 – Adborth ar effeithiolrwydd y cam gweithredu**

# 5. Materion, Adborth ac Argymhellion

Roedd yr Adolygiad o Lenyddiaeth, a oedd yn cynnwys adborth a gafwyd yn ystod y cam gweithredu, wedi helpu i lywio rhestr wedi’i choladu o faterion. Amlinellwyd y materion hyn ac opsiynau cysylltiedig mewn Adroddiad Interim i Lywodraeth Cymru ym mis Awst 2022. Defnyddiwyd y Materion a’r Opsiynau i lywio ymgysylltiad pellach, gan gynnwys gweithdai, cyfarfodydd, a holiadur ar-lein. Mae manylion llawn yr ymgysylltiad hwn wedi’u cynnwys yn yr Atodiadau ar ddiwedd yr adroddiad hwn. Roedd adborth dilynol o’r ymgysylltiad ychwanegol wedi llywio’r argymhellion yn yr adran hon.




**Ffigur 5 – Crynodeb o sut y cyflwynir canfyddiadau o dan bob Thema**

## 5.1 Categorïau a Themâu

Mae 17 Thema wedi dod i’r amlwg wrth adolygu’r materion a godwyd yn ystod y cam gweithredu. Mae’r Themâu hyn wedi’u rhannu’n bedwar Categori, fel y dangosir yn Tabl 3.

Gwneir argymhellion o ganlyniad. Rhoddir ystyriaeth i oblygiadau adnoddau pob argymhelliad.

Mae’r argymhellion wedi cael eu categoreiddio hefyd ar sail p’un a ellir eu cyflawni yn y tymor byr, y tymor canolig neu’r tymor hir.

- **Tymor byr**: Potensial i’w gwblhau o fewn 6-12 mis. Camau gweithredu sydd o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru / Awdurdodau Lleol heb fod angen ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol na deddfwriaeth.
- **Tymor canolig**: Potensial i’w gwblhau o fewn 12-24 mis. Mae angen ymgynghori a/neu newid is-ddeddfwriaethol neu mae’n dibynnu ar drydydd parti/trefniant masnachol newydd.
- **Tymor hir**: Potensial i’w gwblhau o fewn 2-5 mlynedd. Mae’n dibynnu ar gamau gweithredu tymor byr/canolig eraill a’u heffaith, neu’n golygu bod angen newid i ddeddfwriaeth sylfaenol.

**Tabl 3 – Categorïau a Themâu**

| Categori | Thema |
|---|---|
| Categori A: Llywodraethu ac Adnoddau | Casglu Data a Dangosyddion Perfformiad |
| | Cyfnod machlud |
| | Adnoddau |
| | Bylchau Sgiliau |
| Categori B: Cysondeb | Canllawiau |
| | Cyfnod Penderfynu |
| | Y Broses Ymgeisio (gan gynnwys Alinio â Chynllunio) |
| | Alinio â Phriffyrdd |
| | Eithriadau Presennol |
| Categori C: Gofynion Technegol | Cymesuredd |
| | Safonau Technegol |
| | Bioamrywiaeth ac Amwynder |
| Categori Ch: Fforddiadwyedd a Gorfodi | Ffïoedd |
| | Gorfodi |
| | Apeliadau |
| | Mabwysiadu |
| | Ariannu Gwaith Cynnal a Chadw Tymor Hir |
| | Archwiliadau |
| | Bond |

# 6. Categori A: Llywodraethu ac Adnoddau

## 6.1 Casglu Data a Dangosyddion Perfformiad

### 6.1.1 Crynodeb o'r Materion


Mae'r adolygiad hwn wedi dangos bod y data a gesglir gan SABau yn amrywio ledled Cymru a bod manylion y data hynny'n anghyson. Nid oes gofyniad ar hyn o bryd i gasglu ac adrodd ar ddata. Mae absenoldeb data a thystiolaeth cyson yn golygu na ellir gwneud newidiadau gwybodus i'r broses ymgeisio a chymeradwyo.

Y tu hwnt i hyn, nid oes gan SABau fframwaith perfformiad cyhoeddus, yn debyg i Awdurdodau Cynllunio Lleol. Mae hyn yn cyfyngu ar y gallu i gymharu'r gofynion a'r canlyniadau amrywiol ar draws y SABau. Coladwyd ffigurau ac ystadegau cynnar trwy adolygiad 2021 CLlLC, ond roedd y broses weithredu ar gam cymharol gynnar bryd hynny.

Cydnabyddir y gallai rhai o'r materion a'r opsiynau a nodir yn yr adroddiad hwn fod yn ganfyddedig, yn hytrach na materion a brofwyd. Cyd-ddigwyddodd y cyfnod gweithredu ag ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd a'r pandemig, a gyfyngodd ar adnoddau a chyfraddau cyflawni rhanddeiliaid a oedd yn ymwneud â datblygu. Bydd data wedi'u diweddaru (a allai hefyd gefnogi dangosyddion perfformiad defnyddiol yn y dyfodol ledled Cymru) yn helpu i flaenoriaethu opsiynau a gwelliant parhaus i'r dyfodol.

### 6.1.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Yn rhan o'r holiadur, gofynnwyd i'r ymatebwyr a oes angen fframwaith perfformiad cyhoeddus, yn debyg i'r fframwaith yn y broses Cynllunio Gwlad a Thref. Byddai hyn yn golygu y byddai'n ofynnol i'r SAB adrodd ar fetrigau fel y cyfnod penderfynu, nifer y ceisiadau a gymeradwywyd, ac ati. Roedd 88% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai hyn gael ei gyflwyno. Canfu cwestiwn dilynol fod 69% o'r ymatebwyr hynny'n credu y dylai'r gwaith adrodd hwn ddigwydd ar lefel SAB lleol.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 3 | | 1 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 9 | 7 | 3 |
| Ymgeisydd | 57 | 3 | 4 |

**Ffigur 6 – Canlyniadau'r holiadur ar b'un a oedd angen fframwaith perfformiad cyhoeddus**

### 6.1.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 4 – Argymhellion ynglŷn â dangosydd perfformiad**

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| A01 | **Gofyniad i bob SAB gasglu ac adrodd ar ddata. Dylai hyn fwydo i adroddiadau blynyddol cenedlaethol ar ystadegau a dangosyddion perfformiad.**<br>Mae'r adolygiad hwn wedi canfod bod diffyg tystiolaeth o ystod eang o fetrigau ar gael gan y SABau. Er bod rhai SABau yn casglu data, mae'n anghyson ac o ansawdd annigonol i ddeall y sefyllfa yn y wlad.<br>Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo SABau ledled Cymru i gasglu ac adrodd ar ddata. Dylai CLlLC hwyluso'r broses hon a chreu cysondeb o ran casglu data, a allai ychwanegu at enghreifftiau lleol da o gasglu data.<br>Gallai gwybodaeth gynnwys y canlynol o leiaf o 2023 ymlaen. Byddai hyn yn helpu i ddangos gwelliannau i'r broses yn y dyfodol, er enghraifft arfarniad economaidd i bennu p'un a oes angen gwneud newidiadau i'r strwythur ffïoedd ymgeisio.<br>• Nifer y ceisiadau a dderbyniwyd (yn ôl math o ddatblygiad).<br>• Dyddiad 1) derbyn, 2) dilysu, 3) cymeradwyo/gwrthod pob cais.<br>• Y rheswm dros wrthod cais (os yw'n briodol).<br>• Y ffi fesul cais a'r math o ddatblygiad.<br>• Yr amser gwirioneddol a dreuliwyd ar bob cais mewn oriau a'r costau taladwy cyfatebol.<br>• Nifer yr unigolion sy'n gweithio ar y cais a'u cyfraddau fesul awr.<br>• Unrhyw argostau a gorbenion a ddenwyd gan benderfyniad SAB.<br>• Costau ychwanegol a ysgwyddwyd gan y SAB ar ôl penderfynu, gan gynnwys archwilio, mabwysiadu ac ardystio.<br>Mae'n rhaid i'r data a gesglir gan yr holl SABau fod yn gyson er mwyn gallu cynnal arfarniad sy'n ystyried yr holl ffactorau perthnasol. Dylai'r rhestr uchod gael ei hadolygu i sicrhau bod y data'n ddigonol i lywio newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol. Dylai'r argymhelliad hwn gael ei weithredu cyn gynted â phosibl.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Yn dilyn cyfarwyddyd cychwynnol gan Lywodraeth Cymru a CLlLC, dylai casglu data gan SABau ffurfio rhan o weithgareddau gweinyddol arferol. Dylai data cenedlaethol gael eu coladu a'u cyhoeddi ar ddiwedd pob chwarter/blwyddyn gan Lywodraeth Cymru neu CLlLC (neu gorff Goruchwylio SAB newydd os bwriedir ffurfio un). | Tymor byr<br>(o fewn 6-12 mis) |

## 6.2 Cyfnod machlud

### 6.2.1 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Nodwyd yn ystod ymgysylltu y dylai 'cyfnod machlud' gael ei sefydlu ar gyfer ceisiadau Cynllunio a gymeradwywyd neu a ddilyswyd cyn mis Ionawr 2019. Mae hyn yn ystyried y canlynol:

- Mae paragraff 5(1) Gorchymyn Draenio Cynaliadwy (Cymeradwyo a Mabwysiadu) (Cymru) 2018 yn amlinellu trefniant trosiannol ar gyfer datblygiadau y cymeradwywyd neu y dilyswyd ceisiadau cynllunio ar eu cyfer cyn 7 Ionawr 2019.
- Nid oes cymal machlud ar gyfer y ddarpariaeth drosiannol hon, sy'n golygu y gallai fod oedi o ran datblygiadau nad oes rhaid iddynt wneud cais am ganiatâd SAB oherwydd eu bod yn bodloni'r gofynion hyn.
- Er bod cymeradwyaeth gynllunio'n ddilys am 5 mlynedd yn unig fel arfer, mae pethau y gellir eu gwneud (fel rhyddhau amodau a chyflwyno datblygiadau fesul cam) sy'n gallu ymestyn y cyfnod hwn cyn i waith adeiladu ddechrau.

### 6.2.2 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 5 – Argymhelliad ynglŷn â chyfnod machlud**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| **A02** | **Ystyried gweithredu cymal machlud i sicrhau bod unrhyw ddatblygiad sydd wedi cael caniatâd cynllunio a gymeradwywyd neu a ddilyswyd cyn 7 Ionawr 2019, ond nad yw wedi dechrau cael ei adeiladu erbyn 7 Ionawr 2025, yn cael ei orfodi i wneud cais am ganiatâd SAB.**<br><br>Byddai hyn yn caniatáu i 5 mlynedd lawn fynd heibio ar gyfer ceisiadau a gymeradwywyd ac a ddilyswyd cyn mis Ionawr 2019.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Byddai hyn yn gofyn am newid i is-ddeddfwriaeth ar ffurf gorchymyn diwygio. | Tymor canolig |

## 6.3 Adnoddau

### 6.3.1 Crynodeb o'r Materion


Mae heriau adnoddau mewn timau SAB wedi codi droeon mewn adborth gan yr holl randdeiliaid. Mae hyn yn gysylltiedig â nifer y staff â sgiliau priodol, timau SAB sydd wedi'u gorlwytho, nifer y ceisiadau y mae arnynt angen cyngor a mewnbwn, a phwysau allanol eraill (dyletswyddau eraill y gallai'r tîm SAB eu cyflawni, fel Awdurdod Llifogydd Lleol Arweiniol). Yn gyffredinol, mae SABau wedi wynebu heriau o ran cadw pobl, recriwtio a hyfforddiant o fewn timau. Nodir bod sawl aelod o staff profiadol wedi gadael rolau SAB yn ystod y cam gweithredu.

Mae ymgeiswyr wedi dweud nad ydynt yn credu bod llawer o gymhelliad i SABau brosesu cais yn effeithlon, o ganlyniad i ddiffyg atebolrwydd. Gall hyn arwain at ddim ymateb neu ymateb hwyr iawn yn dilyn cais SAB, sy'n effeithio ar raglenni a chostau.

### 6.3.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Ceisiodd yr holiadur safbwyntiau ar sut oedd adnoddau'n effeithio ar geisiadau. Dywedodd 85% o'r ymatebwyr eu bod yn effeithio ar fwy na hanner y ceisiadau, a dywedodd 35% eu bod yn effeithio ar bob cais.

Ceisiodd yr holiadur safbwyntiau hefyd ar bwy oedd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth SAB, o ystyried profiad ers gweithredu. Mae'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr o'r farn y dylai'r rôl hon aros gyda'r Awdurdod Lleol, gan restru gwybodaeth leol a chysylltiadau â swyddogaethau eraill yr awdurdod lleol fel rhesymau dros hyn. O ran y rhai a awgrymodd ymagwedd SAB genedlaethol, rheswm allweddol dros hyn oedd creu mwy o gysondeb yn y broses a'r gofynion, a amlygwyd yn ystod ymgysylltu ag ymgeiswyr hefyd.




| | SABau lleol (awdurdod lleol) | SAB cenedlaethol (Cymru gyfan) | SABau rhanbarthol (gogledd, de-ddwyrain, de-orllewin) | Corff / sefydliad arall |
|---|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | 3 | |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | |
| SAB | 17 | | 1 | 1 |
| Ymgeisydd | 24 | 20 | 6 | 13 |

**Ffigur 7 – Pwy sydd yn y sefyllfa orau i gyflawni'r swyddogaeth SAB**

### 6.3.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 6 – Argymhellion ynglŷn ag adnoddau**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| A03 | **Cynnal adolygiad sy'n canolbwyntio ar y rhesymau pam mae peirianwyr draenio'n gadael eu swyddi mewn Awdurdodau Lleol.**<br>Nodir bod sawl swyddog SAB profiadol wedi gadael eu swyddi yn ystod y cam gweithredu. Dylai'r adolygiad hwn gynnwys trafodaethau â staff mewn rolau SAB a chynnwys staff sydd wedi symud ymlaen sy'n fodlon cymryd rhan. Dylai'r adolygiad ystyried llwybrau/opsiynau gyrfa, cyflogau, p'un a yw staff yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, os/sut mae rheoli dŵr wyneb yn cael ei werthfawrogi o fewn Awdurdodau Lleol, a'r pwysau a brofir gan staff SAB. Dylid ystyried yr achos dros fodelau cyflawni rhanbarthol/partneriaeth i gyflawni màs llwyth gwaith critigol er mwyn meithrin llwybrau gyrfa ac arbenigwyr angenrheidiol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Yn dilyn cyfarwyddyd cychwynnol gan Lywodraeth Cymru, gallai'r adolygiad hwn gael ei gynnal gan CLlLC neu drydydd parti. Byddai angen i dimau SAB neilltuo amser i gefnogi/cyfweld. | Tymor byr |
| A04 | **Hyrwyddo SuDS yn ehangach o fewn addysg, gan gynnwys ysgolion, colegau, a phrifysgolion.**<br>Yn y tymor byr, bydd cymryd camau gweithredol i annog a hyrwyddo draenio o fewn addysg yn cynyddu ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd sydd ar gael. Bydd hyn yn helpu i leihau'r bwlch sgiliau yn y sector draenio a denu pobl o faes peirianneg sifil i ddraenio. Efallai na fydd canlyniadau hyn yn amlwg ar unwaith.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cysylltu â Sefydliadau i hwyluso hyn ac annog cyfranogiad a darlithiau gwadd (ICE, CIWEM, CIRIA), ac ymgysylltu ag ysgolion, prifysgolion a cholegau.<br>Mae hyn yn cysylltu ag opsiynau a gyflwynir o dan y thema 'bwlch sgiliau'. | Tymor byr |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| A05 | **Datblygu cymwysterau a chynnwys cwrs SuDS.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r Cyd-fwrdd Cymedrolwyr, Prifysgolion a Cholegau Cymru, a darparwyr prentisiaethau i gynnal adolygiad o gyrsiau peirianneg sifil a chyrsiau cysylltiedig ag adeiladu, a sut gellid gwella hyn ar draws disgyblaethau gan gynnwys peirianneg, cynllunio a chymwysterau eraill sy'n seiliedig ar adeiladu.<br><br>Creu deilliannau dysgu safonol i'w cyflwyno mewn partneriaeth â'r Cyd-fwrdd Cymedrolwyr.<br><br>Mae angen ystyried bylchau sgiliau mewn sectorau eraill hefyd, gan gynnwys yr amgylchedd a thirwedd.<br><br>Er y gellir meddwl am hyn yn y tymor byr, byddai'n cymryd amser i gael ei ymgorffori mewn cynnwys cwrs a byddai oedi hefyd cyn iddo wneud gwahaniaeth yn y diwydiant. Gallai cynllun gael ei ddatblygu i annog y diwydiant i gefnogi darparwyr addysg â chynnwys eu cyrsiau.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Llywodraeth Cymru i'w gychwyn. Yna, gallai hyn gael ei allanoli i drydydd parti. Bydd angen ei gyflawni mewn partneriaeth â'r Cyd-fwrdd Cymedrolwyr, Prifysgolion, Colegau, a darparwyr prentisiaethau. | Tymor hir |

## 6.4 Bylchau Sgiliau

### 6.4.1 Crynodeb o'r Materion

Mae bwlch sgiliau ar draws y sector draenio. Mae llawer o dimau SAB wedi nodi ei bod yn anodd cyflogi a/neu gadw staff cymwysedig, ac mae sawl peiriannydd draenio arweiniol wedi gadael swyddi mewn timau SAB yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn gysylltiedig â'r mater adnoddau a ddisgrifiwyd yn yr adran uchod. Mae adolygiad CLlLC (2021) yn nodi bod prinder sgiliau ac adnoddau'n bodoli ym meysydd arbenigol bioamrywiaeth, amwynder, archwiliadau, gorfodi, a chymorth cyfreithiol.

### 6.4.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Gofynnodd yr holiadur i'r ymatebwyr a oeddent wedi sylwi ar fwlch sgiliau yn y diwydiant draenio ehangach ar hyn o bryd. Cydnabu 97% o'r ymatebwyr y bwlch hwn yn y diwydiant ehangach ac roedd 96% yn teimlo ei fod wedi effeithio ar y SABau maen nhw'n gweithio gyda nhw.

Nodir hefyd trwy ymgysylltu nad yw'r bwlch sgiliau yn y sector wedi'i gyfyngu i dimau SAB. Amlygir bod prinder sgiliau a gwybodaeth ar draws dylunio ac adeiladu yn fwy cyffredinol yn y diwydiant.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 2 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 19 | | |
| Applicant | 55 | 2 | 6 |

**Ffigur 8 – P'un a oes bwlch sgiliau yn y diwydiant draenio**

### 6.4.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 7 – Argymhellion ynglŷn â bwlch sgiliau**

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| A06 | **Gweithio gyda chyrff proffesiynol i hyrwyddo SuDS, darparu hyfforddiant achrededig a sut i lywio'r system yng Nghymru.**<br>Er y byddai'n cymryd mwy o amser i ddatblygu a gweithredu hyfforddiant achrededig, fel y dangoswyd uchod, gall Llywodraeth Cymru weithio gyda chyrff fel prifysgolion, colegau, a sefydliadau proffesiynol i ddatblygu pecynnau sy'n gallu cyfrif tuag at ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP).<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Gallai Llywodraeth Cymru ystyried cysylltu â sefydliad i hwyluso hyn (e.e. ICE, CIWEM, CIRIA). Nodir bod hyfforddiant wedi cael ei ddarparu'n gynnar yn ystod y cam gweithredu ac y gellid ei loywi. | Tymor canolig |
| - | **Datblygu cymwysterau a chynnwys cwrs SuDS.**<br>Fel yr amlinellwyd yn yr argymhellion ynglŷn ag adnoddau. | Tymor hir |

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| A07 | **Achrediad i beirianwyr cymwys.**<br>Byddai'n cymryd amser i ddatblygu, ariannu a gweithredu achrediad i beirianwyr SuDS. Hyd yn oed ar ôl ei weithredu, fe allai gymryd amser i ennill y statws priodol a byddai angen iddo gael ei reoleiddio. Dylid ei ddatblygu mewn ffordd sy'n sicrhau nad yw'n dod yn rhwystr rhag cyflawni/cymeradwyo SuDS yn llwyddiannus.<br>Nodir bod gwaith yn mynd rhagddo gan CIWEM yn Lloegr i ystyried y posibilrwydd o achredu. Mae cyfle i weithio gyda nhw ar ymagwedd gyson.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gysylltu â sefydliadau i hwyluso hyn (e.e. ICE, CIWEM, CIRIA). | Tymor hir |

# 7. Categori B: Cysondeb

## 7.1 Canllawiau

### 7.1.1 Crynodeb o'r Materion

Nodwyd yn eang bod bylchau ac, mewn rhai achosion, gwrthdaro yn y dogfennau a'r canllawiau a gyhoeddwyd i gefnogi'r broses o weithredu Atodlen 3. Mae rhywfaint o'r amwysedd yn ymwneud â thermau a diffiniadau o'r ddeddfwriaeth a'r Safonau, y gellir eu dehongli'n wahanol. Mae hyn wedi arwain at amwysedd ac anghysondeb yn yr ymagwedd ledled Cymru.

Yn aml, mae angen i'r SAB roi cymorth dwys o flaen llaw i ymgeiswyr newydd neu lai o faint i fynd i'r afael ag amwysedd, gan arwain at gostau anghymesur na ellir eu hadennill i'r SAB.

Mae anghysondebau rhwng SABau (neu weithiau hyd yn oed swyddogion gwahanol sy'n gweithio mewn SAB) yn golygu bod ceisiadau'n cymryd mwy o amser i ddatblygwyr, gyda gwaith ofer costus.

Mae rhai SABau wedi datblygu eu dehongliadau eu hunain i gael cysondeb o fewn eu hawdurdodaeth. Mae rhai wedi mabwysiadu safbwyntiau cryf ar bynciau penodol tra bod eraill yn defnyddio dulliau gwahanol iawn.


Yn ogystal, nid oes corff llywodraethu i ddarparu rheolaeth i reoleiddio'r SABau a'u penderfyniadau oni bai y penderfynir apelio.

### 7.1.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Ceisiodd yr holiadur safbwyntiau ar sawl pwnc yn ymwneud â dogfennau a'r anghysondebau a'r amwysedd sydd wedi codi.


*Diffiniadau*

Mae'r ffigurau isod yn dangos yr ymatebion i b'un a yw termau penodol wedi'u diffinio'n glir.





| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | 2 | | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | | | 1 | | |
| SAB | 1 | 8 | 8 | 1 | 1 | |
| Ymgeisydd | 10 | 20 | 20 | 9 | 4 | 1 |

**Ffigur 9 – P'un a ydych yn cytuno bod "strwythur" wedi'i ddiffinio'n glir**





| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | 2 | | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | | | 1 | | |
| SAB | 1 | 6 | 3 | 8 | 1 | |
| Ymgeisydd | 9 | 16 | 22 | 9 | 7 | 1 |

**Ffigur 10 – P'un a ydych yn cytuno bod "adeiladu" wedi'i ddiffinio'n glir**





| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | 1 | | | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | | | | 1 | | |
| SAB | 5 | 7 | 3 | 4 | | |
| Ymgeisydd | 13 | 18 | 22 | 8 | 2 | 1 |

**Ffigur 11 – P'un a ydych yn cytuno bod "goblygiadau draenio" wedi'u diffinio'n glir**




| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | | 1 | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | | | |
| SAB | | 5 | 1 | 7 | 6 | |
| Ymgeisydd | 11 | 4 | 20 | 15 | 13 | 1 |

**Ffigur 12 – P'un a ydych yn cytuno bod "eiddo unigol" wedi'i ddiffinio'n glir**




| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | 1 | | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | | | |
| SAB | 2 | | 3 | 10 | 4 | |
| Ymgeisydd | 9 | 11 | 23 | 11 | 8 | 2 |

**Ffigur 13 – P'un a ydych yn cytuno bod "datblygiad tir llwyd" wedi'i ddiffinio'n glir**




| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | 1 | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | | | |
| SAB | 1 | 3 | 7 | 8 | | |
| Ymgeisydd | 6 | 10 | 32 | 10 | 3 | 3 |

**Ffigur 14 – P'un a ydych yn cytuno bod "ôl-osod" wedi'i ddiffinio'n glir**




| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | 1 | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | | | |
| SAB | 3 | 4 | 4 | 7 | 1 | |
| Ymgeisydd | 10 | 8 | 30 | 12 | 3 | 1 |

**Ffigur 15 – P'un a ydych yn cytuno bod "arwyneb (sy'n gorchuddio tir)" wedi'i ddiffinio'n glir**

Mae'r ymatebion yn dangos bod dryswch helaeth ynglŷn â'r rhan fwyaf o dermau. Fodd bynnag, roedd yn ymddangos mai'r termau "strwythur", "adeiladu", "goblygiadau draenio" ac "arwyneb (sy'n gorchuddio tir)" yw'r rhai lleiaf eglur a bod y term "eiddo unigol" wedi'i ddiffinio'n fwy eglur. Ni fynegodd llawer o'r ymatebwyr farn am bob un o'r termau hyn, sy'n golygu ei bod yn anodd gwybod p'un a oeddent yn deall o ble'r oedd y termau hyn yn dod.

Yn ogystal, gofynnwyd p'un a oedd angen i unrhyw beth arall gael ei ddiffinio. Y term mwyaf poblogaidd y nodwyd bod angen ei ddiffinio'n glir oedd "mabwysiadu", ac yna "dechrau ar y safle".

*Dogfennau canllaw*

Gofynnwyd i’r ymatebwyr hefyd p’un a ddylai’r dogfennau canllaw niferus sydd ar gael ar hyn o bryd gael eu cadw ar wahân neu gael eu cyfuno’n ddogfen unigol. Roedd 72% o’r rhai a fynegodd farn yn credu y dylent gael eu cyfuno’n ddogfen unigol.

Gofynnwyd hefyd a oedd digon o ganllawiau dylunio ar gael. Roedd 78% o’r ymatebwyr o’r farn nad oedd digon o ganllawiau dylunio (gan gynnwys 63% o SABau), a dywedodd y mwyafrif hefyd y dylai hyn gael ei osod ar lefel genedlaethol ac y dylai canllawiau penodol i sector (datblygiadau tai bach, amaethyddiaeth, ac ati) gael eu datblygu.

*Dogfennau*

Gan gysylltu â’r adborth uchod ar ganllawiau, ystyrir yr ystod o ddogfennau sy’n gysylltiedig â’r gofynion, y prosesau a’r gweithdrefnau. Nodir bod ystod o ddogfennau ar hyn o bryd, y cyflwynwyd rhai ohonynt ar yr adeg weithredu ac eraill a gyhoeddwyd ers hynny.

**Safonau Statudol**
- Mae'r rhain yn gosod y gofynion technegol
- Maen nhw hefyd yn cynnwys canllawiau ar y gofynion technegol

**Canllawiau Statudol Draenio Cynaliadwy (SuDS)**
- Mae'r is-deitl yn awgrymu mai'r gynulleidfa fwriadedig yw Awdurdodau Lleol
- Maen nhw'n annhechnegol yn gyffredinol.

**Cwestiynau Cyffredin (Drafft)**
- Mae'r teitl yn awgrymu statws 'drafft'
- Maen nhw'n canolbwyntio'n bennaf ar brosesau a gweithdrefnau.

**Canllaw Amaethyddiaeth**
- Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer datblygiadau amaethyddol yn benodol.
- Mae'n ceisio darparu canllawiau wedi'u symleiddio ar ofynion technegol a phrosesau.

**Canllaw datblygiadau bach**
- Fe'i cynhyrchwyd ar gyfer datblygiadau annedd unigol yn benodol.
- Mae'n ceisio darparu canllawiau wedi'u symleiddio ar ofynion technegol a phrosesau.

**Pocedi o ganllawiau lleol a dehongliadau**
- Nid ydynt yn ofynnol ond fe'u cynhyrchwyd gan rai SABs
- Fe'u cynhyrchwyd yn rhanbarthol mewn rhai achosion
- Maen nhw wedi'u cynhyrchu ond heb eu cyhoeddi mewn rhai achosion.

**Llawlyfr SuDS**
- Cyfeirir ato yn y Safonau Statudol drwyddynt draw
- Fe'i hystyrir yn gyffredinol yn arfer gorau ar gyfer dylunio yn y Deyrnas Unedig.
- Disgwylir iddo gael ei ddiweddaru.

**Canllawiau Apeliadau**
- Fe'u cyhoeddwyd gan yr Arolygiaeth Gynllunio ym mis Ionawr 2019.
- Maen nhw'n rhoi arweiniad ar y broses apeliadau, camau a graddfeydd amser.

**Ffigur 16 – Dogfennau presennol**

Ystyriwyd blaen-strategaeth ar gyfer dogfennau sy’n gysylltiedig â dylunio a chyflawni SuDS. Amlinellir hyn yn y ffigur isod, gan ystyried adborth a gafwyd yn rhan o weithgareddau ymgysylltu. Dyma’r pedair dogfen ar wahân:

**Safonau Statudol**

- Yn unol â'r ddogfen bresennol, gyda diweddariadau yn seiliedig ar argymhellion a wnaed yn rhan o'r Adolygiad Ôl-weithredu hwn.
- Diben y ddogfen hon yw diffinio'r gofynion technegol cenedlaethol.
- Maen nhw'n parhau i roi arweiniad cysylltiedig a phenodol ar bob un o'r Safonau.

**Canllawiau Cenedlaethol**

- Diweddariadau i'r 'Canllawiau Statudol' gyda safonau dyblyg wedi'u dileu/lleihau.
- Canolbwyntio ar brosesau a gweithdrefnau.
- Ehangu'r canllawiau i gynulleidfaoedd eraill (dileu'r cyfeiriad at SABs yn is-deitl y ddogfen), a dileu'r angen am ddogfen cwestiynau cyffredin ar wahân.
- Gallai atodiadau/adrannau gynnwys gwybodaeth benodol ar gyfer sectorau fel Amaethyddiaeth, datblygiadau bach (yn seiliedig ar gynnwys Nodiadau Cyngor presennol sydd eisoes wedi'u cynhyrchu, yn ogystal ag unrhyw rai newydd).
- Ystyried p'un a ellir rhoi'r teitl 'Statudol' i'r Canllawiau hyn, o gofio paragraff 15 Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a 2010.

**Llawlyfr Dylunio Cenedlaethol**

- Anstatudol ond arfer gorau.
- Mae'r canllawiau hyn ar gyfer dylunio, adeiladu a chynnal a chadw tymor hir.
- Mae'n cynnwys ehangu damcaniaeth, canllawiau dylunio manwl, enghreifftiau, astudiaethau achos, manylion safonau, templedi.
- **Sylwer:** Disgwylir i'r Llawlyfr SuDS gael ei ddiweddaru gan CIRIA Susdrain o fewn yr ychydig flynyddoedd nesaf. Mae hyn yn gyfle i Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid yng Nghymru fwydo i'r broses o'i gynhyrchu/ei gynnwys. Argymhellir yn gryf bod Llywodraeth Cymru yn achub ar y cyfle hwn.

**Atodiadau Lleol / Rhanbarthol**

- Mae'r rhain yn rhoi gofynion a chanllawiau lleol penodol lle y bo'r angen.
- Fformat/cynnwys cyson i'w gytuno.
- Nid ydynt yn dyblygu'r dogfennau eraill uchod ond maen nhw'n rhoi eglurder ar lefel leol. Gallai enghreifftiau gynnwys y potensial ar gyfer suddfannau dŵr yn yr ardal leol, a chysylltiadau â strategaethau/cynlluniau lleol eraill.

**Ffigur 17 – Strategaeth bosibl ar gyfer dogfennau**

### *Grŵp gweithredu*

Sefydlwyd y Grŵp Gweithredu SuDS gan Lywodraeth Cymru i:

- roi cyfeiriad lefel uchel ar weithredu SuDS yng Nghymru;
- amlygu risgiau gweithredu allweddol, anghysondebau a chyfleoedd i wella;
- gwneud argymhellion ar sail tystiolaeth, ystyried a chymeradwyo cynigion a rhoi mesurau addas ar waith (gan gynnwys cynlluniau adnoddau priodol) i fynd i'r afael â'r pryderon hyn;
- cydweithio â phartneriaid allweddol a rhannu gwybodaeth ac enghreifftiau o arfer gorau i gynyddu hyder ac ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid.

Ffurfiwyd y grŵp hwn o ystod o randdeiliaid a oedd yn ymwneud â'r broses SAB i goladu adborth a cheisio awgrymu newidiadau i Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, ar ôl patrwm cyson o gyfarfodydd cyn Covid, nid yw'r grŵp hwn yn cyfarfod mwyach. Pan ofynnwyd iddynt, roedd 100% o'r ymatebwyr yn cytuno y dylai'r grŵp hwn gael ei ailgychwyn. Fodd bynnag, roedd safbwyntiau cymysg ynglŷn â ph'un a ddylai'r grŵp hwn barhau i gael ei gadeirio gan Lywodraeth Cymru neu a ddylai cadeirydd annibynnol gael ei benodi.

Pan ofynnwyd ynghylch cylch gwaith y grŵp, y farn gyffredinol oedd y dylai sbarduno newid, sicrhau cysondeb a dileu rhwystrau.

### 7.1.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 8 – Argymhellion ynglŷn â chanllawiau**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B01 | **Egluro diffiniadau allweddol y cyfeirir atynt yn y ddeddfwriaeth a'r safonau sy'n pennu pryd mae angen cais SAB.**<br><br>Diffiniadau o'r hyn a olygir gan "strwythur", "adeiladu", "goblygiadau draenio", "eiddo unigol" a "datblygiad tir llwyd", gan ystyried graffigau i hybu dealltwriaeth gyffredin.<br><br>Hefyd, darparu diffiniadau newydd ar gyfer "ôl-osod" ac "arwyneb" gan nad yw'n ymddangos bod y rhain wedi'u darparu yn y ddeddfwriaeth eisoes (gan nodi bod y diffiniad o "strwythur" yn cynnwys "…patio neu unrhyw arwyneb arall").<br><br>Gall Llywodraeth Cymru egluro diffiniadau presennol yn gyflym trwy ddiwygio'r canllawiau cyfredol.<br><br>Efallai y bydd angen newid deddfwriaethol i ddarparu diffiniadau newydd.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Gellir ymgorffori canllawiau ar ddiffiniadau mewn diweddariad cyffredinol i'r Canllawiau Cenedlaethol.<br><br>Efallai y bydd angen mewnbwn Cyfreithiol a chan Ymarferwyr i ystyried diffiniadau newydd, y gellir eu hychwanegu at ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth wedi hynny. | Tymor byr |
| B02 | **Diwygio cyfres fwy eglur o ddogfennau sy'n gysylltiedig â'r Safonau, gofynion, prosesau a gweithdrefnau.**<br><br>I ddechrau, bydd hyn yn gofyn am gytuno ar strategaeth ar gyfer dogfennau sy'n amlinellu'r diben, y gynulleidfa a'r cynnwys ar gyfer pob dogfen.<br><br>Dangosir strategaeth awgrymedig ar gyfer dogfennau yn Ffigur 17.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru geisio gweithredu hyn ar ôl yr adolygiad hwn gan fod sawl amwysedd ac eitem y mae angen mynd i'r afael â nhw. Dylai hyn gael ei wneud mewn partneriaeth â SABau ac ymgeiswyr.<br><br>Dylai strategaeth ar gyfer yr holl Safonau a chanllawiau dylunio cenedlaethol a lleol yn y dyfodol (gan gynnwys lefel manylion pob un) gael ei hamlinellu yn y lle cyntaf. Mae hyn yn cysylltu ag argymhellion eraill a wnaed yn yr adroddiad hwn.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu trydydd parti i wneud hyn. Byddai angen mewnbwn gan yr holl randdeiliaid yn y broses. | Tymor byr |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B03 | **Ailgychwyn 'Grŵp Ffocws SuDS' sy'n canolbwyntio ar gyflawni, rhannu gwersi a ddysgwyd ac arfer gorau.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ailsefydlu'r Grŵp Ffocws SuDS (y Grŵp Gweithredu SuDS gynt) ar unwaith yn dilyn canlyniad yr adolygiad hwn. Dylai adolygu p'un a ddylid penodi cadeirydd annibynnol a sicrhau bod gan y grŵp amcanion clir a chylch gwaith diffiniedig. Dylai'r grŵp hefyd gynnwys cynrychiolaeth gymesur gan ymgeiswyr, SABau, ac ymgyngoreion statudol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen adnodd/arweinydd dynodedig parhaus i sefydlu, cydlynu, a chynnal y grŵp hwn. | Tymor byr |
| B04 | **Ymgysylltu â'r sector amaethyddiaeth a choedwigaeth i sicrhau bod y cynnwys yn berthnasol ac yn glir ar gyfer cyd-destunau mwy gwledig.**<br>Gallai hyn olygu bod angen diffiniadau ac eglurhad ychwanegol. Dylai Llywodraeth Cymru ailasesu dilysrwydd y canllawiau SuDS gwledig ochr yn ochr ag unrhyw newidiadau eraill a wneir i ganllawiau/safonau a hyrwyddo'r dogfennau hyn yn ehangach.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: I ddechrau, dylai cynnwys cynrychiolwyr yn y 'Grŵp Ffocws SuDS' gynorthwyo ymgysylltiad (gweler argymhelliad B03). Gallai Llywodraeth Cymru hyrwyddo dogfennau presennol yn gyflym. | Tymor byr |
| B05 | **Ymgynghori ar restr glir o senarios nad oes angen cymeradwyaeth SAB arnynt, yr ystyrir eu bod yn cydymffurfio, neu eithriadau rhag yr angen am gymeradwyaeth er mwyn ailflaenoriaethu adnoddau i geisiadau â mwy o fudd posibl.**<br>Gallai hyn gynnwys datblygiadau fel rhandiroedd, rhai mathau o arwynebau athraidd, gwaith brys, cyfleustodau, gwella draenio (e.e. disodli arwyneb anathraidd ag arwyneb athraidd), a datblygiadau y mae'n ofynnol iddynt gydymffurfio â deddfwriaeth neu safonau dylunio eraill (er enghraifft, delio â dŵr ffo o storfeydd slyri, ac ati, yn unol â Rheoliadau Adnodd Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol Cymru) 2021).<br>Pan fydd eithriadau a datblygiadau yr ystyrir eu bod yn cydymffurfio yn gallu achosi perygl o hyd (e.e. llifogydd neu ansawdd dŵr), gellid defnyddio dull tebyg i drwyddedau Gweithgarwch Perygl Llifogydd CNC[1], sy'n mynnu bod eithriadau'n cael eu cofrestru ac yn bodloni amodau penodol.<br>Gellir gweithredu hyn yn gyflym trwy ddiwygio'r canllawiau. Dylai Llywodraeth Cymru ailystyried bwriadau gwreiddiol y ddeddfwriaeth i lywio hyn. Efallai y bydd angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer eithriadau.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen adnodd dynodedig i amlygu mathau o ddatblygiad ac ymgysylltu â datblygwyr a SABau ar fesurau/amodau priodol. Yna, bydd angen ymgynghori ynglŷn â hyn. | Tymor canolig |

[1] https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/flood-risk-activity-permits/flood-risk-activity-exemptions/?lang=cy

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
| --- | --- | --- |
| B06 | **Darparu cyllid a mynnu bod Awdurdodau Lleol yn cynhyrchu Atodiadau Lleol neu Ranbarthol i'r Canllawiau Cenedlaethol.**<br>Ni ddylai'r canllawiau ddyblygu na gwrth-ddweud Safonau Statudol neu Ganllawiau Cenedlaethol, ond darparu gwybodaeth a manylion i helpu ymgeiswyr i gyflawni SuDS yn llwyddiannus yn ardal neu ranbarth yr Awdurdod Lleol.<br>Gallai Awdurdodau Lleol ddewis gweithio'n rhanbarthol (yn unol ag enghraifft Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Gogledd Cymru yn ystod y cam gweithredu).<br>Dylid creu fformat/templed i sicrhau cysondeb o ran y cynnwys a'r manylion. Gallai'r wybodaeth gynnwys y canlynol:<br>- Sut i gymhwyso'r hierarchaeth gyrchfan (e.e. datgan os nad yw ymdreiddio'n bosibl mewn rhai ardaloedd)<br>- Amlygu cyfyngiadau hydrolig, a allai gysylltu â Strategaethau Rheoli Perygl Llifogydd Lleol.<br>- Cysylltu â chynnwys arall yr Awdurdod Lleol ar fioamrywiaeth ac amwynder i helpu ymgeiswyr i gyflawni yn unol â dyheadau'r Awdurdod Lleol.<br>Bydd angen cyllid ar bob Awdurdod Lleol i gyflawni hyn.<br>Mae'r dull a ddefnyddir gan Fabwysiadu Carthffosydd yn llwyddiannus, sef cynhyrchu dogfen genedlaethol ac yna atodiadau lleol i ddilyn. Dylai unrhyw ganllawiau lleol a gynhyrchir gael eu safoni ac ni ddylent danseilio unrhyw ganllawiau cenedlaethol a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen cyllid ar Awdurdodau Lleol i gyflawni hyn yn lleol, gan nodi y gallai rhai ddewis ei gyflawni'n rhanbarthol. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B07 | **Creu deunydd hyfforddi manwl ac ymarferol ar gyfer SABau sy'n gyson ledled Cymru y gellir ei deilwra i gyd-destun ac amodau lleol.**<br>Yn yr un modd â'r argymhellion ynglŷn â hyfforddiant yn A06, gellid cyflawni hyn trwy weithio gyda chyrff/sefydliadau proffesiynol. Mae angen i'r cynnwys gael ei deilwra a gweddu'n briodol i'r cyd-destun. Mae angen cyllid ar hyn hefyd a byddai angen iddo gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.<br>Dylid ystyried y gwahanol rolau sy'n ofynnol yn y tîm SAB, gan gynnwys:<br>- Gweinyddu/proses<br>- Asesu safonau technegol<br>- Bioamrywiaeth ac amwynder<br>- Adeiladu a chynnal a chadw, gan gynnwys archwiliadau a gorfodi.<br>Gall hyfforddiant ychwanegu at brofiad swyddogion SAB yng Nghymru.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen darparu cyllid, gan gynnwys amser i dimau SAB ddilyn hyfforddiant. Gallai rhywfaint o hyfforddiant gael ei ddarparu ar-lein, ond byddai rhai'n elwa o'i gyflwyno wyneb yn wyneb ac ar y safle, gan wella rhwydweithiau cymheiriaid SAB. | Tymor canolig |

## 7.2 Cyfnod Penderfynu

### 7.2.1 Crynodeb o'r Materion

Mae'r prinder adnoddau mewn timau SAB yn cael ei waethygu gan y mewnbwn uchel sy'n ofynnol ar gyfer datblygiadau llai, sy'n golygu eu bod yn ei chael hi'n fwyfwy anodd bodloni'r cyfnod ymateb 7 neu 12 wythnos. Yn ogystal, gall ymatebion araf gan ymgyngoreion statudol olygu nad oes modd bodloni'r cyfnod ymateb. Mae'n bosibl bod diffyg dealltwriaeth ynglŷn â phryd i ymgynghori ag ymgyngoreion statudol a phryd y dylai neu na ddylai ymgyngoreion ymateb.

Adroddwyd bod y raddfa amser bresennol hon yn arbennig o heriol pan fo angen cytundebau mabwysiadu. Mae'r ddeddfwriaeth gyfredol yn dweud os na dderbynnir ymateb o fewn y raddfa amser statudol, ystyrir bod y cais wedi'i wrthod.

### 7.2.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Gofynnwyd saith cwestiwn yn yr holiadur ynglŷn â'r cyfnod penderfynu ar gyfer ceisiadau SAB.

*Cyfnod penderfynu*

Mae 68% o SABau yn credu bod y cyfnodau penderfynu 7 a 12 wythnos yn ddigonol i benderfynu ar gais. Fodd bynnag, mae 86% o ymgeiswyr wedi profi oedi i'w penderfyniad a estynnodd y tu hwnt i'r cyfnodau penderfynu diffiniedig.

*Cyfnod ymgynghori*


Ymatebodd un ymgynghorai statudol i'r holiadur gan ddweud bod ei gyfnod ymgynghori tair wythnos yn ddigonol iddo ymateb i gais.

*Cyfnod dilysu*

Roedd 89% o'r rhai a fynegodd farn yn credu y dylid cyflwyno graddfa amser ar gyfer dilysu, gan gynnwys 63% o SABau.

*Gwrthodiad tybiedig*

Ceisiwyd safbwyntiau ynglŷn â ph'un a ddylid diwygio'r ddeddfwriaeth o "wrthodiad tybiedig" ar ôl diwedd y raddfa amser statudol i "gymeradwyaeth dybiedig", a fyddai'n adlewyrchu'r broses ar gyfer Cydsyniadau Cyrsiau Dŵr Arferol. Roedd 69% o'r rhai a fynegodd farn yn cytuno â'r ymagwedd hon, ond roedd 89% o SABau yn anghytuno.





| | Ie | Na | Dim Barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | 1 | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 2 | 16 | 1 |
| Ymgeisydd | 50 | 7 | 6 |

**Ffigur 18 – P'un a ddylai'r ddeddfwriaeth gael ei diwygio o "wrthodiad tybiedig" ar ôl diwedd y raddfa amser statudol i "gymeradwyaeth dybiedig"**

*Partneriaethau rhanbarthol*

Gwnaethom hefyd ofyn p'un a oedd yr ymatebwyr yn credu y byddai sefydlu partneriaethau rhanbarthol i gronni adnoddau SAB yn lleihau baich bodloni cyfnodau penderfynu. Dim ond 26% o'r ymatebwyr oedd yn anghytuno neu'n anghytuno'n gryf y byddai hyn yn lleihau'r baich.



| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | | | |
| SAB | 2 | 9 | 3 | 4 | 1 | |
| Arall | | | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Ymgeisydd | 4 | 7 | 14 | 22 | 16 | 1 |


**Ffigur 19 – A fyddai sefydlu partneriaethau rhanbarthol i gronni adnoddau SAB yn lleihau baich bodloni'r cyfnodau penderfynu?**

### *Dulliau sbarduno ar gyfer cyfnodau penderfynu*

Roedd 74% o'r ymatebwyr yn credu y dylai "dulliau sbarduno" amgen gael eu cyflwyno ar gyfer cyfnodau penderfynu hwy, yn hytrach na dibynnu'n unig ar b'un a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar y cynllun. Roedd yr ymatebwyr a oedd o blaid "dull sbarduno" yn awgrymu'n gyffredinol y dylai ystyried maint cynllun a'r gallu i fabwysiadu.

### *Goruchwylio gan drydydd parti*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a ddylai trydydd parti reoleiddio'r swyddogaeth SAB er mwyn sicrhau cysondeb a chynorthwyo i ddatrys anghydfodau. Mae dwy ran o dair o'r ymatebwyr yn credu y dylid sefydlu trydydd parti ar gyfer atebolrwydd a chysondeb ledled Cymru.



| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 2 | 1 | 1 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 7 | 9 | 3 |
| Ymgeisydd | 37 | 15 | 11 |

**Ffigur 20 – P'un a ddylid sefydlu trydydd parti i reoleiddio'r swyddogaeth SAB a chynorthwyo ag anghydfodau**

### 7.2.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 9 – Argymhellion ynglŷn â'r cyfnod penderfynu**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B08 | **Egluro senarios lle y dylid ymgynghori ag ymgyngoreion statudol a gosod disgwyliadau ynglŷn â lefel ymateb.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru egluro hyn mewn Canllawiau Cenedlaethol. Yn y tymor byrrach, dylid trafod disgwyliadau gyda SABau a'u cyfleu i Ymgyngoreion Statudol. Dylai'r disgwyliadau ystyried rhyngweithio ag asedau a swyddogaethau Ymgyngoreion Statudol, er mwyn ceisio lleihau ymgynghori diangen.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: I ddechrau, dylai Llywodraeth Cymru gytuno ar ymagwedd a disgwyliadau gyda SABau y gellir eu cyfleu i Ymgyngoreion Statudol. Yna, gellir ychwanegu hyn at ganllawiau wedi'u diweddaru. | Tymor canolig |
| B09 | **Adolygu'r cyfnodau penderfynu 7 a 12 wythnos.** Dylid defnyddio canfyddiadau ymarfer casglu data dros 12-24 mis i ddeall p'un a yw'r cyfnodau penderfynu'n ddigonol a beth yw'r rhesymau dros oedi.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyfarwyddo SABau i gasglu'r data hyn gan nad oedd tystiolaeth o'u casglu pan ofynnwyd yn rhan o'r Adolygiad hwn. Yna, gellir dadansoddi'r data hyn i ddeall p'un a oes problem, beth yw'r rhwystrwyr a ph'un a oes achos dros newid.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai casglu data gan SABau fod yn rhan o'r trefniadau gweinyddol arferol. Ar ôl 12-24 mis, gallai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad o Ffïoedd ar sail tystiolaeth. | Tymor canolig |
| B10 | **Datblygu proses symlach ar gyfer ymgynghori â chyrff statudol, yn debyg i borth Ceisiadau Cynllunio Cymru.**<br><br>Gellid cyflawni hyn trwy ddefnyddio a diwygio platfform presennol y porth cynllunio. Fodd bynnag, byddai angen i'r porth ystyried datblygiadau y mae angen iddynt wneud cais SAB ond nid Cais Cynllunio, ac fel arall.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Byddai angen adnodd trydydd parti i ddarparu platfform, gyda chostau parhaus, fel porth Ceisiadau Cynllunio Cymru. | Tymor canolig |
| B11 | **Cyflwyno graddfa amser i SABau ddilysu cais** ac felly dechrau'r cyfnod penderfynu 7/12 wythnos yn ffurfiol.<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn am ymarfer ymchwil byr i bennu cyfnod addas. Nodir bod y cyfnodau dilysu disgwyliedig ar gyfer Cynllunio rhwng tri a deng niwrnod gwaith, yn dibynnu ar faint y datblygiad.<br><br>Byddai'r argymhelliad hwn yn gofyn am newidiadau i ddeddfwriaeth.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen ymarfer ymchwil cychwynnol gyda SABau yn y tymor byr i gadarnhau cyfnod addas. Gallai hyn gael ei hwyluso gan CLlLC a byddai angen iddo ystyried pwysau adnoddau i fodloni'r raddfa amser dilysu. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B12 | **Darparu sefydliad goruchwylio a/neu drydydd parti i ddarparu goruchwyliaeth reoleiddiol o swyddogaethau SAB** a sicrhau cysondeb, gan gynnwys helpu i ddatrys anghydfodau. Byddai hyn ar wahân i'r broses apeliadau ffurfiol a reolir gan Benderfyniadau Cynllunio ac Amgylchedd Cymru (PCAC) ac fe allai adeiladu ar ymagwedd y Gymdeithas Awdurdodau SuDS yn Lloegr.<br><br>Mae'r argymhelliad hwn yn gofyn am gyllid ac efallai newid deddfwriaethol i sefydlu corff. Dylid ystyried ei sefydlu fel corff a benodir gan y llywodraeth os caiff ei symud ymlaen.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Byddai angen adnoddau a chyllid parhaus ar hyn, ond byddai'n helpu i ddarparu proses well yn y dyfodol. | Tymor hir |
| B13 | **Helpu i ddatblygu partneriaethau lleol neu ranbarthol i ddarparu adnodd canolog penodol i benderfynu ar geisiadau.**<br><br>Byddai hyn yn gofyn am wneud trefniadau masnachol rhwng awdurdodau lleol a ffurfio timau.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen i Awdurdodau Lleol gychwyn hyn. Gallai Llywodraeth Cymru gynnig cyllid i helpu i gychwyn a phontio. | Tymor hir |
| B14 | **Cyflwyno cytundebau neu "ddulliau sbarduno" amgen ar gyfer cyfnodau penderfynu hwy.**<br><br>Dylai hyn gael ei seilio ar faint y datblygiad, a/neu b'un a yw'r cynllun yn fabwysiadwy, yn hytrach na ph'un a oes angen Asesiad o'r Effaith Amgylcheddol ar y cynllun yn unig.<br><br>Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol i alluogi'r newid hwn gan fod y "dull sbarduno" presennol wedi'i amlinellu yn FWMA 2010. Byddai angen i Lywodraeth Cymru aros am y cyfrwng deddfwriaethol priodol i gynnig y newid hwn, a fyddai hefyd yn destun ymgynghori cyhoeddus a chraffu deddfwriaethol.<br><br>Gellid defnyddio dull tebyg i Gynllunio hefyd lle y gellir cytuno ar gyfnod penderfynu hwy yn ysgrifenedig gyda'r ymgeisydd.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru amlinellu dulliau sbarduno ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus. Yna, efallai y bydd angen newid deddfwriaethol. | Tymor hir |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B15 | **Ystyried diwygio "gwrthodiad tybiedig" ar ddiwedd y raddfa amser statudol i "gymeradwyaeth dybiedig".**<br>Mae hyn yn amodol ar adolygu canlyniad ac effaith yr argymhellion uchod a chasglu data.<br>Byddai hyn yn adlewyrchu'r broses ar gyfer Cydsyniadau Cyrsiau Dŵr Arferol. Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol i alluogi'r newid hwn gan fod y term "gwrthodiad tybiedig" wedi'i amlinellu yn FWMA 2010 ar hyn o bryd. Byddai angen i Lywodraeth Cymru aros am y cyfrwng deddfwriaethol priodol i gynnig y newid hwn, a fyddai hefyd yn destun ymgynghori cyhoeddus a chraffu deddfwriaethol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Mae hyn yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus y gellid ei gynnal ar y cyd ag argymhelliad B14 (dulliau sbarduno). Yna, bydd angen newid deddfwriaethol. | Tymor hir |

## 7.3 Y Broses Ymgeisio (gan gynnwys Alinio â Chynllunio)

### 7.3.1 Crynodeb o'r Materion

*Alinio â Chynllunio*

Mae'r rhan fwyaf o SABau yn cydnabod bod angen i'r broses cymeradwyo draenio a'r broses Gynllunio gael eu halinio'n well. Adleisiwyd hyn ar draws y gymuned ddatblygwyr, oherwydd er nad yw'r broses gynllunio'n berffaith, fe'i sefydlwyd ers tro ac mae'n darparu sail dda i ddysgu gwersi.

*Mân ddiwygiadau*

Gall dyluniadau cymeradwy newid o ganlyniad i gyfraniadau eraill gan ddisgyblaethau eraill, sy'n gallu achosi i gais wyro oddi wrth egwyddorion cytunedig. Ar hyn o bryd, prin yw'r arweiniad ar yr hyn a olygir gan fân ddiwygiad o ran cymeradwyaeth SAB, ac nid oes dull o wneud diwygiadau ansylweddol. Gall y broses bresennol olygu bod angen cyflwyno cais newydd i gynnwys unrhyw newid sy'n effeithio ar y cydsyniad SAB. Mae'r dull hwn yn feichus ac yn gostus i'r datblygwr ei reoli ac yn golygu bod yr adnodd SAB yn cael ei ymestyn ymhellach i ddelio â'r senarios hyn.

*Cydlynu rhwng Awdurdodau Lleol*

Canfyddir bod diffyg cydlynu mewnol ar hyn o bryd rhwng yr Awdurdod Cynllunio Lleol a'r SAB mewn rhai awdurdodau lleol, yn enwedig wrth dderbyn cymeradwyaeth Gynllunio heb gymeradwyaeth SAB. Ar hyn o bryd, mae llawer o adrannau'n bwydo i'r broses cais Cynllunio, ond nid oes mewnbwn tebyg yn digwydd bob amser ar gyfer ceisiadau SAB. Gall hyn arwain at newidiadau costus ymhellach yn y broses ac oedi wrth dderbyn penderfyniad. Yn ogystal, bu adborth a ddywedodd fod cyngor cyn-ymgeisio wedi newid pan gyflwynwyd y cais llawn – gan arwain unwaith eto at waith ofer ac oedi i'r rhaglen.

*Cyngor cyn-ymgeisio*

Nid oes gofyniad gorfodol ar hyn o bryd ar gyfer cyngor cyn-ymgeisio ac mae gan SABau ymagwedd wahanol at y mater hwn. Mewn rhai ardaloedd, gofynnir i ymgeiswyr ddarparu llawer o fanylion ar y cam

cyn-ymgeisio. Mae'r manylion hyn yn gallu bod yn gostus i'w casglu ynghyd ac maen nhw fel arfer ar gael yn ddiweddarach yn y broses ddylunio yn unig. Yn ogystal, gan nad oes graddfa amser statudol ar gyfer ymateb, gall y broses cyn-ymgeisio achosi oedi i raglenni oni bai bod cytundeb lefel gwasanaeth ar waith.

### 7.3.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

*Alinio â Chynllunio*

Mae 95% o'r ymatebwyr i'r holiadur yn credu bod datgysylltiad rhwng SAB a Chynllunio, fel y dangosir yn Ffigur 21.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 15 | 4 | |
| Ymgeisydd | 62 | | 1 |

**Ffigur 21 – P'un a oes datgysylltiad rhwng Cynllunio a SAB**

Yn ogystal, o'r rhai a fynegodd farn, roedd 81% o'r ymatebwyr yn credu y dylid gwneud darpariaeth i hwyluso ceisiadau Cynllunio a SAB cyfunol lle y bo'n berthnasol, fel yr amlinellir yn y ddeddfwriaeth ar hyn o bryd.

*Cyngor cyn-ymgeisio*

Cynhaliwyd adolygiad penodol ynglŷn â'r broses ymgeisio, gan gynnwys argymhellion arfaethedig wedi'u seilio ar ganlyniadau'r arolwg ac ymgysylltu ychwanegol â rhanddeiliaid. Gellir gweld hyn yn Atodiad Dd. Mae'r argymhellion o'r adolygiad penodol hwn wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

Hoffai 86% o'r ymatebwyr i'r holiadur gael system cymeradwyo SAB fesul cam neu raddol ar gyfer datblygiadau mawr. Yn yr un modd, mae 91% o'r ymatebwyr yn credu y dylai SABau fod yn ymgynghorai statudol yn y broses Gynllunio.

Mae'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref yn caniatáu i ddiwygiadau ansylweddol gael eu gwneud i geisiadau Cynllunio. Pan ofynnwyd a ddylid caniatáu proses debyg ar gyfer ceisiadau SAB, roedd 93% o'r ymatebwyr yn cytuno. Yn gyffredinol, dywedodd y rhai a ymatebodd "ie" fod gan rai SABau gytundebau presennol ar waith cyn-adeiladu i ganiatáu newidiadau bach. Fodd bynnag, mae llawer o'r ymatebion yn awgrymu nad yw SABau yn caniatáu newidiadau ar ôl i gymeradwyaeth gael ei rhoi. Dyma rai enghreifftiau o'r hyn y gellid ei gynnwys yn y diwygiadau ansylweddol hyn: newidiadau bach i osodiad y safle, newid safle neu faint SuDS a/neu'r rhwydwaith draenio, hyblygrwydd i ymateb i amrywiadau yn y farchnad.

### 7.3.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 10 – Argymhellion ynglŷn â'r broses ymgeisio (gan gynnwys alinio â Chynllunio)**

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| B16 | **Dylai pob SAB amlinellu a darparu opsiynau fesul cam ar gyfer cyngor cyn-ymgeisio a, lle y bo'n berthnasol, ystyried sut gellir cyfuno'r broses hon â'r broses cyn-ymgeisio cynllunio (diweddariad posibl i TAN15).**<br>Dylai opsiynau gynnwys adolygiad/cyngor ar gam cynnar, ac adolygiad manylach gydag adborth gan nodi pob fformat ac allbwn yn glir (h.y. cyfarfod gyda chofnodion, neu adroddiad). Dylai hyn gynnwys lefel y manylion a ddisgwylir ac egwyddorion dylunio a ffefrir ar bob cam, er y dylai'r rhain fod yn rhesymol ac nid yn ormodol o ystyried cam y prosiect. Bydd hyn yn caniatáu i osodiadau dylunio symud ymlaen yn fwy sicr ar yr un pryd â chadw at egwyddorion cyfrwymol. Dylid gwneud ymdrech i ddatblygu a chytuno ar safoni ledled Cymru, lle y bo'n bosibl, er mwyn rhoi cysondeb i ymgeiswyr.<br>Nodir bod ymarfer treialu'n parhau gyda CLlLC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili i ganiatáu ar gyfer ceisiadau Cynllunio a SAB ar y cyd.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen i'r adnodd SAB goladu a chytuno ar ymagwedd. Dylai hyn gael ei hwyluso gan CLlLC i annog cysondeb. | Tymor byr |
| B17 | **Rhoi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol ganiatáu ceisiadau cynllunio a SAB cyfunol (diweddariad posibl i TAN15).**<br>Dylai'r canllawiau hyn ddefnyddio darpariaethau paragraff 10 Atodlen 3 FWMA 2010. Mae'n bosibl y bydd angen diweddaru'r Porth Cynllunio a byddai angen i'r ddogfen ganllaw gael ei diweddaru hefyd.<br>Nodir bod ymarfer treialu'n parhau gyda CLlLC a Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ynglŷn â cheisiadau Cynllunio a SAB ar y cyd.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd cychwynnol. Bydd angen adnoddau a chyllid ar gyfer darpariaethau i hwyluso'r broses (y porth). | Tymor byr |
| B18 | **Cynnwys Datganiad Draenio sy'n cofnodi cydymffurfiaeth SuDS yn y broses gynllunio (diweddariad posibl i TAN15).**<br>Bydd hyn yn sicrhau bod datblygiad yn ystyried SuDS ac yn osgoi'r risg bod cynigion yn cydymffurfio ag un system reoleiddiol ac nid y llall. Dylai'r datganiad draenio ddangos i'r Awdurdod Cynllunio fod cynigion yn ymgorffori SuDS yn briodol a'u bod yn debygol o gael cymeradwyaeth SAB wedi hynny.<br>Cynigir hyn yn niweddariad mis Ionawr 2023 Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, llifogydd, ac erydu arfordirol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Cynigir hyn eisoes yn rhan o ddiweddariadau TAN15, yn amodol ar ymgynghori. Mae'n ofynnol i'r adnodd SAB adolygu ac ymateb i ddatganiadau trwy Gynllunio; fodd bynnag, dylid gwrthbwyso hyn trwy well cydymffurfiaeth ar gyfer cymeradwyaeth ddraenio (SAB). | Tymor byr |

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| B19 | **Cyhoeddi amserau ymateb SAB disgwyliedig ar gyfer y broses cyn-ymgeisio.**<br><br>Dylid rhagnodi amserlen er mwyn i'r broses fod yn fwy tryloyw. Ar sail yr adborth o'r holiadur, argymhellir y dylid ystyried pedair wythnos (o dderbyn dogfennau a thaliad). Fodd bynnag, dylid trafod hyn â SABau, yn enwedig y rhai hynny sy'n profi heriau adnoddau, a'r math o gyngor sy'n cael ei roi (yn unol â'r argymhelliad ynglŷn â phroses cyn-ymgeisio fesul cam).<br><br>Dylai SABau adrodd ar ystadegau cyn-ymgeisio a chais llawn i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi eglurder ynglŷn â ph'un a oes angen newid deddfwriaethol yn unol ag argymhelliad A01.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen i'r adnodd SAB goladu a chytuno yn unol â'r argymhelliad ynglŷn â phroses cyn-ymgeisio fesul cam. Dylai hyn gael ei hwyluso gan CLlLC a Llywodraeth Cymru. | Tymor canolig |
| B20 | **Dylai SABau gynnig ffïoedd cais SAB gostyngol os yw ymgeisydd yn defnyddio'r gwasanaeth cyn-ymgeisio.**<br><br>Dylid alinio hyn â'r arbedion costau cysylltiedig sy'n deillio o'r ffaith bod angen llai o amser i adolygu cais SAB, ar y sail bod sylwadau SAB wedi cael eu hystyried o'r broses cyn-ymgeisio. Dylai hyn annog pobl i ddefnyddio'r gwasanaeth cyngor cyn-ymgeisio a gynigir. Gallai canran o'r ffi ymgeisio derfynol gael ei hystyried fel gostyngiad priodol i'r ffi.<br><br>Dylai SABau adrodd ar ystadegau cyn-ymgeisio a chais SAB i Lywodraeth Cymru er mwyn rhoi eglurder ynglŷn â ph'un a oes angen newid deddfwriaethol yn unol ag argymhelliad A01.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai CLlLC hwyluso cysondeb ar draws SABau sy'n codi tâl am gyngor cyn-ymgeisio yn y tymor byr. Bydd angen proses weinyddol ychwanegol i gasglu taliadau. Gallai'r trefniadau codi tâl gael eu ffurfioli mewn deddfwriaeth yn y tymor hwy yn rhan o adolygiad o ffïoedd ar ôl casglu data. | Tymor canolig |
| B21 | **Ystyried gwneud cyngor SAB cyn-ymgeisio yn gyfrwymol.**<br><br>Os yw dyluniad (gydag unrhyw newidiadau sy'n ofynnol) neu baramedrau dylunio allweddol yn foddhaol, dylai SABau gyhoeddi "cytundeb mewn egwyddor".<br><br>Byddai hyn yn rhoi mwy o hyder i ymgeiswyr os derbynnir y cyngor cyn-ymgeisio, dylai hynny "ddileu risg" cymeradwyaeth SAB. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth Cymru ystyried gosod terfyn amser ar gyngor cyfrwymol e.e. dylai'r cais dilynol gael ei wneud o fewn cyfnod penodol. Byddai'r newid hwn yn gofyn am newid i is-ddeddfwriaeth.<br><br>Byddai hyn yn gyson â Chynllunio. Nodir yn y system Gynllunio bod cyngor cyn-ymgeisio yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Yn y tymor byrrach, dylai SABau gytuno ar broses, a hwylusir gan CLlLC, i lywio ymgynghori. Bydd hyn yn gofyn am ymgynghori ac yna newid deddfwriaethol. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| B22 | **Ystyried gwneud cyn-geisiadau SAB yn orfodol ar gyfer rhai datblygiadau.**<br>Yn debyg i'r Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref, diffinnir y term "datblygiad mawr" ac mae'n golygu bod angen cais cyn-gynllunio. Dylai Llywodraeth Cymru bennu pa derm a diffiniad a ddefnyddir, sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â risg, p'un a yw'r SuDS yn fabwysiadwy, nifer yr eiddo a/neu faint y datblygiad.<br>Os gwneir cyn-ymgeisio'n orfodol ar gyfer rhai mathau o ddatblygiadau, dylai SABau adrodd ar ystadegau cyn-ymgeisio a chais llawn i Lywodraeth Cymru er mwyn llywio newidiadau yn y dyfodol, os bydd angen. Byddai'r newid hwn yn gofyn am newid i is-ddeddfwriaeth.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Yn y tymor byrrach, dylai SABau gytuno ar fathau/meintiau datblygiadau, a hwylusir gan CLlLC, i lywio ymgynghoriad. Bydd hyn yn gofyn am ymgynghori ac yna newid deddfwriaethol. | Tymor canolig |
| B23 | **Cynorthwyo SABau ac adrannau Cynllunio i gydweithio.**<br>Er enghraifft, cyfuno prosesau cyn-ymgeisio SAB a Chynllunio. Dylai Cynllunio, SAB ac Ymgyngoreion Statudol eraill fod yn bresennol mewn cyfarfodydd cyn-ymgeisio, fel y bo'r angen. Mae hyn eisoes wedi'i amlinellu mewn deddfwriaeth, ond byddai angen newid diwylliannol a gweinyddol mewn Awdurdodau Lleol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Datblygu dull alinio SAB a Chynllunio ymhellach (gan ychwanegu at ddulliau anffurfiol presennol a ddatblygwyd gan rai Awdurdodau Lleol). | Tymor canolig |
| B24 | **Asesu buddion gwneud SABau yn ymgynghorai statudol yn y broses gynllunio.**<br>Gellid cyflawni hyn gan ddefnyddio newidiadau i is-ddeddfwriaeth. Byddai angen ymgynghori.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen rhoi ystyriaeth gychwynnol i'r sbardun ar gyfer hysbysu SAB. Bydd angen ymgynghori a newid deddfwriaethol. | Tymor canolig |
| B25 | **Egluro'r hyn a olygir gan fân ddiwygiad**<br>Egluro'r diffiniad o fân ddiwygiad yng nghyd-destun dylunio draenio. Gweithio gyda SABau i ddatblygu proses ffurfiol i SABau asesu mân ddiwygiadau. Mae'n bosibl y bydd angen is-ddeddfwriaeth ar gyfer hyn.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd cychwynnol ynglŷn â'r diffiniad. Bydd angen mewnbwn gan SABau a datblygwyr i ddatblygu enghreifftiau a phroses. Bydd angen ymgynghori a newid deddfwriaethol. | Tymor canolig |

## 7.4 Alinio â Phriffyrdd

### 7.4.1 Crynodeb o'r Materion

Mae nodweddion SuDS o fewn y briffordd yn dod yn fabwysiadwy gan yr Awdurdod Priffyrdd. Fodd bynnag, amlygir yn ymarferol bod Awdurdodau Priffyrdd yn aml o'r farn bod egwyddorion draenio SuDS yn heriol yn y briffordd fabwysiedig. Mae safonau dylunio priffyrdd presennol (gan gynnwys y Llawlyfr Strydoedd, y Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB), y Llawlyfr Dogfennau Contract ar gyfer Gwaith Priffyrdd (MCHW) sy'n cynnwys Cyfrol 1 y Fanyleb Gwaith Priffyrdd (SHW), safonau technegol lleol a Chanllawiau Teithio Llesol Llywodraeth Cymru) yn gallu cyfyngu ar ddyluniadau sy'n cefnogi egwyddorion SuDS.

Gallai safonau dylunio fynd ymhellach i hyrwyddo defnyddio nodweddion SuDS mewn lleoliad priffordd. Mae Grŵp Rheoli Perygl Llifogydd Gogledd Cymru wedi datblygu canllawiau i ymateb i hyn, ond nid ydynt wedi'u cyhoeddi ar hyn o bryd. Mewn man arall, mae CIRIA wedi cyhoeddi canllawiau rhad ac am ddim C772F[2] ar gyfer Gwella perfformiad asedau llinol trwy seilwaith gwyrdd. Cwblhaodd Highways England ymchwil yn 2016-2017 ar gynhyrchu a chyflwyno canllawiau ar Systemau Draenio Cynaliadwy[3].

Mae'r Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant (CIHT) yn datblygu darn polisi i gynorthwyo'r sector trafnidiaeth i gyflawni Seilwaith Gwyrdd a Glas (GBI)[4]. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi strategaeth y sefydliad hwn i flaenoriaethu gweithredu ar yr hinsawdd, ac mae'n cysylltu â'u hargymhelliad blaenorol yn yr adroddiad Gwella Priffyrdd Lleol[5] i: "ddangos sut bydd y rhwydwaith priffyrdd yn helpu i gyflawni system carbon niwtral, creu mannau cynaliadwy, gwyrdd, cydnerth a hygyrch, gwneud trafnidiaeth yn iachach, a helpu'r economi i dyfu".

### 7.4.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

*Cymeradwyo SuDS mewn lleoliad priffyrdd*

Gofynnwyd i ymgeiswyr a oeddent wedi cael unrhyw broblemau wrth gael cymeradwyaeth ar gyfer systemau draenio yn y briffordd. O'r rhai a fynegodd farn, roedd 79% wedi cael problemau. Fel y dangosir yn Ffigur 22, hoffai 93% o'r ymatebwyr a fynegodd farn gael arweiniad mwy eglur ar gyfer SuDS mewn priffyrdd mabwysiadwy.


---

[2] Manylion Eitem (ciria.org)

[3] https://s3.eu-west-2.amazonaws.com/assets.highwaysengland.co.uk/specialist-information/knowledge-compendium/2016-17/Sustainable+Drainage+Systems+%E2%80%93+Innovation+Literature+Review.pdf

[4] green-and-blue-infra_single-page-version.pdf (ciht.org.uk)

[5] Gwella Priffyrdd Lleol | CIHT




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 2 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 15 | 3 | 1 |
| Ymgeisydd | 51 | 2 | 10 |

**Ffigur 22 – P'un a hoffech gael arweiniad mwy eglur ar gyfer SuDS mewn priffyrdd mabwysiadwy**

### *Safonau a chanllawiau draenio priffyrdd*

Defnyddir DMRB fel arfer wrth ddylunio'r rhan fwyaf o ffyrdd, er bod y ddogfen ei hun yn cydnabod mai arweiniad ydyw i'w ddefnyddio ar gyfer cefnffyrdd. Mae dogfen CG 501 "Dylunio systemau draenio priffyrdd" yn ddefnyddiol ar gyfer bylchau gylïau, systemau draenio ymyl ac elfennau draenio eraill. Fodd bynnag, nid yw DMRB yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer arweiniad ar SuDS. Mewn rhai ardaloedd, mae gan Awdurdodau Lleol eu safonau technegol eu hunain ar gyfer ffyrdd heblaw am gefnffyrdd a allai gyfeirio at SuDS neu beidio.

Mae llawer o'r farn mai'r Llawlyfr Strydoedd[6] yw'r arweiniad dylunio mwyaf perthnasol ar gyfer strydoedd preswyl, cyflymder is. Er bod y ddogfen hon yn sôn am SuDS, mae'n hen ac yn cyfeirio at hen ganllawiau a dulliau darparu. Nodir bod y ddogfen wrthi'n cael ei diweddaru ar hyn o bryd gan CIHT a'r Adran Drafnidiaeth.

Gall yr ystod eang o ganllawiau sydd ar gael ar gyfer dylunio systemau draenio priffyrdd olygu ei bod yn anodd penderfynu pa un sy'n fwyaf priodol i wahanol leoliadau priffyrdd (e.e. cefnffyrdd, prif ffyrdd, strydoedd preswyl lleol).

### *Gofynion draenio ar gyfer priffyrdd o gymharu â Safonau SuDS*

**Mae**

Tabl 11 yn adolygu'r canllawiau y mae dylunwyr priffyrdd yn cyfeirio atynt yn gyffredin ac yn cymharu sut mae'r rhain yn cyd-fynd â Safonau Statudol SuDS. Mae'r gymhariaeth lefel uchel hon yn dangos y bylchau sy'n bodoli mewn safonau priffyrdd.

[6] https://www.gov.wales/manual-streets-residential-streets

**Tabl 11 – Safonau neu ganllawiau priffyrdd presennol o gymharu â Safonau Statudol**

| Safonau Statudol SuDS | Safonau neu ganllawiau priffyrdd statudol e.e. DMRB, SHW, Llawlyfr Strydoedd |
|---|---|
| S1. Cyrchfan dŵr wyneb ffo | Mae DMRB CG501 Adran 2.4 yn rhoi hierarchaeth ollwng debyg ar gyfer draenio ffyrdd: (1) daear; (2) corff dŵr wyneb; (3) carthffos dŵr wyneb; (4) carthffos gyfunol. |
| S2. Rheolaeth hydrolig ar ddŵr wyneb ffo | Mae DMRB yn nodi y dylid ystyried rheoli llif ac osgoi (gormodiant). Mae Tabl 8.3.2N1 yn trafod ymyriadau ac yn rhoi sylw syml ar reoli llif h.y. datgan p'un a yw ymyrraeth yn arafu'r llif. |
| S3. Ansawdd Dŵr | Mae DMRB CG501 Adran 2 yn datgan y dylai dŵr ffo "leihau effaith y dŵr ffo ar yr amgylchedd sy'n ei dderbyn gymaint â phosibl o ran perygl llifogydd ac ansawdd dŵr". Mae Adran 8.3.1 yn datgan "dylai mesurau rheoli llygredd gael eu dylunio i drin y 'rhuthr dŵr cyntaf'" ac mae Tabl 8.3.2N1 yn rhestru gwahanol ymyriadau ac effeithiolrwydd trin cysylltiedig. |
| S4. Amwynder | Mae DMRB CG501 yn cyfeirio at yr angen i systemau draenio ystyried diogelwch defnyddwyr. Mae'r Llawlyfr Strydoedd yn datgan bod plannu a choed yn gallu lleihau cyflymder traffig o'u lleoli'n gywir. Prin yw'r cyfeiriad at fuddion ac ystyriaethau amwynder ehangach. |
| S5. Bioamrywiaeth | Mae Adrannau 5.12 ac 11.3 y Llawlyfr Strydoedd yn ymdrin â "Phlannu". Nodir bod plannu'n ychwanegu gwerth ac yn gallu cael ei integreiddio i osodiad er mwyn arafu traffig, er bod y cyfeiriad at goed a phlanhigion o safbwynt gosodiad yn unig.<br>Mae Adran 12.5 Llawlyfr Strydoedd 2 (2010) yn ymdrin â "Coed a Phlannu ar Strydoedd", ond yn yr un modd nid yw'n rhoi arweiniad o safbwynt bioamrywiaeth. |
| S6. Dylunio draenio ar gyfer adeiladu, gweithredu a chynnal a chadw | Mae DMRB CG501 Tablau 3.4, A.1 a B.1 yn awgrymu lle y gallai ymyriadau fod yn briodol ai peidio o safbwynt cynnal a chadw. |

### 7.4.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 12 – Argymhellion ynglŷn ag alinio â Phriffyrdd**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B26 | **Hwyluso rhannu enghreifftiau o ganllawiau lleol a ffyrdd o oresgyn heriau.**<br>Gallai hyn fod trwy, er enghraifft, y Grŵp Ffocws SuDS (gweler argymhelliad B03) neu gorff goruchwylio SAB (gweler argymhelliad B12). Mae enghreifftiau'n cynnwys canllawiau Gogledd Cymru sydd heb eu cyhoeddi a SABau eraill sydd wedi datblygu eu canllawiau lleol eu hunain. Dylai Llywodraeth Cymru annog rhannu cynnwys ac ystyried darparu platfform cynhaliol/gwefan.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru annog rhannu cynnwys a hwyluso dileu unrhyw rwystrau, a allai olygu bod angen cyllid. | Tymor byr |
| B27 | **Gwahodd cydweithwyr o'r Awdurdod Priffyrdd i fod yn aelodau o'r Grŵp Ffocws SuDS.**<br>Byddai mewnbwn Priffyrdd i'r Grŵp Ffocws SuDS (gweler argymhelliad B03) yn annog rhannu eu cyngor a'u safbwyntiau yn y tymor byr ac yn helpu i lywio'r argymhellion ychwanegol isod.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen adnoddau gan Awdurdodau Priffyrdd i fynychu sesiynau'r Grŵp Ffocws. | Tymor byr |
| B28 | **Ystyried gwneud yr awdurdod priffyrdd yn ymgynghorai statudol yn y broses SAB.**<br>Gellid cyflawni hyn gan ddefnyddio newidiadau i is-ddeddfwriaeth. Byddai angen ymgynghori â SABau ac ymgeiswyr.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen newid deddfwriaethol. Bydd angen adnoddau ar yr holl Awdurdodau Priffyrdd i adolygu ceisiadau. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B29 | **Cynhyrchu canllawiau mwy eglur ar gyflawni SuDS o fewn priffyrdd mabwysiedig a rhyngweithio â chyfleustodau.**<br><br>Mae hyn yn cyd-fynd â pholisi ac argymhellion Seilwaith Gwyrdd a Glas CIHT[7]. Mae potensial i weithio gyda CIHT wrth ddatblygu canllawiau.<br><br>Gallai canllawiau Gogledd Cymru sydd heb eu cyhoeddi ar gyfer SuDS mewn Priffyrdd lywio Canllawiau Cenedlaethol hefyd. Gallai'r canllawiau hyn gynnwys sut gallai nodweddion priffyrdd fel gostegu traffig fod yn nodweddion SuDS hefyd.<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried ychwanegu anogwyr at y Canllawiau Teithio Llesol Cenedlaethol diweddaraf i annog dylunwyr Teithio Llesol i ystyried SuDS.<br><br>Gallai'r diweddariad i'r Llawlyfr Strydoedd sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd fod yn ddull arall o ddylanwadu ar ddylunio strydoedd i annog defnyddio SuDS mewn lleoliad preswyl.<br><br>Byddai angen i'r canllawiau ynglŷn â chyfleustodau gael eu cytuno ar y cyd â pheirianwyr priffyrdd a thrwy weithio gyda Phwyllgor Awdurdodau Priffyrdd a Chyfleustodau Cymru (HAUC Cymru), darparwyr cyfleustodau, a chynrychiolwyr SAB.<br><br>Dylid ystyried p'un a ddylai Safonau Priffyrdd gael eu diweddaru yn unol ag argymhelliad B30 i ddarparu sail gadarn ar gyfer Canllawiau newydd (os felly, gallai canllawiau fod yn dymor hir).<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen adnoddau sylweddol i ddatblygu canllawiau, a allai gael eu hallanoli gan Lywodraeth Cymru. Bydd angen mewnbwn gan bartïon amrywiol, fel y disgrifiwyd. | Tymor canolig |

[7] Green and blue infrastructure: A transport sector perspective | CIHT

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B30 | **Ymgysylltu ag awdurdodau priffyrdd i ddiweddaru / creu safonau technegol cenedlaethol ar gyfer priffyrdd i gynnwys SuDS o fewn ffiniau priffyrdd mabwysiadwy**.<br><br>Dylai hyn ategu'r argymhelliad uchod.<br><br>Dylai hyn gyd-fynd â pholisïau eraill yng Nghymru, gan gynnwys y terfyn cyflymder 20mya diofyn newydd, y cynlluniau priffyrdd newydd cyfyngedig, a hyrwyddo Teithio Llesol. Dylid ystyried y gwahanol fathau o briffyrdd (cefnffyrdd, prif ffyrdd, preswyl) gyda chanllawiau ar bob un.<br><br>Mae'r Llawlyfr Dylunio Ffyrdd a Phontydd (DMRB) yn cynnwys atodiad ar gyfer Cymru sy'n cael ei ddiweddaru o bryd i'w gilydd. Gallai hwn gynnwys egwyddorion clir ar ddylunio SuDS, gan gynnwys cyfeiriad at fuddion amwynder a bioamrywiaeth. Mae cefnffyrdd wedi'u heithrio o gymeradwyaeth ar hyn o bryd, ond byddai eu cynnwys yn atodiad Cymru y DMRB yn galluogi SuDS i fod yn rhan o'r broses o ystyried cefnffyrdd hyd yn oed os nad oes angen cydsyniad SAB ar hyn o bryd.<br><br>Fel arall, dylid diweddaru arweiniad y DMRB yn CG501 "Dylunio systemau draenio priffyrdd" i roi arweiniad mwy eglur ar SuDS ac annog eu defnyddio. Byddai angen i hyn gyd-fynd â diweddariad a drefnwyd i'r safonau priffyrdd a byddai angen iddo hefyd gael ei wneud ar ôl i argymhelliad A02 sy'n ymwneud â diffiniadau gael ei roi ar waith.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen adnoddau sylweddol, gan gynnwys adolygu goblygiadau'r newidiadau o safbwynt iechyd a diogelwch. | Tymor hir |

## 7.5 Eithriadau Presennol

### 7.5.1 Crynodeb o'r Materion

Mae'r ddeddfwriaeth yn amlinellu eithriadau ar gyfer mathau o ddatblygiadau y mae arnynt angen cymeradwyaeth SAB. Amlinellir hyn yn unol â'r darn isod.

*Mae'r gwaith adeiladu canlynol wedi'i eithrio o'r angen am Gymeradwyaeth SAB:*

- *gwaith adeiladu sy'n cael ei wneud gan fwrdd draenio mewnol wrth arfer ei swyddogaethau o dan Ddeddf Draenio Tir 1991;*
- *gwaith adeiladu a gynhelir at ddiben, neu mewn cysylltiad ag, adeiladu—*

*(i) ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, neu*
*(ii) reilffordd gan Network Rail.*

Fodd bynnag, nodwyd bod ansicrwydd yn parhau ynglŷn â'r rheswm dros eithrio a beth yn union sydd wedi'i eithrio. Mae enghreifftiau a amlygwyd yn cynnwys platfformau gorsafoedd yn gysylltiedig â rheilffordd.

### 7.5.2 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 13 – Eithriadau Presennol**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| B31 | **Egluro'r eithriadau presennol rhag gofynion cymeradwyo SuDS mewn canllawiau.**<br>Dylai hyn egluro pa rannau o ddatblygiad nad ydynt wedi'u heithrio sy'n gysylltiedig â ffordd y mae Gweinidogion Cymru yn awdurdod priffyrdd ar ei chyfer, neu reilffordd gan Network Rail. Dylai hefyd egluro beth a olygir gan reilffordd (y traciau yn unig) ac nad yw tramffyrdd wedi'u heithrio.<br>Bydd rhoi rhesymau dros yr eithriadau yn y canllawiau yn darparu eglurder hefyd.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau:** Gellir gwneud hyn trwy ddiweddaru canllawiau yn rhan o ymarfer ehangach i ddiweddaru dogfennau. | Tymor byr |
| B32 | **Adolygu'r eithriad a roddir i ffyrdd gan Weinidogion Cymru fel awdurdod priffyrdd**<br>Dylai hyn ystyried mynnu bod cefnffyrdd yn cydymffurfio â'r Safonau Statudol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau: Adolygiad, gan gynnwys mewnbwn gan arbenigwyr priffyrdd, draenio, ansawdd dŵr, tirwedd ac ecoleg i ystyried y buddion. Gellid ystyried ychwanegu at**<br>Tabl 11 sy'n amlygu bylchau o fewn safonau priffyrdd presennol. | Tymor canolig |

# 8. Categori C: Gofynion Technegol

## 8.1 Cymesuredd

### 8.1.1 Crynodeb o'r Materion

Mae'r cyfyngiad ar adnoddau SABau yn deillio'n rhannol o faint o geisiadau a dderbynnir ar gyfer datblygiadau bach. Mewn rhai ardaloedd Awdurdod Lleol, mae cyfran fawr o geisiadau'n dod o ddatblygiadau llai. Fe all fod yn anodd cymhwyso'r Safonau a'r broses i ddatblygiad ar raddfa lai.

Yn aml, mae arnynt angen mewnbwn tebyg i geisiadau mwy o faint a mwy cymhleth, ac mae'n ofynnol iddynt gyflwyno'r un faint o fanylion yn rhan o'r cais, ond nid oes rhaid iddynt dalu'r un ffi. Gwaethygir hyn gan y ffurflen gais SAB gynhwysfawr, sy'n gallu rhoi baich ymddangosiadol anghymesur ar ymgeiswyr. Mae angen i'r SAB roi cryn dipyn o gyngor i ymgeiswyr ynglŷn â cheisiadau o ansawdd gwael, sy'n ychwanegu at y cyfyngiad ar adnoddau SAB.

Mewn rhai cyd-destunau datblygu, mae perthnasedd yr holl Safonau'n cael ei herio. Mae hyn yn ymwneud â datblygiadau llai fel arfer, ac fe all gynnwys achosion lle mae safonau dylunio neu ofynion rheoleiddiol eraill yn berthnasol hefyd. Fodd bynnag, bu pryder y gallai hyblygrwydd o ran geiriad neu ofynion (e.e. cynyddu'r trothwy 100m$^2$ neu ddileu'r gofyniad i anheddau unigol gyflwyno cais) arwain at golli bwriad y ddeddfwriaeth.


Mae'r ddeddfwriaeth a'r Safonau'n cael eu dehongli'n anghyson ledled Cymru, yn enwedig o ran yr hyn a olygir gan "strwythur" neu'r hyn sy'n gyfystyr â "goblygiadau draenio".

Codir pryderon sylweddol ynglŷn â fforddiadwyedd mewn llawer o achosion. Nid yw hyn yn gyfyngedig i ddatblygiad preswyl ac mae'n cynnwys datblygiad mewn sectorau eraill, lle mae goblygiadau'r broses ymgeisio i raglenni'n gallu achosi oedi sylweddol a chynnydd mewn costau, gan effeithio ar hyfywedd.

### 8.1.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

*Ffurflen gais haenog*

Gofynnwyd i'r ymatebwyr i'r holiadur a fyddai ffurflen gais haenog yn lleihau'r baich adnoddau ar SABau ac ymgeiswyr, e.e. fersiwn "ysgafn" ar gyfer ardaloedd sy'n llai na maint penodol neu mewn cyd-destun penodol. O'r rhai a ymatebodd, roedd 65% yn cytuno'n gryf y byddai cais "ysgafn" neu haenog yn helpu i leihau heriau adnoddau.




| | Anghytuno'n Gryf | Anghytuno | Ddim yn Cytuno nac yn Anghytuno | Cytuno | Cytuno'n Gryf | Dim Ymateb |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | | | 2 | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | | | | | 1 |
| SAB | | 4 | 1 | 8 | 6 | |
| Ymgeisydd | 2 | 1 | | 12 | 43 | 6 |

**Ffigur 23 – P'un a fyddai ffurflen gais haenog yn lleihau'r baich ar adnoddau**

Ceisiwyd ymatebion ynglŷn â ph'un a ddylai ceisiadau ddefnyddio dull "ysgafn". Roedd yr ymatebion yn cynnwys maint (38%), y math o waith (29%), risg (10%) ac "arall" (23%).

O' rhai a ddewisodd "faint", y graddfeydd mwyaf poblogaidd oedd:

- 10 o anheddau neu lai
- 5 o anheddau neu lai
- 1000m$^2$
- Datblygiadau nad ydynt yn fabwysiadwy

O'r rhai a ddewisodd "risg", yr ystyriaethau risg mwyaf poblogaidd a godwyd oedd:

- Risg amgylcheddol
- Math o ddatblygiad
- Ansawdd dŵr
- Perygl llifogydd

O'r rhai a ddewisodd "arall", yr awgrymiadau mwyaf poblogaidd oedd:

- Cyfuniad o faint, math, a risg
- Cyfuniad o faint a math
- Cyfuniad o faint a lleoliad

## *Gwybodaeth ategol*

Roedd thema allweddol a gododd o'r adborth a gafwyd yn ystod y Gweithdy â Ffocws i Ymgeiswyr ynglŷn â chymesuredd, yn awgrymu y dylai'r ffurflen gais ganolbwyntio ar ddatblygiadau o wahanol raddfeydd a mathau. Cydnabuwyd bod anghysondeb o ran gofynion ar draws SABau hefyd. Yn ogystal, amlygodd y gweithdy fod lefel y wybodaeth ategol y gofynnir amdani i gyd-fynd â chais yn gallu bod yn


ormodol ac yn anghymesur, ac nad yw rhai dogfennau sy'n ofynnol yn gwbl berthnasol i gymeradwyaeth dechnegol draenio (e.e. Cynlluniau Rheoli Amgylcheddol Adeiladu).

*Porth ymgeisio*

Amlygodd y Gweithdy â Ffocws i Ymgeiswyr yr angen i wella hygyrchedd a fformat y ffurflen gais. Nodwyd bod SABau wedi defnyddio dulliau gwahanol, gyda rhai'n dewis ffurflenni digidol trwy byrth ar-lein tra bod eraill yn gofyn am dderbyn dogfennau trwy e-bost. Nodwyd bod rhannu gwybodaeth ategol yn achosi problemau mewn rhai achosion o ganlyniad i faint ffeiliau. Cytunwyd yn gyffredinol yn y gweithdy mai ffurflen gyson, ddigidol yn ddelfrydol, trwy borth ar-lein yw'r dull gorau o gyflwyno ac olrhain ceisiadau.

*Datblygiad y tybir ei fod yn cydymffurfio neu ddatblygiad wedi'i eithrio*

Dywedodd 89% o'r ymatebwyr y dylai fod gwaith diffiniedig y tybir ei fod yn cydymffurfio neu ei fod wedi'i eithrio o'r angen i gael cymeradwyaeth SAB. Ystyriodd yr ymatebwyr restr awgrymedig a ddatblygwyd trwy'r adolygiad o lenyddiaeth, fel y dangosir yn Ffigur 24.




**Ffigur 24 – Mathau posibl o ddatblygiadau y gellid tybio eu bod yn cydymffurfio neu eu bod wedi'u heithrio o'r angen i gael cymeradwyaeth SAB**

Roedd rhywfaint o adborth ychwanegol a mathau ychwanegol o ddatblygiadau yn cynnwys:

- Amaethyddiaeth
- Gwaith coedwigaeth gan gynnwys traciau
- Cynlluniau teithio llesol
- Tomenni glo
- Gwaith dros dro


*Trothwy 100m²*

Hoffai'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr weld y trothwy 100m² yn cael ei gynyddu. Fodd bynnag, byddai'n well gan 17 SAB ei gadw fel y mae, a ddangosir yn Ffigur 25.

Awgrymwyd ei newid i'r canlynol

- 200-250m² – 3 ymateb o 40
- 500m² – 6 ymateb o 40
- 1000m² – 7 ymateb o 40

Mae sawl ymateb yn cyfeirio at fuddion posibl ffurflen gais "ysgafn" â gofynion is o ganlyniad, a allai hwyluso datblygiadau llai o faint.




| | Cadw fel y mae | Cynyddu | Disodli | Dileu |
|---|---|---|---|---|
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | | |
| SAB | 17 | 1 | | 1 |
| Arall | 1 | 1 | | 2 |
| Ymgeisydd | 9 | 39 | 8 | 7 |

**Ffigur 25 – P'un a ddylid adolygu'r trothwy 100m²**

### 8.1.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 14 – Argymhellion ynglŷn â chymesuredd**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| - | **Egluro diffiniadau fel yr hyn a olygir gan "strwythur", "adeiladu", "goblygiadau draenio", "eiddo unigol", "datblygiad tir llwyd" ac "ôl-osod".** Yn unol ag argymhelliad B1. Ystyried mewnosod graffigau i hybu dealltwriaeth gyffredin. | Tymor byr |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| C01 | **Datblygu ffurflen gais ddigidol/porth newydd yn debyg i’r system Gynllunio.**<br>Bydd ffurflen a ddefnyddir drwy Gymru gyfan yn darparu cysondeb ac yn caniatáu ar gyfer casglu data’n haws yn y dyfodol (argymhelliad A01). Gellid cyfuno’r ffurflen gais/porth â rhai’r system Gynllunio, neu greu offeryn ar wahân ond tebyg. Gallai ffurflen ddigidol ganiatáu ar gyfer ymagwedd gymesur, lle mae gofynion gwybodaeth yn cael eu pennu gan raddfa, risg a lleoliad/cyd-destun y datblygiad.<br>**Gofynion o ran adnoddau**: Bydd angen adnoddau digidol i sefydlu a chynnal y ffurflen/porth. Dylai hyn gael ei wneud ar y cyd â’r argymhelliad isod ar gyfer ffurflen haenog. | Tymor canolig |
| C02 | **Cyflwyno ffurflen gais haenog sy’n briodol i gais ar raddfa benodol e.e. fersiwn “ysgafn”.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru bennu’r mathau o ddatblygiadau sy’n debygol o fod yn gysylltiedig â risg, p’un a yw’r SuDS yn fabwysiadwy, nifer yr eiddo a/neu faint y datblygiad.<br>Dylai hyn geisio lleihau nifer y ffurflenni gymaint â phosibl neu greu un ffurflen ddigidol sy’n ymateb yn awtomatig i’r math o ddatblygiad, er mwyn lleihau’r baich gweinyddol. Byddai angen ymgynghori â SABau ac ymgeiswyr. Gellir gweithredu’n gyflymach trwy sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen a chyfnewid dogfennau.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen adnoddau gan SABau a hwylusir gan CLlLC i fireinio ffurflenni, a ddylai gynnwys mewnbwn gan ymgeiswyr. | Tymor canolig |
| - | **Darparu rhestr glir o senarios nad oes angen iddynt gael cymeradwyaeth SAB, y tybir eu bod yn cydymffurfio, neu sydd wedi’u heithrio o’r angen i gael cymeradwyaeth SAB.**<br>Fel yr ymdriniwyd ag ef o dan Ganllawiau | Tymor canolig |
| C03 | **Yn dilyn adolygiad o effaith yr argymhellion uchod, adolygu’r trothwy 100m$^2$ eto.**<br>Bydd angen ystyried hyn yn ofalus ochr yn ochr â diffiniadau mwy eglur, rhestr o ddatblygiadau y tybir eu bod yn cydymffurfio / wedi’u heithrio o gymeradwyaeth SAB, ac effaith unrhyw newidiadau eraill, gan nodi bod SABau yn teimlo’n gyffredinol bod y trothwy presennol yn addas.<br>Pe byddai’r trothwy’n cael ei newid, byddai angen newid is-ddeddfwriaeth.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Yn y tymor canolig, dylai Llywodraeth Cymru adolygu a yw’r trothwy’n parhau i fod yn broblem i ymgeiswyr ar ôl gweithredu meini prawf ar gyfer datblygiadau sydd wedi’u heithrio a/neu y tybir eu bod yn cydymffurfio. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| - | **Darparu sefydliad goruchwylio a/neu drydydd parti i reoleiddio swyddogaethau SAB a sicrhau cysondeb, gan gynnwys helpu i ddatrys anghydfodau.**<br>Yn unol ag argymhelliad B12. | Tymor hir |

## 8.2 Safonau Technegol

### 8.2.1 Crynodeb o’r Materion

Mae rhai ymgeiswyr o’r farn bod y Safonau a’r canllawiau presennol yn rhy cyffredinol i’w cymhwyso’n ymarferol. Er enghraifft, nid oes dulliau a dderbynnir yn gyffredinol ar hyn o bryd i gyfrifo cyfraddau dŵr wyneb ffo. Hefyd, mae’r meini prawf ailgyfeirio o fewn Safon 2 yn anodd eu cyflawni mewn lleoliadau â chyfraddau ymdreiddio gwael a/neu halogiad tir, sy’n amodau cyffredin yng Nghymru.

Mae angen i’r Safonau ddarparu mwy o fanylion, er mwyn i SABau ddefnyddio dull wedi’i seilio’n fwy ar risg sy’n gymesur â’r math o ddatblygiad a’r cyd-destun lleol. Pan fydd y meysydd hyn wedi cael eu cadarnhau, byddai angen clir i gynhyrchu enghreifftiau arfer gorau i ddangos sut beth yw llwyddiant.

Ni ymdrinnir yn ddigonol â sectorau fel amaethyddiaeth, mwyngloddio/chwarela, coedwigaeth, a thai cymdeithasol. Gall hyn arwain at wrthdaro â pholisi a deddfwriaeth arall Llywodraeth Cymru yn ogystal â’r gallu i gyflawni targedau a gwario dyraniadau grant.

### 8.2.2 Ymgysylltu ac Adborth


Canolbwyntiodd yr holiadur ar yr Egwyddorion Safonol a phob Safon, gyda chyfle i’r ymatebwyr roi sylwadau ychwanegol.

*Egwyddorion*

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf a oedd yr Egwyddorion Safonol yn ychwanegu gwerth at geisiadau SAB yn ogystal â darparu tystiolaeth o’r chwe Safon. O’r rhai a fynegodd farn, roedd 64% yn cytuno bod yr Egwyddorion yn ychwanegu gwerth. Dylanwadir ar hyn gan 89% o SABau a ddewisodd yr opsiwn hwn.

*Safon A1 – Cyrchfan dŵr wyneb ffo*

Pan ofynnwyd a yw’r hierarchaeth cyrchfan dŵr ffo yn Safon S1 yn gwarchod rhwydweithiau a hydroleg i lawr yr afon yn ddigonol, roedd 82% yn cytuno a 18% yn anghytuno.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 2 | | 1 |
| Ymgynghorai Statudol | | 1 | |
| SAB | 13 | 6 | |
| Ymgeisydd | 35 | 4 | 24 |

**Ffigur 26 – P’un a yw Safon S1 yn ddigonol i warchod rhwydweithiau a hydroleg i lawr yr afon**

O’r rhai a ddywedodd “na”, ceisiwyd ymatebion ar sut i’w gwneud yn fwy cadarn. Roedd yr adborth yn cynnwys:

SABau yn dehongli'r hierarchaeth mewn ffyrdd gwahanol. Mae hyn yn cynnwys yr hyn a olygir gan 'gyrchfan', h.y. a yw'n golygu'r pwynt cysylltu neu leoliad gollwng terfynol y rhwydwaith i lawr yr afon.

Roedd rhai argymhellion yn cynnwys ychwanegu gofyniad i ddangos bod y system sy'n derbyn yn gallu ymdopi â'r llifoedd arfaethedig.

Argymhellodd un ymatebydd y dylai cysylltiad arfaethedig â charthffos gyhoeddus, pe byddai'r SAB yn cytuno, ganiatáu hawl apelio i'r Ymgynghorai Statudol.


Mae rhai wedi herio dilysrwydd ailddefnyddio dŵr pan nad yw llawer o SABau o'r farn bod hyn yn briodol neu'n caniatáu iddo gael ei gynnwys ym mherfformiad hydrolig y system ddraenio.

### *Safon S2 – Rheolaeth hydrolig ar ddŵr wyneb ffo*

Yn yr un modd, mae 84% o'r ymatebwyr yn cytuno bod Safon S2 yn darparu digon o dystiolaeth o reolaethau hydrolig. O'r rhai a anghytunodd, cyffredinolwyd eu hymatebion ynglŷn â sut i'w gwneud yn fwy cadarn:

Mae angen i'r canllawiau fod yn fwy penodol ac maen nhw'n agored i'w dehongli ar hyn o bryd. Mae hyn yn cynnwys cyfeiriad at ailgyfeirio a chyfraddau llif, y mae angen iddynt gael canllawiau a disgwyliadau mwy eglur gan SAB sy'n realistig ac yn caniatáu dull pragmatig.

Un her, sy'n deillio o natur newidiol dyluniadau a data ymdreiddio sy'n aml yn annibynadwy, yw bod SABau yn amharod i dderbyn datrysiadau sy'n dibynnu ar ymdreiddio.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 16 | 2 | 1 |
| Ymgeisydd | 29 | 7 | 26 |

**Ffigur 27 – P'un a yw Safon S2 yn ddigonol i ddangos tystiolaeth o reolaethau hydrolig a gynigir**

### *Meini prawf ailgyfeirio*


Dangosodd adborth o ymgysylltu ag ymgeiswyr nad yw'r cyfraddau sychdarthu, anweddu a thrydarthu yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig yn arwyddocaol, felly, yn aml, nid yw'n bosibl i safleoedd sy'n dioddef ymdreiddio gwael a halogiad atal y 5mm cyntaf o lawiad rhag gadael safle. Gall hyn wneud datblygiad yn anhyfyw yn ariannol.

*Storio Cyfeintiol*

Codwyd Storio Cyfeintiol trwy ymgysylltu ag ymgeiswyr, a nodwyd bod y gofynion a amlinellir yn y Safonau yn golygu bod angen cryn dipyn yn fwy o gloddio ac ôl troed nag a fyddai'n wir yn draddodiadol gan ddefnyddio cyfraddau dŵr ffo maes glas.

*Safon S3 – Ansawdd dŵr*

Pan ofynnwyd p'un a yw Safon S3 yn gwarchod cyrff dŵr a systemau draenio sy'n derbyn yn ddigonol, roedd 91% yn cytuno ei bod yn ddigonol, fel y gwelir yn Ffigur 28. Roedd sylwadau gan ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn cynnwys cyfeiriad at y ffaith bod pob safle datblygu'n unigryw. Dywedodd ymgeiswyr fod Dull Mynegai Syml Llawlyfr SuDS CIRIA yn fras iawn a bod llwythi blynyddol net yn fesur mwy priodol, o bosibl.





| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | 1 | 1 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 14 | 2 | 2 |
| Ymgeisydd | 34 | 2 | 27 |

**Ffigur 28 – P'un a yw Safon S3 yn gwarchod cyrff dŵr a systemau draenio i lawr yr afon sy'n derbyn yn ddigonol**

*Safon S6 – Dylunio draenio o safbwynt adeiladu, gweithredu, a chynnal a chadw*

O'r rhai a fynegodd farn, mae 70% o'r ymatebwyr yn cytuno bod Safon S6 yn ddigonol o ran ystyried dylunio, adeiladwyedd, gweithredu, a chynnal a chadw. Mae themâu cyffredinol ymhlith ymatebwyr a oedd yn anghytuno yn cynnwys:

- Mae'r gofynion ar gyfer ystyriaethau strwythurol ac iechyd a diogelwch yn dda, ond dylid creu canllawiau ar gostau cynnal a chadw er mwyn sicrhau mwy o gysondeb.
- Mae prinder sgiliau i gynnal a chadw asedau'n briodol, sy'n golygu bod perygl asedau a gynhelir yn wael ac asedau diangen.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | 1 | |
| SAB | 15 | 3 | 1 |
| Ymgeisydd | 27 | 14 | 22 |

**Ffigur 29 – P'un a yw Safon S6 yn sicrhau bod systemau draenio'n gallu cael eu dylunio, eu hadeiladu, eu gweithredu, a'u cynnal a'u cadw gan ystyried oes gyfan yr ased**

### 8.2.3 Hepgoriadau o'r Safonau

Nid yw 65% o'r ymatebwyr yn credu bod unrhyw beth ar goll o'r Safonau, er y dywedodd y rhan fwyaf nad oedd ganddynt farn.



| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | 1 | |
| SAB | 3 | 14 | 2 |
| Ymgeisydd | 13 | 17 | 32 |

**Ffigur 30 – P'un a oes unrhyw beth ar goll o'r safonau**

Pan ofynnwyd a ddylai fod mwy o bwyslais ar leihau carbon neu systemau carbon niwtral, roedd rhaniad cyfartal ymhlith ymatebion y rhai a fynegodd farn.

### 8.2.4 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 15 – Argymhellion ynglŷn â safonau technegol**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| C04 | **Egluro p'un a oes rhaid i ymgeisydd ddarparu profion ymdreiddio fel sy'n ofynnol yn Safon S1**<br><br>Mae'r Safonau'n datgan 'bydd dylunio cysyniadol cynnar yn mynnu bod profion ymdreiddio'n cael eu cynnal yn gynnar hefyd i lywio dyluniad cysyniadol y system ddraenio'. Fodd bynnag, fe all fod yn amlwg nad yw ymdreiddio'n briodol ar safle yn seiliedig ar wybodaeth bresennol am y safle neu astudiaeth ddesg. Gall cynnal profion ymdreiddio arwain at gostau ofer yn yr achosion hyn.<br><br>Gallai ymgynghori â SABau olygu y gellir dangos set o feini prawf cyn derbyn nad yw ymdreiddio'n briodol ar gyfer safle penodol.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: I'w egluro o fewn Safonau a Chanllawiau Cenedlaethol wedi'u diweddaru sydd yn yr arfaeth. | Tymor byr |
| C05 | **Diweddaru Safon S1 i egluro bod angen cadarnhau'r pwynt gollwng terfynol, y tu hwnt i'r pwynt cysylltu uniongyrchol yn unig.**<br><br>Bydd hyn yn gofyn i SABau/Awdurdodau Llifogydd Lleol Arweiniol ac Ymgyngoreion Statudol eraill rannu gwybodaeth am asedau (pan fo ar gael) â'r ymgeisydd i'w alluogi i'w hadolygu. Dylid sefydlu dulliau i ddiffinio cyflwr presennol ased yn deg, neilltuo cyfrifoldeb i ddelio â materion a sut i bennu costau uwchraddio asedau, fel pibellau sydd mewn cyflwr gwael.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: I'w egluro o fewn Safonau a Chanllawiau Cenedlaethol wedi'u diweddaru sydd yn yr arfaeth. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| C06 | **Cryfhau canllawiau dylunio cenedlaethol.**<br><br>Dylai'r canllawiau amlinellu safonau'r Diwydiant ar gyfer dylunio, modelu hydrolig a mewnbynnau, gan gynnwys data glawiad, dulliau dŵr ffo, a manylion gwerthoedd hydrolig eraill i'w defnyddio. Dylai'r rhain ategu'r Safonau Statudol.<br><br>Ar ôl cryfhau canllawiau cenedlaethol, dylai atodiadau cryno lleol neu ranbarthol ddilyn (yn unol ag argymhelliad B06). Gellid cyflawni hyn trwy ddefnyddio dull tebyg i Ganllaw Dylunio Cynaliadwy Gorllewin Lloegr (mae'r prif ganllaw'n cynnwys atodiad lle mae pob awdurdod unedol yn amlinellu cymeriad pob ardal, gofynion technegol a gweithdrefnol penodol i'r awdurdod, a chysylltiadau allweddol) neu Garthffosydd i'w Mabwysiadu (lle mae WRc yn gweithio gyda'r holl ymgymerwyr carthffosiaeth i gynhyrchu canllaw ac yna maen nhw'n cynhyrchu eu hatodiadau lleol).<br><br>Dylai strategaeth ar gyfer Safonau, canllawiau cenedlaethol a chanllawiau/atodiadau dylunio lleol (gan gynnwys lefel manylion pob un) gael ei hamlinellu yn y lle cyntaf yn unol ag argymhelliad B02.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Mae hyn yn gofyn am un sefydliad arweiniol, ond mae creu/diweddaru canllawiau dylunio manwl cenedlaethol yn gofyn am fewnbwn gan yr holl randdeiliaid yng Nghymru. Gellid ei gyflawni ar y cyd â diweddariad a drefnwyd i Lawlyfr SuDS CIRIA. | Tymor canolig |
| C07 | **Adolygu a diweddaru'r meini prawf cydymffurfio ag ailgyfeirio yn y canllawiau ar gyfer Safon S2**<br><br>Ystyried dileu/diwygio'r tablau "tybir eu bod yn cydymffurfio" yn y canllawiau ar gyfer Safon S2 (Tabl G2.1).<br><br>Dylid darparu arweiniad ar sut gellir cyflawni ailgyfeirio o'r egwyddorion cyntaf, ond dylai ystyried amodau presennol y safle a'r hinsawdd leol.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen ystyriaeth dechnegol gan grŵp ffocws o SABau a dylunwyr yn seiliedig ar yr amodau lleol yng Nghymru. | Tymor canolig |
| C08 | **Adolygu ac ystyried newid Safon S2 am storio cyfeintiol tymor hir.**<br><br>Gallai hyn ganolbwyntio ar gyd-fynd yn well â'r Meini Prawf Ailgyfeirio gyda gofynion mwy eglur ar gyfer pryd y gall hyn leihau neu ddileu'r angen am storio tymor hir.<br><br>Os cytunir â hyn ar ôl adolygu, bydd angen i'r Safonau gael eu diwygio, sy'n golygu y bydd angen ymgynghori.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen ystyriaeth dechnegol gan grŵp ffocws o SABau a dylunwyr yn seiliedig ar yr amodau lleol yng Nghymru. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| C09 | **Amlinellu gofynion clir a chanllawiau cysylltiedig ar gyfer prosiectau 'ôl-osod'.**<br><br>Mae hyn yn golygu bod angen i'r term "ôl-osod" gael ei ddiffinio. Yna, os ystyrir bod angen, gallai'r cynlluniau hyn ddod o dan set ar wahân o feini prawf 'tybir eu bod yn cydymffurfio' y mae amodau/safonau ar wahân yn berthnasol iddynt.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen ymarfer cwmpasu cychwynnol sy'n cynnwys ystod o randdeiliaid i bennu'r strategaeth ar gyfer cyflawni hyn. | Tymor canolig |
| C10 | **Adolygu p'un a yw'r rheolaethau presennol ar gyfer yr hawl i gysylltu â'r rhwydwaith carthffosiaeth yn a106A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 (fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 3 FWMA 2010) wedi'u lleoli'n gywir.**<br><br>Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol i alluogi'r newid hwn, gan fod hyn wedi'i amlinellu yn FWMA 2010 ar hyn o bryd. Byddai angen i Lywodraeth Cymru aros am y cyfrwng deddfwriaethol priodol i gynnig y newid hwn, a fyddai hefyd yn destun ymgynghori cyhoeddus a chraffu deddfwriaethol.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried y newid deddfwriaethol hwn. | Tymor hir |

## 8.3 Bioamrywiaeth ac Amwynder

### 8.3.1 Crynodeb o'r Materion

Yn 2021, amlinellodd Llywodraeth Cymru ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu yng Nghymru i "ddeddfu i gryfhau'r gofynion ar gyfer defnyddio SuDS sy'n darparu cynefin bywyd gwyllt"[8]. Mae angen gwella canllawiau ac offer ymarferol i gynorthwyo â hyn, gan roi ystyriaeth i faint y datblygiad a'r math o ddatblygiad.

Mae ymgeiswyr a SABau yn cytuno bod y canllawiau presennol yn brin o offer ac arweiniad penodol i egluro beth sy'n gymesur o safbwynt bioamrywiaeth ac amwynder.

Mae bioamrywiaeth ac amwynder yn ystyriaethau yr ymdrinnir â nhw mewn ceisiadau Cynllunio, ond gall y gofynion ar gyfer Cynllunio a SAB fod yn amrywiol ac yn anghyson. Mae perygl posibl o ystyried pocedi o fioamrywiaeth ac amwynder sy'n gysylltiedig ag elfennau SuDS na fyddant yn briodol ar gyfer y cyd-destun ehangach.


Mae SABau yn wynebu pwysau adnoddau yn gyffredinol, ond yn enwedig o ran y sgiliau sy'n angenrheidiol i adolygu'r gofynion bioamrywiaeth ac amwynder.

[8] Rhaglen lywodraethu | LLYW.CYMRU

### 8.3.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

*Safonau S4 ac S5 – Yr effaith ar y broses ymgeisio*

Gofynnodd y cwestiwn cyntaf am y pwnc hwn b'un a oedd y Safonau amwynder a bioamrywiaeth yn achosi problem i geisiadau. Mae'r ymatebion gan ymgeiswyr yn awgrymu bod y ddwy Safon hyn yn achosi problem yn y broses ymgeisio.





**Ffigur 31 – Gofynnwyd i ymgeiswyr b'un a yw amwynder a bioamrywiaeth yn achosi problem i geisiadau**

*Safon S4 – Cynyddu buddion amwynder i'r eithaf*

O'r rhai a fynegodd farn, roedd 63% o'r ymatebwyr yn cytuno bod y gofynion yn Safon S4 yn ddigonol i gynyddu buddion amwynder i'r eithaf. O'r 20 o bobl a ddywedodd "na", roedd y sylwadau a'r awgrymiadau'n cynnwys:

- Bod angen canllawiau mwy eglur gyda diffiniadau lle y bo'n briodol, gan fod y canllawiau presennol yn amwys ac yn agored i'w dehongli.
- Dylai'r canllawiau fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r math o ddatblygiad.
- Dywedodd rhai ymatebwyr y dylai Safon S4 naill ai gael ei dileu neu gael ei gwneud yn llai beichus, gyda cheisiadau "ysgafn" o bosibl pe byddai'r opsiwn hwn yn cael ei ddatblygu.
- Nododd ymgeiswyr fod gofynion tebyg yn rhan o'r broses Gynllunio, ac felly ceir dyblygu yn sgil eu cynnwys yn y gymeradwyaeth ddraenio dechnegol.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 10 | 7 | 2 |
| Ymgeisydd | 23 | 13 | 27 |

**Ffigur 32 – P'un a yw Safon S4 yn ddigonol i gynyddu buddion amwynder i'r eithaf**

### *Safon S5 – Cynyddu buddion bioamrywiaeth i'r eithaf*

O ran Safon S5, roedd 63% o'r rhai a fynegodd farn yn teimlo bod y gofynion yn ddigonol i gynyddu buddion bioamrywiaeth i'r eithaf. Fodd bynnag, wrth ystyried barn SABau, atebodd 53% "na". Mae awgrymiadau ar gyfer sut i wneud hyn yn fwy cadarn yn cynnwys:

- Yn debyg i Safon S4, mae angen canllawiau mwy eglur, efallai ar raddfa ranbarthol. Mae'r canllawiau presennol yn amwys ac yn agored i'w dehongli. Dylai'r canllawiau hyn fod yn rhesymol ac yn gymesur â'r math o ddatblygiad.
- Unwaith eto, mae rhai ymatebwyr o'r farn y dylai Safon S5 naill ai gael ei dileu neu gael ei gwneud yn llai beichus, yn enwedig gan fod gofynion tebyg yn rhan o'r broses Gynllunio ac felly maen nhw'n teimlo bod ymdrechion yn cael eu dyblygu.





| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 8 | 9 | 2 |
| Ymgeisydd | 25 | 12 | 26 |

**Ffigur 33 – P'un a yw Safon S5 yn ddigonol i gynyddu buddion bioamrywiaeth i'r eithaf**

### *Arbenigedd yr awdurdod lleol o ran asesu bioamrywiaeth*


Mae 12 o 19 SAB yn credu bod digon o arbenigedd yn yr Awdurdod Lleol i ystyried a chyflawni buddion bioamrywiaeth, fel y dangosir yn Ffigur 34.




**Ffigur 34 – Os ydych chi'n SAB, a oes digon o arbenigedd yn yr awdurdod lleol i sicrhau bod buddion bioamrywiaeth yn cael eu hystyried a'u cyflawni?**

### *Gwelliannau a gyflawnwyd gan Safonau 4 a 5*


Mae 57% o'r ymatebwyr yn credu bod y safonau bioamrywiaeth ac amwynder wedi arwain at rai gwelliannau. Fodd bynnag, mae rhaniad cyfartal ymhlith y rheiny sy'n credu bod y ddeddfwriaeth wedi cyflawni gwelliant sylweddol a'r rheiny sy'n teimlo na fu unrhyw effaith.




**Ffigur 35 – P'un a yw'r safonau bioamrywiaeth ac amwynder wedi cyfrannu at well datblygiad yng Nghymru**

### *Canllawiau lleol ar gyfer bioamrywiaeth*

Fodd bynnag, pan ofynnwyd a oedd digon o ganllawiau lleol ar gael ar gyfer bioamrywiaeth, dangosodd y canlyniadau fod 88% o'r ymatebwyr yn credu nad oes digon o ganllawiau.




| | Canllawiau da, clir ar gael | Dim canllawiau clir ar gael |
|---|---|---|
| Arall | | 1 |
| Ymgynghorai Statudol | | 1 |
| SAB | 3 | 15 |
| Ymgeisydd | 7 | 53 |

**Ffigur 36 – P'un a oes digon o ganllawiau lleol ar gael ar yr hyn y mae Awdurdodau Lleol ei angen ar gyfer bioamrywiaeth**


### *Adborth ar welliannau bioamrywiaeth*

Dyma rai awgrymiadau ar gyfer sut gellid annog buddion bioamrywiaeth:

- Alinio'n well â Chynllunio i osgoi dyblygu neu ddatgysylltu.
- Ystyried yn gynharach yn y broses.
- Creu cyngor cenedlaethol neu ranbarthol.
- Gwell canllawiau ar ddisgwyliadau SAB, gan gynnwys cynnal a chadw.
- Pwysleisio pwysoliad cyfartal ar gyfer y Safon hon o gymharu â Safonau eraill.
- Darparu Safon y gellir ei meintioli neu offeryn y gellir ei feintioli.
- Gweithredu gwelliannau oddi ar y safle pan fydd ffin safle'n gyfyngedig. Llywodraeth Cymru i gynnig hyfforddiant a chyllid ar gyfer timau.

### *Canllawiau lleol ar gyfer amwynder*

Yn debyg i fioamrywiaeth, mae 90% o'r ymatebwyr yn credu nad oes digon o ganllawiau ar gyfer amwynder.




| | Canllawiau da, clir ar gael | Dim canllawiau clir ar gael |
|---|---|---|
| Arall | | 1 |
| Ymgynghorai Statudol | | 1 |
| SAB | 4 | 15 |
| Ymgeisydd | 4 | 57 |

**Ffigur 37 – P'un a oes digon o ganllawiau lleol ar gael ar yr hyn y mae Awdurdodau Lleol ei angen ar gyfer amwynder**

### *Tybir eu bod yn cydymffurfio*

Pan ofynnwyd a ddylid tybio bod rhai mathau o ddatblygiadau yn cydymffurfio â'r Safon fioamrywiaeth (neu efallai eu bod wedi'u heithrio ohoni mewn rhai amgylchiadau), roedd 65% o'r ymatebwyr yn cytuno. Roedd rhai mathau o ddatblygiadau y gallai hyn fod yn berthnasol iddynt yn cynnwys:

- Amaethyddiaeth
- Coedwigaeth
- Adeiladau diwydiannol
- Datblygiadau bach (gallai hyn alinio â'r cais SAB "ysgafn", fel yr awgrymwyd yn yr adran ar Gymesuredd)




| | Ie, dylai rhai mathau o ddatblygiadau gael eu heithrio | Na, dylai bioamrywiaeth fod yn berthnasol i bob datblygiad | No opinion |
|---|---|---|---|
| Arall | 3 | | |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 8 | 11 | |
| Ymgeisydd | 39 | 16 | 8 |

**Ffigur 38 – P’un a ddylid tybio bod rhai mathau o ddatblygiadau’n cydymffurfio â’r safon fioamrywiaeth (neu eu bod wedi’u heithrio ohoni)**

Yn yr un modd, gofynnwyd i’r ymatebwyr a ddylid tybio bod rhai mathau o ddatblygiadau’n cydymffurfio â’r Safon amwynder / wedi’u heithrio ohoni, ac ymatebodd 72% “ie”. Dyma rai enghreifftiau o fathau o ddatblygiadau y gallai hyn eu cynnwys:

- Amaethyddol
- Adeiladau diwydiannol
- Datblygiad bach




**Ffigur 39 – P’un a ddylid tybio bod rhai mathau o ddatblygiadau’n cydymffurfio â’r safon amwynder/wedi’u heithrio ohoni**

*Cynyddu bioamrywiaeth neu gydnerthedd ecosystemau i’r eithaf er mwyn integreiddio â pholisi ehangach*

Amlygodd adolygiad o’r dulliau presennol o asesu bioamrywiaeth y gwelliannau canlynol i’r Safonau sy’n ymwneud â bioamrywiaeth:

- Ym maes Cynllunio, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio’r ymadrodd “budd net i fioamrywiaeth” yn hytrach na “chynnydd net o fioamrywiaeth” a ddefnyddir yn Lloegr. Yn ogystal, mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn defnyddio’r ymadrodd “cydnerthedd ecosystemau” tra bod Polisi Cynllunio Cymru yn cyfeirio at “Fioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau”. Gallai’r termau hyn gael eu hystyried mewn diweddariadau i’r Safonau yn y dyfodol er mwyn cysondeb.
- Mae ymagwedd Llywodraeth Cymru yn gofyn am ystyried bioamrywiaeth (rhywogaethau a chynefinoedd) a chydnerthedd ecosystemau gan ddefnyddio fframwaith DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd ac Agweddau ar gydnerthedd ecosystemau), sy’n ansoddol yn hytrach na meintiol. Dylid nodi efallai na fydd y fframwaith DECCA yn addas i bob datblygiad, yn enwedig datblygiadau ar raddfa lai.
- Gellid ailstrwythuro’r safon hon o amgylch dwy agwedd:
  - Dylunio er mwyn cael yr effaith leiaf ar nodweddion presennol
  - Dylunio i gynyddu buddion a chydnerthedd ecosystemau i’r eithaf o dan y fframwaith DECCA

- Dylid darparu nodiadau canllaw neu anogwyr hefyd i gynorthwyo ymgeiswyr wrth ystyried y fframwaith DECCA, e.e.:
  - amrywiaeth rhwng ac o fewn ecosystemau
  - cysylltiadau rhwng ac o fewn ecosystemau
  - graddfa ecosystemau
  - cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad)
  - gallu ecosystemau i addasu
- Canllawiau ymarferol mwy eglur gan Awdurdodau Lleol ar yr hyn maen nhw ei angen yn yr ardal (rhywogaethau, cysylltedd ac ati).

*Metrigau ar gyfer asesu bioamrywiaeth*

Mae'r posibilrwydd o ddefnyddio metrigau/offer i asesu bioamrywiaeth wedi cael ei drafod gyda rhanddeiliaid. Mae dadleuon o blaid ac yn erbyn defnyddio metrigau i 'sgorio' bioamrywiaeth. Gan nodi'r uchod, anogir ymagwedd ansoddol yng Nghymru ar hyn o bryd.

Pe byddai metrigau'n cael eu defnyddio i asesu bioamrywiaeth, gallai gwahanol fathau o offer fod yn fwy addas i wahanol gyd-destunau. Er enghraifft, mae offer sy'n asesu cynnydd/budd net i fioamrywiaeth yn fwy priodol i ddatblygiad maes glas lle y ceir gwybodaeth sylfaenol am fioamrywiaeth bresennol. Fodd bynnag, mae'n bosibl na fydd gwybodaeth sylfaenol addas am ddatblygiadau tir llwyd (h.y. efallai na fydd bioamrywiaeth yn bodoli yno eisoes), ac felly gallai mathau eraill o offer fod yn fwy priodol i sicrhau bod buddion bioamrywiaeth yn rhan o'r datblygiad arfaethedig yn cael eu cynyddu i'r eithaf. Mae'r Ffactor Gwyrddu Trefol[9] yn enghraifft o hyn.

### 8.3.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 16 – Argymhellion ynglŷn â Bioamrywiaeth ac Amwynder**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| C11 | **Newid hyd a lled gofynion bioamrywiaeth ac amwynder i fod yn gymesur â graddfa'r datblygiad.**<br>Gallai hyn fod ar ffurf cais haenog neu "ysgafn", neu ddatblygiad y "tybir ei fod yn cydymffurfio" mewn rhai achosion gydag amodau penodedig.<br>Dylid ystyried cyd-destun y safle a ph'un a oes gan y cyhoedd/preswylwyr fynediad iddo.<br>*Cyfeiriwch at yr Argymhellion ynglŷn â Chymesuredd.* | Tymor canolig |
| - | **Gwneud SABau yn ymgynghorai statudol yn y broses Gynllunio ac Awdurdodau Cynllunio yn ymgynghorai statudol yn y broses SAB.** | Tymor canolig |

[9] https://publications.naturalengland.org.uk/publication/4842738632884224

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| | Bydd hyn yn amlygu cyfleoedd a materion yn gynharach o lawer yn y broses.<br>*Cyfeiriwch at yr Argymhellion ynglŷn â'r Broses Ymgeisio.* | |
| C12 | **Cynhyrchu canllawiau cenedlaethol mwy penodol ar gyfer y safonau bioamrywiaeth ac amwynder.**<br>**Bioamrywiaeth:** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried defnyddio egwyddorion y fframwaith bioamrywiaeth DECCA (Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd, a'r Gallu i Addasu) lle y bo'n briodol. Mae'r fframwaith newydd hwn yn cael ei gymhwyso ym maes Cynllunio, ond ni fydd pob adran yn briodol. Mae'r argymhelliad hwn yn cysylltu â'r adran ar Gymesuredd, h.y. ystyried a oes angen llai o ystyriaethau bioamrywiaeth ar gyfer datblygiadau llai / mathau penodol o ddatblygiadau. Mae angen gwneud mwy o waith i gyd-fynd â meysydd polisi eraill sy'n ymwneud â'r pwnc hwn.<br>**Amwynder:** Dylai Llywodraeth Cymru egluro bod buddion amwynder yn cynnwys y datblygiad ehangach hefyd, nid dim ond yr elfennau draenio, e.e. os yw cais ar gyfer ysgol / ardal chwarae / ysbyty, dylai'r buddion amwynder hyn gael eu hystyried yn y cais SAB. Dylai'r canllawiau hefyd gynnwys a hyrwyddo nodweddion amwynder amlswyddogaethol, e.e. cyfleusterau amwynder cymunedol sydd hefyd yn arafu dŵr mewn digwyddiadau glawiad mawr. Mae angen gwneud mwy o waith i gyd-fynd â meysydd polisi eraill sy'n ymwneud â'r pwnc hwn.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen trafod a datblygu ar y cyd ag ecolegwyr, penseiri tirwedd a'r diwydiant draenio i ystyried sut gellir cryfhau'r canllawiau ar yr un pryd â sicrhau eu bod yn gymesur â'r datblygiad. | Tymor canolig |
| C13 | **Dylai Awdurdodau Lleol ymgorffori gofynion lleol ar gyfer Bioamrywiaeth ac Amwynder SuDS mewn canllawiau/atodiadau lleol i gynorthwyo ymgeiswyr i gydymffurfio â gofynion lleol.**<br>Mae hyn yn arbennig o bwysig ar gyfer datblygiadau ar raddfa lai lle mae effaith y datblygiad wedi'i chyfyngu o fewn ffin fach.<br>Dylai atodiadau lleol gysylltu â dyheadau a chynlluniau gweithredu eraill yr awdurdod lleol, a chyfeirio atynt, fel Dangosyddion Lles, cynlluniau/strategaethau Seilwaith Gwyrdd, Strategaethau/Cynlluniau Perygl Llifogydd Lleol. Dylent gynorthwyo'r ymgeisydd i sicrhau bod ei ddatblygiad yn cyflawni nodau lleol/rhanbarthol ehangach.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen cyllid er mwyn i awdurdodau lleol ddatblygu a chyflwyno'r canllawiau hyn. | Tymor canolig |
| C14 | **Dylai awdurdodau lleol gydlynu mewnbwn arbenigol yn set unigol o adborth sy'n briodol ar gyfer Cynllunio a'r SAB.**<br>Dylai hyn fod yn ofyniad clir i bob awdurdod lleol yng Nghymru. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| | **Goblygiadau o ran adnoddau**: Byddai angen i ganllawiau mewnol gael eu cynhyrchu mewn awdurdodau lleol y mae eu hadnoddau eisoes yn gyfyngedig – efallai y bydd angen cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru. | |
| C15 | **Ystyried diwygio geiriad y Safon Fioamrywiaeth.**<br>Er y gellid cadw teitl y Safon, gallai'r testun o fewn y gofynion gael ei ddiwygio a'i lunio o amgylch yr ymagwedd ddeublyg hon:<br>• Dylunio er mwyn cael yr effaith leiaf ar nodweddion presennol<br>• Dylunio i gynyddu buddion a chydnerthedd ecosystemau i'r eithaf (gan gyfeirio at y fframwaith DECCA)<br>Byddai hyn yn cyd-fynd â'r ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu. Dylai'r gofynion fod yn gyson â'r dull a ddefnyddir ar gyfer Cynllunio fel bod y ddwy system yn ategu ei gilydd.<br>Dylai newidiadau gefnogi ymagwedd gymesur wrth gymhwyso'r Safon hon. Mae angen gwneud mwy o waith ar hyn gyda mewnbwn arbenigol gan ecolegwyr a bydd angen ei adolygu ochr yn ochr â meysydd polisi eraill sy'n esblygu.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Yn yr un modd â chanllawiau cenedlaethol ar fioamrywiaeth, bydd angen mewnbwn gan ecolegwyr a bydd angen sicrhau eu bod yn cyd-fynd â pholisi cynllunio (a meysydd polisi eraill) er mwyn cyflawni ymagwedd genedlaethol gyson. | Tymor canolig |

# 9. Categori Ch: Fforddiadwyedd a Gorfodi

## 9.1 Ffïoedd

### 9.1.1 Crynodeb o’r Materion

Mae sawl SAB wedi datgelu bod costau uchel a delir ymlaen llaw yn gysylltiedig â thywys datblygwr newydd trwy’r broses SAB, sy’n arwain at gostau na ellir eu hadennill i’r SAB o dan y dull prisio presennol. Fodd bynnag, cydnabyddir y bydd angen llai o gymorth ar ddatblygwyr wrth iddynt ennill profiad a dealltwriaeth, a fydd yn gwneud y strwythur ffïoedd yn fwy cynaliadwy.

Mae diffyg adnoddau mewnol yn gallu ei gwneud yn anodd i SABau ymateb i geisiadau o fewn y cyfnod 7 wythnos penodedig. Gallai mwy o arian alluogi recriwtio i liniaru gofynion ar adnoddau.


Nid yw dyluniadau a adeiladwyd bob amser yn cael eu harchwilio i gadarnhau y bydd SuDS yn gweithredu fel y’u dyluniwyd. Mae cysylltiad agos rhwng hyn a’r heriau adnoddau a’r bwlch sgiliau sy’n wynebu SABau, ond hefyd o ganlyniad i’r arian cyfyngedig sydd ar gael i hwyluso’r ymweliadau hyn.

Gall y gwasanaeth cyn-ymgeisio fod yn rhwystredig i ymgeiswyr, yn enwedig gan fod rhai SABau yn mynnu cael cymeradwyaeth SAB ar y cam hwn. Fodd bynnag, nid yw’r trafodaethau cyn-ymgeisio yn gyfreithiol rwymol, a gallai cyngor newid. Fodd bynnag, byddai ymgeiswyr yn fwy parod i dderbyn y ffïoedd cyn-ymgeisio ar yr amod bod y cyngor yn gyfrwymol ac yn cael ei dderbyn mewn modd amserol. Byddai rhai ymgeiswyr hefyd yn fodlon talu ffïoedd ar gyfer elfennau eraill o’r gwasanaeth ymgeisio SAB os oedd y broses ymgeisio’n cael ei gwella a bod modd cyflawni arbedion effeithlonrwydd, fel integreiddio’n agosach ag adrannau cynllunio, gan gynnwys terfyn uwch ar ffïoedd ymgeisio (y tâl mwyaf yw £7,500 ar hyn o bryd).

### 9.1.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

*Lefel y ffi*

Gofynnwyd tri chwestiwn am ffïoedd ymgeisio yn yr holiadur. Fel y dangosir yn Ffigur 40, ni fynegodd y rhan fwyaf o’r ymatebwyr farn am lefel bresennol y ffi ymgeisio, gan gynnwys 46% o ddatblygwyr. Fodd bynnag, mae’n werth nodi bod 42% o SABau yn credu bod y ffïoedd yn rhy isel.




| | Rhy uchel | Iawn | Rhy isel | Dim barn |
|---|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | | | | 1 |
| SAB | 2 | 6 | 8 | 3 |
| Ymgeisydd | 14 | 14 | 6 | 29 |

**Ffigur 40 – Adborth ar y ffi ymgeisio bresennol**

*Adennill costau*

Yn ystod ein cyfnod adborth, gofynnom am ddata gan SABau ar gynhyrchu ffïoedd a wireddwyd o gymharu ag adennill costau. Mae'r cais am ddata wedi canfod nad yw'r rhan fwyaf o SABau yn casglu data ar adennill costau mewn ffordd a fyddai'n ystyrlon i lywio newid deddfwriaethol neu bolisi. Mae'n ymddangos hefyd bod gwahaniaethau rhwng dulliau o benderfynu a'r amser a dreulir ar geisiadau, sy'n effeithio ar b'un a all SAB adennill ei gostau, yn ogystal ag anghysondebau rhwng yr amser a dreulir ar safleoedd mabwysiadwy ac anfabwysiadwy. Ceir dadansoddiad manylach o'r data a dderbyniwyd yn Atodiad D.

*Cynyddu'r ffi o gymharu ag adnoddau*

Gofynnodd yr holiadur hefyd b'un a fyddai ymgeiswyr yn fodlon talu mwy ar gyfer eu cais SAB pe gellid gwarantu y byddai'r graddfeydd amser penderfynu yn cael eu bodloni, gan arwain at fwy o sicrwydd i ymgeiswyr ar gyfer rhaglenni. Nododd 62% o'r ymgeiswyr y byddent yn fodlon talu mwy. Fodd bynnag, daeth i'r amlwg yn ystod y trafodaethau yn y grwpiau ffocws a gynhaliwyd yn hwyr yn 2022 na fyddai hyn ar ei ben ei hun yn datrys y mater, o ganlyniad i'r cysylltiadau annatod â'r bwlch adnoddau presennol yn y sector.

*Trafodaethau penodol eraill*

Gwnaethom hefyd drafod pwnc ffïoedd yn fwy cyffredinol yn y grwpiau ffocws. Mae'r pwyntiau bwled isod yn crynhoi rhai o'r canfyddiadau allweddol:

1. Mae'r dull presennol o gyfrifo ffïoedd yn dryloyw, ond nid o reidrwydd y dull symlaf o gyfrifo.
2. Yn gyffredinol, cytunir mai'r ffin llinell goch (a ddefnyddir ar gyfer Cynllunio) yw'r ffordd fwyaf priodol o gyfrifo'r ffi ar gyfer safle, ond mae angen i SABau ddefnyddio rhywfaint o ddisgresiwn ar gyfer datblygiadau lle gallai'r ffin llinell goch fod yn anghymesur â'r ardal yr effeithir arni.
3. Dylid datblygu ffurflen gais "ysgafn" ar gyfer ceisiadau annedd unigol/anfabwysiadwy – ni ddylai hyn o reidrwydd arwain at ostyngiad yn y gost, oni bai bod y ceisiadau ar gyfer mathau penodol o ddatblygiadau, e.e. amaethyddol.
4. Cytunwyd yn fras y gallai unrhyw wahaniaeth mewn ffïoedd ac adennill costau gael ei rannu, gan ddefnyddio natur fabwysiadwy'r safle fel gwahaniaethydd. Yn gyffredinol, cytunwyd y dylai ffïoedd gael eu seilio ar adennill costau ac nad oedd modd adennill costau ar safleoedd anfabwysiadwy fel arfer o ganlyniad i'r gwaith ychwanegol sy'n ofynnol ar ôl cymeradwyo, gan gynnwys rhyddhau amodau a mabwysiadu.
5. Dylid darparu ar gyfer gwneud mân ddiwygiadau, sy'n cyd-fynd â'r broses Cynllunio Gwlad a Thref.

*Gwasanaethau SAB ychwanegol*

Yn olaf, gofynnom a fyddai ymgeiswyr yn awyddus i weld "gwasanaethau ychwanegol" yn cael eu darparu gan y SAB am gost ychwanegol a fyddai'n cynyddu'r tebygolrwydd o gymeradwyo eu cais. Nododd dros hanner yr ymatebwyr fod hyn yn rhywbeth yr hoffent ei weld a rhoesant yr awgrymiadau canlynol o fathau o wasanaethau. Fodd bynnag, nododd rhai SABau yn ystod cyfarfodydd y gallai darparu gwasanaeth dylunio fod yn broblemus o ystyried atebolrwydd dylunio.

O ran cyfleoedd ar gyfer mwy o gyfarfodydd a chyfarfodydd safle â'r SAB i gynorthwyo'r cais, dywedodd 64% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn eu bod eisiau mwy o hyn.

O ran cynhyrchu gosodiadau draenio ac ymgymryd ag elfennau o ddylunio, gan gynnwys cyfrifiadau a darparu cyfraddau gollwng, awgrymwyd hyn gan 45% o'r ymatebwyr a atebodd y cwestiwn hwn.

Mae adolygiad llawn o ffïoedd ar gael yn Atodiad D.

### 9.1.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 17 – Argymhellion ynglŷn â dull codi tâl**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D01 | **Adolygu'r strwythur ffïoedd presennol (mewn 12-24 mis).**<br>Ar ôl casglu data, adolygu'r ffïoedd ar gyfer datblygiadau o wahanol fathau, graddfeydd a lleoliadau gyda'r bwriad o ddiwygio'r strwythur ffïoedd os bydd angen i sicrhau bod costau'n cael eu talu, heb osod baich costau anfforddiadwy ar ddatblygiad bach.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn adolygiad o ffïoedd ar ôl casglu data ac adrodd cyson gan SABau. | Tymor canolig |
| D02 | **Datblygu proses ffurfiol i SABau asesu mân ddiwygiadau.**<br>Dylai hyn ddysgu o'r broses ar gyfer mân ddiwygiadau ym maes Cynllunio.<br>Gellid cyflawni hyn gan ddefnyddio newidiadau i is-ddeddfwriaeth. Mae'n bosibl y bydd angen ymgynghori.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru hwyluso grŵp sy'n cynnwys SABau ac ymgeiswyr i ddatblygu enghreifftiau o fân ddiwygiadau a phroses ar gyfer ymdrin â'r rhain, ar gyfer ymgynghoriad. | Tymor canolig |

## 9.2 Gorfodi


### 9.2.1 Crynodeb o'r Materion

Yr adborth gan SABau yw nad yw'r Safonau na dogfennau canllaw cysylltiedig yn diffinio'r ffin orfodi. Hefyd, mae rhai SABau eisiau cael pwerau cryfach i sicrhau bod ceisiadau SAB yn cael eu cyflwyno ar gyfer pob cynllun cymwys er mwyn sicrhau bod y rhain yn cael eu dylunio a'u hadeiladu i safon dderbyniol a bod lefelau priodol o waith cynnal a chadw'n cael eu cynnal.

### 9.2.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Roedd yr holiadur yn cynnwys dau gwestiwn am orfodi. Gofynnodd y cyntaf b'un a oedd yn glir pryd y gall y SAB gymryd camau gorfodi. O'r ymatebwyr a fynegodd farn, nid oedd 60% yn credu ei bod yn glir, gan gynnwys 44% o SABau.

Gofynnodd yr ail b'un a ddylai fod dull cenedlaethol o orfodi i sicrhau cysondeb. Roedd 93% o'r ymatebwyr yn cytuno â'r dull hwn.




**Ffigur 41 – Adborth ar b'un a ddylai fod dull cenedlaethol o orfodi**

### 9.2.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 18 – Argymhellion ynglŷn â gorfodi**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D03 | **Cynhyrchu canllawiau i awdurdodau lleol sy'n amlinellu'r disgwyliadau ar gyfer dynodi nodweddion SuDS.**<br>Rhoi mwy o ganllawiau ar ddynodi nodweddion o dan Atodlen 1 FWMA 2010 fel y gellir defnyddio pwerau gorfodi perthnasol pan nad yw SuDS yn cael eu cynnal a'u cadw'n effeithiol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. Nodir efallai y bydd hyn yn achosi goblygiadau adnoddau i SABau, a gallai ymagwedd/system gyson ar gyfer rheoli asedau fod yn fuddiol hefyd. | Tymor byr |
| D04 | **Cynhyrchu canllawiau sy'n dangos cerrig milltir pryd y gall swyddogion gorfodi gymryd rhan.**<br>Dylai hyn gynnwys beth yw'r camau nesaf, h.y. dechrau heb gydsyniad ar waith, llythyr rhybudd, rhoi hysbysiad, erlyniad, peidio â chydymffurfio â chydsyniad, peidio â chynnal a chadw ac ati.<br>Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y canllawiau hyn a'u cyhoeddi mewn diweddariad i'r ddogfen ganllaw yn y dyfodol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor canolig |
| D05 | **Darparu canllawiau ar yr hyn a ddylai ddigwydd pan nad yw SuDS anfabwysiadwy'n cael eu cynnal a'u cadw ar ôl adeiladu ac adolygu p'un a oes angen pwerau mynediad a gorfodi ychwanegol.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru ymgynghori ar y canllawiau hyn a'u cyhoeddi mewn diweddariad i'r ddogfen ganllaw yn y dyfodol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor canolig |
| D06 | **Datblygu templed gorfodi cenedlaethol, sydd ar gael i bob SAB ei ddefnyddio i sicrhau cysondeb cenedlaethol.**<br>Argymhellir bod hyn yn cael ei ddatblygu ar lefel genedlaethol. Dylai gynnwys mewnbwn cyfreithiol perthnasol ac ymgynghori â SABau ac ymgeiswyr.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn hyn. | Tymor canolig |
| D07 | **Ystyried diffinio ffin ar gyfer yr ardal orfodi ar ddatblygiad.**<br>Byddai'r argymhelliad hwn yn gofyn am ymgynghoriad cyhoeddus a newid i is-ddeddfwriaeth.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor canolig |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D08 | **Datblygu partneriaethau lleol neu ranbarthol i ddarparu adnodd canolog penodol ar gyfer gorfodi.**<br>Mae’r argymhelliad hwn yn gofyn am gyllid ac efallai newid deddfwriaethol i sefydlu corff. Dylid ystyried ei wneud yn gorff a benodir gan y llywodraeth os caiff ei ddatblygu.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Efallai bydd angen cyllid cychwynnol i sefydlu hyn, ond fe allai leddfu pwysau adnoddau mewn perthynas â gorfodi yn y tymor hwy. | Tymor hir |


## 9.3 Apeliadau

### 9.3.1 Crynodeb o’r Materion

Mae’r broses apeliadau’n caniatáu i ymgeisydd apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan SAB ynglŷn â chais. Ar hyn o bryd, nid oes gan ymgyngoreion statudol ddarpariaeth i apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y SAB a allai fynd yn groes i’w cyngor. Er enghraifft, SAB sy’n derbyn cynnig i ollwng i’r rhwydwaith carthffosydd cyfunol, heb broses i’r ymgymerwr carthffosiaeth apelio. Mae hyn yn codi amheuon ynglŷn â’r rheolaeth sydd gan yr ymgymerwr carthffosiaeth dros y rhwydwaith. Ar hyn o bryd, pe byddai ymgynghorai statudol yn gwrthwynebu cymeradwyaeth SAB a roddwyd heb ystyried ei gyngor neu wrthwynebiad, byddai angen iddo gychwyn Adolygiad Barnwrol o’r penderfyniad hwnnw.

### 9.3.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Gofynnwyd cwestiwn cyffredinol ynglŷn â ph’un a yw’r canllawiau presennol yn ddigon clir o ran pryd y gallwch apelio yn erbyn penderfyniad a wnaed gan y SAB a beth fydd yn digwydd nesaf. Fel y dangosir yn Ffigur 42 isod, nid yw 46% o’r ymatebwyr yn credu bod y canllawiau presennol yn ddigon clir. Fodd bynnag, nid oedd 40% o’r ymatebwyr wedi mynegi barn am y cwestiwn hwn.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 1 | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | | 1 | |
| SAB | 7 | 5 | 7 |
| Ymgeisydd | 4 | 34 | 25 |

**Ffigur 42 – Adborth ar b’un a yw’r canllawiau presennol ar orfodi yn glir**

Gofynnwyd i’r ymgeiswyr hefyd b’un a oeddent wedi apelio yn erbyn penderfyniad gan y SAB, ac ymatebodd 95% drwy ddweud nad oeddent.

### 9.3.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 19 – Argymhellion ynglŷn ag apeliadau**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D09 | **Canllawiau wedi'u diweddaru ar yr hyn y gellir apelio yn ei erbyn a'r broses i'w dilyn.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru, mewn partneriaeth â PCAC, ddiweddaru'r canllawiau presennol[10] ar yr hyn y gellir apelio yn ei erbyn a'r broses a ddilynir pan fydd apêl wedi cael ei chyflwyno er mwyn sicrhau eu bod yn glir i apelyddion a SABau.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor canolig |
| D10 | **Cyflwyno hawl i ymgyngoreion statudol apelio i gorff llywodraethu priodol neu Weinidogion Cymru pan na ystyriwyd eu cyngor a bod hynny'n cael effaith sylfaenol ar eu swyddogaethau neu eu hasedau.**<br>Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol i alluogi'r newid hwn. Byddai angen i Lywodraeth Cymru aros am y cyfrwng deddfwriaethol priodol i gynnig y newid hwn, a fyddai hefyd yn destun ymgynghori cyhoeddus a chraffu deddfwriaethol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru ystyried hyn. | Tymor hir |

## 9.4 Mabwysiadu

### 9.4.1 Crynodeb o'r Materion

Er bod y ddeddfwriaeth a'r canllawiau'n darparu modd o 'fabwysiadu' (gan y SAB neu'r Awdurdod Priffyrdd), nid yw'n glir pwy sy'n 'berchen' ar SuDS ar ôl ei mabwysiadu a allai arwain at anawsterau pan fydd angen atgyweirio neu amnewid wrth i'r ased gyrraedd diwedd ei oes.


Mae diffyg cysondeb yn y ffordd y cymhwysir y diffiniad o "eiddo unigol" at ddiben mabwysiadu, gan nodi bod bwriad clir i beidio â defnyddio'r term "cwrtil". Mewn rhai achosion, mae hyn yn arwain at beidio â mabwysiadu datblygiadau cymharol fawr â systemau draenio sy'n gwasanaethu nifer o adeiladau ac eiddo pan fyddant yn aros gydag un perchennog. Er enghraifft, datblygiad tai cymdeithasol neu barc manwerthu. Codir pryderon ynglŷn â'r ymagwedd hon o ran risg i gyrsiau dŵr a rhwydweithiau i lawr yr afon os na fydd y system yn cael ei chynnal yn y tymor hir.

Gan nodi'r heriau adnoddau a masnachol sy'n wynebu timau SAB, mae SABau ac ymgeiswyr yn amlygu diffyg fframwaith cyfreithiol ar gyfer mabwysiadu, gan gynnwys ffurflenni/templedi safonol. Mae angen safoni yn y maes hwn.

[10] sustainable-drainage-system-suds-appeals-guidance.pdf (gov.wales)

### 9.4.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Gofynnwyd chwe chwestiwn am fabwysiadu yn yr holiadur. Ceisiodd y cyntaf safbwyntiau ar b'un a oedd mabwysiadu'n broblem a oedd yn codi yn y rhan fwyaf o geisiadau ar gyfer SABau ac ymgeiswyr. Fel y dangosir yn Ffigur 43 isod, roedd 72% o SABau yn teimlo bod mabwysiadu'n broblem mewn ambell gais yn unig. Fodd bynnag, roedd 78% o ymgeiswyr yn teimlo bod mabwysiadu'n broblem mewn mwy na hanner eu ceisiadau.




| | Nid yw'n effeithio ar unrhyw geisiadau | Mae'n effeithio ar ambell gais | Mae'n effeithio ar rai ceisiadau (h.y. hanner) | Mae'n effeithio ar y rhan fwyaf o geisiadau | Mae'n effeithio ar bob cais | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| SAB | | 13 | 2 | 3 | | 1 |
| Ymgeisydd | 5 | 4 | 5 | 8 | 19 | 7 |

**Ffigur 43 – Adborth ar b'un a yw mabwysiadu'n broblem i geisiadau**

O'r rhai a fynegodd farn, roedd 61% o SABau yn teimlo bod y ddeddfwriaeth bresennol a'r canllawiau cysylltiedig yn glir ynglŷn â'r hyn sy'n fabwysiadwy, ond roedd 67% o ymgeiswyr yn anghytuno. Fodd bynnag, roedd 89% o'r rhai a fynegodd farn eisiau gweld cytundebau mabwysiadu cenedlaethol enghreifftiol yn cael eu datblygu a'u cyhoeddi. Roedd hyn o gymharu â 74% a oedd eisiau gweld cytundebau enghreifftiol ar lefel awdurdod lleol a 62% ar lefel ranbarthol.

Yn olaf, mae 77% o'r rhai sydd wedi cael system ddraenio wedi'i mabwysiadu yn credu bod problem yn gysylltiedig â'r ffaith bod y ddeddfwriaeth bresennol yn ymestyn i weithredu a chynnal a chadw yn unig ac nad yw'n ymdrin â pherchnogaeth.

Yn ogystal â'r holiadur, gwnaethom geisio adborth penodol gan SABau ar bynciau gan gynnwys mabwysiadu. O'r 10 SAB a ymatebodd i'r cais hwn am ddata, dim ond un a gadarnhaodd fod y broses fabwysiadu wedi cael ei chwblhau ar gyfer sawl datblygiad yn ei ardal awdurdod lleol. Dywedodd wyth SAB arall fod ganddynt ambell ddatblygiad ar ryw gam yn y broses fabwysiadu ar hyn o bryd.

### 9.4.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

Tabl 20 – Opsiynau ynglŷn â mabwysiadu

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D11 | **Darparu canllawiau ar ddisgwyliadau'r corff mabwysiadu.**<br>Gellid cyflawni hyn trwy ddiweddaru canllawiau Llywodraeth Cymru i gynnwys senarios clir ar gyfer yr hyn sy'n fabwysiadwy neu beidio, ac i osod disgwyliadau ynglŷn â sut y dylai mabwysiadu gael ei weithredu gan SABau, gan gynnwys cyfnodau trosglwyddo a diffygion.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor byr |
| D12 | **Darparu enghreifftiau â darluniau o'r hyn y mae eiddo unigol yn ei olygu a gosod disgwyliadau ar gyfer sut byddai hyn yn edrych yn ymarferol.**<br>Gallai Llywodraeth Cymru gyflawni hyn trwy ddiweddaru eu canllawiau, gan ddysgu o'r canllawiau a gyhoeddwyd ar gyfer trosglwyddo carthffosydd preifat yn 2011.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor byr |
| D13 | **Datblygu a chyhoeddi cytundebau mabwysiadu enghreifftiol.**<br>Ar sail canlyniadau'r holiadur, argymhellir bod hyn yn cael ei ddatblygu ar lefel genedlaethol. Dylai hyn gynnwys mewnbwn cyfreithiol perthnasol ac ymgynghori â SABau ac ymgeiswyr.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn hyn a cheisio cael enghreifftiau lleol sydd eisoes ar waith. Yna, bydd hyn yn gofyn am fireinio model cenedlaethol a chynnal adolygiad cyfreithiol. | Tymor canolig |
| D14 | **Diwygio'r ddeddfwriaeth sylfaenol i ymestyn effaith mabwysiadu i gynnwys gweithredu a pherchnogaeth.**<br>Byddai angen newid deddfwriaeth sylfaenol i alluogi'r newid hwn gan fod y diffiniad o fabwysiadu wedi'i amlinellu yn FWMA 2010 ar hyn o bryd. Byddai angen i Lywodraeth Cymru aros am y cyfrwng deddfwriaethol priodol i gynnig y newid hwn, a fyddai hefyd yn destun ymgynghori cyhoeddus a chraffu deddfwriaethol.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen i hyn gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru, a bydd angen mewnbwn cyfreithiol i'w weithredu. | Tymor hir |

## 9.5 Ariannu Gwaith Cynnal a Chadw Tymor Hir

### 9.5.1 Crynodeb o'r Materion

Ffefrir ymagwedd gyson tuag at ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir ledled Cymru. Mae taliadau mawr presennol ymlaen llaw yn gwneud rhai datblygiadau'n anhyfyw. Byddai ymagwedd safonedig tuag at symiau gohiriedig yn cael ei chroesawu, ynghyd â chyfnod priodol ar gyfer cyfrifo. Yn ogystal, nodwyd y dylid archwilio dulliau eraill o gynhyrchu refeniw ar gyfer cynnal a chadw. Gallai opsiwn

hybrid cynaliadwy fod yn gyfuniad o swm gohiriedig a delir gan y datblygwr ac ardoll barhaus a delir gan eiddo sy’n elwa.

Mewn rhai ardaloedd SAB, nid yw arian a ddyrannwyd ar gyfer cynnal a chadw yn cael ei warchod ac fe’i pennir yng nghyd-destun yr Awdurdod Lleol ehangach. O ran rhai SABau, mae perygl efallai na fydd symiau gohiriedig ar gael ar gyfer yr union ddiben y’u codwyd, os na chânt eu clustnodi.

Yn olaf, mae datgysylltiad ar hyn o bryd o ran y rhai sy’n derbyn gwasanaethau rheoli/gwaredu dŵr wyneb a ph’un a ydynt yn talu amdanynt. Mae rhywfaint o waith rheoli dŵr wyneb hanesyddol yn cael ei wneud gan yr ymgymerwr carthffosiaeth, ac felly’n denu taliadau dŵr wyneb. Fodd bynnag, nid yw’r rhai hynny sy’n cael eu gwasanaethu gan ased sydd wedi’i fabwysiadu gan y SAB neu ran arall o’r awdurdod lleol yn talu am y gwasanaeth hwn. Gallai’r gwahaniaeth hwn mewn codi tâl gael ei adolygu i gefnogi’r pwynt uchod mewn perthynas â chynhyrchu refeniw.

### 9.5.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth


Yn rhan o’r holiadur, roedd saith cwestiwn yn canolbwyntio ar ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir. Nododd ymgeiswyr faint o’u ceisiadau yr oedd ariannu gwaith cynnal a chadw tymor hir yn effeithio arnynt. Dywedodd 86% fod y mater hwn yn effeithio ar fwy na hanner o’u ceisiadau, a dywedodd bron hanner ei fod yn broblem yn eu holl geisiadau.

Roedd 92% o’r ymatebwyr yn cefnogi datblygu ymagwedd symiau gohiriedig genedlaethol sy’n cynnwys rhestr o gyfraddau a hyd cyfnod cynnal a chadw er mwyn gallu amcangyfrif costau cynnal a chadw’n well a llywio dichonoldeb ymyriadau a hyfywedd safleoedd datblygu. Roedd hyn yn cynnwys 94% o SABau a 91% o ymgeiswyr.

Roedd 55% o’r ymatebwyr o blaid cyfnod cynnal a chadw 30 mlynedd ar gyfer cyfrifo symiau gohiriedig, ac adlewyrchwyd hyn yn y sylwadau testun rhydd hefyd. Ystyriwyd bod y cyfnod hwn yn ffafriol o gymharu â 40 mlynedd (21%) a 50 mlynedd (24%).

Gofynnwyd hefyd p’un a fyddai ardoll/treth eiddo yn cael ei chefnogi fel dewis amgen yn lle’r ymagwedd swm gohiriedig. Roedd 53% o’r ymatebwyr yn cefnogi hyn a dywedasant yr hoffent iddo gael ei archwilio’n fanylach.

O’r rhai a fynegodd farn, roedd 89% o’r ymatebwyr yn pryderu nad yw symiau gohiriedig yn cael eu clustnodi ar gyfer eu diben bwriadedig. Roedd hyn yn cynnwys 69% o’r SABau a ymatebodd.




| | Ie | Na | Dim barn |
|---|---|---|---|
| Arall | 2 | | 2 |
| Ymgynghorai Statudol | 1 | | |
| SAB | 9 | 4 | 6 |
| Ymgeisydd | 43 | 3 | 16 |

**Ffigur 44 – Adborth ar bryderon ynglŷn â chlustnodi symiau gohiriedig**

Yn olaf, gofynnwyd p'un a oedd angen canllawiau i egluro beth y dylid ei gynnwys mewn amserlenni a chytundebau cynnal a chadw a pha elfennau y gellid eu hariannu o ddyraniadau eraill Llywodraeth Cymru (e.e. y dyraniad awdurdod lleol a bennir gan ddefnyddio'r Fformiwla Anghenion Cymharol). Roedd 97% o'r ymatebwyr yn cytuno bod angen eglurder, gan gynnwys 100% o SABau a ymatebodd i'r cwestiwn hwn.

### 9.5.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

**Tabl 21 – Argymhellion ynglŷn ag ariannu gwaith cynnal a chadw**

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D15 | **Datblygu ymagwedd symiau gohiriedig genedlaethol sy'n cynnwys rhestr o gyfraddau a hyd cyfnod cynnal a chadw er mwyn gallu amcangyfrif costau cynnal a chadw'n well i lywio dichonoldeb ymyriadau a hyfywedd safleoedd datblygu.**<br><br>Mae angen datblygu a chyhoeddi canllawiau clir. Dechreuwyd y dasg hon yn rhan o'r is-grŵp ffïoedd a thaliadau a chysylltwyd â Chymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru i drosi eu canllawiau presennol yn ddogfen newydd yn benodol ar gyfer SuDS. Dylai Llywodraeth Cymru ailgychwyn y gwaith hwn ac ystyried cyfyngu cyfnodau cynnal a chadw i amserlen fwy ymarferol sy'n agosach i 30 mlynedd.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn hyn, er y gallai gael ei arwain gan drydydd parti (ymgynghorydd) wedi hynny gan nodi bod enghreifftiau'n bodoli y gellid adeiladu arnynt. Bydd angen mewnbwn gan yr holl randdeiliaid, gan gynnwys Cymdeithas Syrfewyr Sirol Cymru. | Tymor byr |
| D16 | **Amlygu pwerau deddfwriaethol ac awydd i godi ardoll i helpu i ariannu gwaith cynnal a chadw.**<br><br>Byddai hyn yn gyfyngedig i'r eiddo sy'n elwa, h.y. eiddo y mae ei ddŵr wyneb yn cael ei reoli gan nodwedd SuDS fabwysiadwy.<br><br>Dylid cynnal ymarfer ymchwil byr (adolygiad cyfreithiol) i amlygu ac argymell opsiynau ar gyfer sut y gellir ei weithredu.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen mewnbwn cyfreithiol i bennu hyn, a bydd angen iddo gael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru. | Tymor byr |
| D17 | **Egluro beth y dylid ei gynnwys mewn amserlenni a chytundebau cynnal a chadw a pha elfennau y gellid eu hariannu o ddyraniadau cyllid eraill Llywodraeth Cymru, fel y dyraniad awdurdod lleol a bennir gan ddefnyddio'r Fformiwla Anghenion Cymharol.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau ar yr hyn y dylid ei gynnwys mewn amserlenni a chytundebau cynnal a chadw a pha elfennau y gellid eu hariannu o ddyraniadau cyllid eraill Llywodraeth Cymru, fel y dyraniad awdurdod lleol a bennir gan ddefnyddio'r Fformiwla Anghenion Cymharol.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn. | Tymor byr |

| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D18 | **Mynnu bod incwm awdurdod lleol (o symiau gohiriedig ac ati) yn cael ei ddefnyddio i gynnal a chadw SuDS.**<br><br>Dylai Llywodraeth Cymru roi cyfarwyddyd i Awdurdodau Lleol i sicrhau bod hyn yn digwydd. Gellid mynnu bod SABau yn dychwelyd i'r datblygwr arian cynnal a chadw na ddefnyddiwyd ar gyfer cynnal a chadw.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen cynnal adolygiad cyfreithiol cychwynnol i weld p'un a oes angen hyn ar hyn o bryd. Mae'n bosibl y bydd angen newid deddfwriaethol. | Tymor canolig |
| D19 | **Llunio dalen ffeithiau/canllawiau ar gynnal a chadw.**<br><br>Gallai hyn ystyried y diweddariad i ddalen ffeithiau cynnal a chadw a mabwysiadu Susdrain 2015 CIRIA[11]. Nid yw dalen ffeithiau Susdrain yn berthnasol i Gymru a bydd angen ei diweddaru i adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol presennol.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Ar ôl cael ei gychwyn gan Lywodraeth Cymru, gallai hyn gael ei gyflwyno gan drydydd parti. | Tymor canolig |
| D20 | **Os yw'n ofynnol ar sail yr awydd a'r darpariaethau presennol, gweithredu deddfwriaeth sy'n rhoi pwerau i SABau godi ardoll i ariannu gwaith cynnal a chadw SuDS.**<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Byddai angen newid deddfwriaethol. | Tymor hir |
| D21 | **Ymchwilio i'r achos dros osod gofyniad cyfreithiol i SABau fod ar wahân yn ariannol ac yn hunangynhaliol gyda chyfrifon sicredig.**<br><br>Gallai Awdurdodau Lleol gael eu hatal yn gyfreithiol rhag trosglwyddo incwm a symiau gohiriedig a gynhyrchir gan y SAB i'w defnyddio ar wasanaethau eraill a ddarperir gan yr Awdurdod Lleol yn ystod y cyfnod cyn iddynt fod yn ofynnol. Byddai cronfeydd dros ben yn cael eu hamddiffyn rhag cael eu trosglwyddo i rannau eraill o'r awdurdod lleol nad ydynt yn gysylltiedig â'r SAB.<br><br>Byddai ymagwedd o'r fath (sy'n debyg i drefniadau endidau masnachol hyd braich fel Ymgynghoriaeth Gwynedd, neu Awdurdodau Lleol sy'n gweithredu fel Awdurdod Harbwr) yn fuddiol gan y byddai'n caniatáu i'r SAB gynllunio ar gyfer y tymor hir a chael arian ar gael ar gyfer cynnal a chadw, ond hefyd i allu ymdopi â digwyddiadau annisgwyl sy'n golygu bod angen arian ar fyr rybudd. Mae buddion eraill posibl yn cynnwys peidio â bod yn ddibynnol ar yr awdurdod lleol neu orfod cystadlu â gwasanaethau eraill yr awdurdod lleol am arian.<br><br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Mae angen ystyried hyn ymhellach a byddai'n gofyn am newid deddfwriaethol. | Tymor hir |

[11] https://www.susdrain.org/files/resources/fact_sheets/09_15_fact_sheet_suds_maintenance_and_adoption_options_england_.pdf

## 9.6 Archwiliadau


### 9.6.1 Crynodeb o’r Materion

Mae’r trefniadau archwilio’n annigonol ar hyn o bryd i amlygu achosion o ddiffyg cydymffurfio.

Mae ymgeiswyr wedi dweud bod amlder archwiliadau a’r costau sy’n gysylltiedig â nhw yn amrywio’n sylweddol rhwng SABau.

### 9.6.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth

Gofynnwyd tri chwestiwn ynglŷn ag archwiliadau yn yr holiadur, gan gynnwys amlder yr archwiliadau a gafodd ymgeiswyr, eglurder ynglŷn â phryd mae archwiliadau’n ofynnol a’r costau cysylltiedig a lefel bresennol y ffi archwilio, sydd wedi’i gosod ar £168 fesul archwiliad gan y ddeddfwriaeth.




| | Dim archwiliadau | Archwiliadau ar gyfer ambell gais | Archwiliadau ar gyfer rhai ceisiadau (h.y. hanner) | Archwiliadau ar gyfer y rhan fwyaf o geisiadau | Archwiliadau ar gyfer pob cais | Ddim yn berthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Arall | | | | | | 3 |
| Ymgynghorai Statudol | | | | | | 1 |
| SAB | | 2 | | | 3 | 14 |
| Ymgeisydd | 14 | 14 | 8 | 5 | 8 | 14 |

**Ffigur 45 – Adborth ar b’un a yw systemau draenio’n cael eu harchwilio**

Mae Ffigur 45 yn dangos bod profiad ymgeiswyr o amlder archwiliadau yn ystod adeiladu yn amrywio. Fodd bynnag, adroddodd y mwyafrif eu bod naill wedi cael dim archwiliadau neu archwiliadau ar gyfer ambell gais yn unig.

Amlygodd y grwpiau ffocws a gynhaliwyd ym mis Rhagfyr 2022 nad yw archwiliadau bob amser yn cael eu cynnal, a briodolir yn bennaf i bwysau ar adnoddau SAB.

Dangosodd cwestiynau dilynol yn yr holiadur fod 59% o’r ymatebwyr a fynegodd farn yn credu nad oedd yn glir pryd mae angen archwiliadau a faint y dylid codi amdanynt. O’r 59% hyn, dim ond 12% oedd yn SABau. O’r holl SABau a fynegodd farn, roedd 66% yn credu ei bod yn glir.

Credai nifer gyfartal o ymatebwyr fod y ffioedd archwilio’n iawn ac yn rhy uchel. Fodd bynnag, roedd 100% o’r ymatebwyr hynny a gredai fod y ffioedd archwilio’n rhy uchel yn ddatblygwyr.

Trwy’r grwpiau ffocws, y farn gyffredinol ymhlith y SABau a oedd yn bresennol oedd bod y ffi archwilio bresennol yn talu am eu costau pan oedd archwiliadau’n cael eu cynnal. Fodd bynnag, nodwyd defnyddio ymagwedd wedi’i seilio ar risg at archwiliadau a gwneud defnydd gwell o dechnoleg er mwyn sicrhau effeithlonrwydd adnoddau a chynnig budd yn sgil llai o gostau carbon.

### 9.6.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhellion canlynol i'w hystyried.

Tabl 22 – Argymhellion ynglŷn ag archwiliadau


| Cyf. | Argymhellion | Amserlen |
|---|---|---|
| D22 | **Canllawiau mwy eglur ar ofynion archwilio, gan gynnwys cost resymol ar gyfer pob ymweliad.**<br>Nodir efallai y bydd angen cynhyrchu templed cyfreithiol ar gyfer hyn.<br>Dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau ar archwiliadau a ddylai gynnwys amlder/nifer yr archwiliadau er mwyn sicrhau nad yw cenedlaethau'r dyfodol yn etifeddu diffygion mewn systemau draenio. Yn ogystal, dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu canllawiau ar sut gellir defnyddio technoleg i archwilio elfennau, gan gynnwys defnyddio lluniau a galwadau fideo i leihau'r pwysau ar dimau a charbon sy'n gysylltiedig â theithio i safleoedd. Bydd angen i hyn gael ei gyfuno â chynllun capasiti sgiliau.<br>Ar hyn o bryd, ni ystyrir y dylai Llywodraeth Cymru gynyddu'r ffioedd archwilio oni bai y gellir casglu data ar gostau gwirioneddol gan y SABau.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn, a fydd yn gofyn am fewnbwn gan SABau. | Tymor byr |
| D23 | **Datblygu partneriaethau lleol neu ranbarthol i ddarparu adnodd canolog penodol ar gyfer archwiliadau.**<br>Byddai angen gwneud trefniadau masnachol a recriwtio timau er mwyn datblygu'r argymhelliad hwn. Mae'n bosibl bod cyfle hefyd i gyfuno'r gronfa adnoddau hon â swyddogaeth arall, fel archwiliadau priffyrdd.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Bydd angen i Awdurdodau Lleol gychwyn hyn, ond fe allai helpu i leddfu pwysau ar adnoddau yn y tymor hir. Gallai Llywodraeth Cymru gynnig cyllid i helpu i gychwyn a phontio. | Tymor hir |

## 9.7 Bondiau

### 9.7.1 Crynodeb o'r Materion

Mae'r canllawiau'n aneglur ynglŷn â ph'un a ystyrir bod bond yn ofyniad ar gyfer pob datblygiad (h.y. pan fo'r system ddraenio'n berthnasol i un eiddo neu'n anfabwysiadwy). Mewn rhai achosion, gofynnir am fondiau ar gyfer datblygiad bach iawn, sy'n cyflwyno cost ormodol ymlaen llaw. Nid yw rhai SABau yn cymhwyso bondiau i ddatblygiadau o gwbl ar hyn o bryd o ganlyniad i ddiffyg adnodd cyfreithiol.

### 9.7.2 Ymgysylltu, Adborth a Thrafodaeth




**Ffigur 46 – Adborth gan ymgeiswyr ar b'un a yw bondiau cyflawni yn broblem**

Mae cyfran uchel o ymgeiswyr yn awgrymu bod bondiau'n effeithio ar y rhan fwyaf o geisiadau neu'r holl geisiadau.

Mae 95% o'r rhai a fynegodd farn yn credu nad oes digon o ganllawiau ar hyn o bryd ynglŷn â pha bryd y mae bondiau'n berthnasol ac ar ba lefel y dylid eu gosod er mwyn sicrhau eu bod yn economaidd hyfyw.

### 9.7.3 Argymhellion

Cyflwynir yr argymhelliad canlynol i'w ystyried.

**Tabl 23 – Argymhelliad ynglŷn â bondiau**

| Cyf. | Argymhelliad | Amserlen |
|---|---|---|
| D24 | **Diwygio'r canllawiau i sicrhau eglurder ynglŷn â phryd mae bondiau'n berthnasol ac adolygu'r canllawiau presennol i sicrhau eu bod yn economaidd hyfyw.**<br>Dylai Llywodraeth Cymru adolygu a diwygio'r canllawiau presennol i sicrhau eu bod yn ddigon clir ynglŷn â phryd mae bondiau'n berthnasol. Dylai'r rhain gael eu llunio mewn ymgynghoriad â SABau a datblygwyr er mwyn sicrhau bod pawb sy'n gysylltiedig yn gallu eu dehongli'n rhwydd. Dylai Llywodraeth Cymru hefyd ystyried gosod canllawiau ynglŷn â pha lefel y dylid gosod bondiau arni, gan sicrhau ei bod yn gymesur â maint y datblygiad.<br>**Goblygiadau o ran adnoddau**: Dylai Llywodraeth Cymru gychwyn canllawiau ar hyn, a fydd yn gofyn am fewnbwn gan SABau. | Tymor byr |

# Atodiad A

## Argymhellion sy'n weddill o Adolygiad Pitt (2008)

Mae'r argymhellion perthnasol o Adolygiad Pitt (2008)[12] wedi cael eu rhestru isod gyda chrynodeb o b'un a ydynt wedi cael eu gweithredu.

**Tabl 24 – Argymhellion sy'n weddill o Adolygiad Pitt**

| Rhif yr argymhelliad | Manylion yr argymhelliad | Sylwadau |
|---|---|---|
| Argymhelliad 9 | Ni ddylai deiliaid tai allu gosod arwynebau anathraidd fel hawl ar erddi blaen mwyach a dylai'r Llywodraeth ymgynghori ynglŷn ag ymestyn hyn i erddi cefn a safleoedd busnes. | Newidiwyd hawliau datblygu a ganiateir yng Nghymru yn 2014 i olygu y bydd rhaid i unrhyw ddreif neu lawr caled newydd i brif wedd annedd dros 5m$^2$ gael caniatâd cynllunio oni bai y caiff ei (h)adeiladu gan ddefnyddio deunyddiau mân-dyllog.<br><br>Ni fu unrhyw newid o ran gerddi cefn a safleoedd busnes. |
| Argymhelliad 10 | Dylai'r hawl awtomatig i gysylltu system ddraenio dŵr wyneb datblygiadau newydd â'r system garthffosiaeth gael ei dileu. | Mae'r hawl awtomatig i gysylltu dŵr wyneb o ddatblygiadau newydd wedi cael ei gwneud yn amodol ar gymeradwyaeth gan SAB. Newidiwyd hyn trwy weithredu Atodlen 3 FWMA 2010 a fewnosododd adran 106A yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 yng Nghymru. Fe'i tanseilir ymhellach hefyd gan fewnosod adran 115(5A) Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 yng Nghymru sy'n gorfodi'r ymgymerwr carthffosiaeth i unrhyw ddefnydd gan system draenio priffyrdd sy'n cyd-fynd â system ddraenio a gymeradwywyd o dan Atodlen 3 FWMA 2010. |

[12] Adolygiad Pitt: dysgu gwersi o lifogydd 2007 (2008) https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/ukgwa/20100702215619/http://archive.cabinetoffice.gov.uk/pittreview/thepittreview/final_report.html

| Rhif yr argymhelliad | Manylion yr argymhelliad | Sylwadau |
|---|---|---|
| Argymhelliad 19 | Dylai awdurdodau lleol asesu ac, os yw'n briodol, gwella eu galluoedd technegol i gyflawni ystod eang o gyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli perygl llifogydd lleol. | Mae hyn yn fater sy'n cael ei godi'n barhaus yng Nghymru a byddai'n elwa o adolygiad mwy strategol o sut i wella galluoedd technegol a denu pobl i rolau. |
| Argymhelliad 20 | Dylai'r Llywodraeth ddatrys y mater sy'n ymwneud â pha sefydliadau ddylai fod yn gyfrifol am berchnogaeth systemau draenio cynaliadwy a'r gwaith o'u cynnal a'u cadw. | Datryswyd hyn yn rhannol gan Atodlen 3 FWMA 2010, sy'n darparu dyletswydd i fabwysiadu systemau i'r corff cymeradwyo (SAB). Mae'r ddarpariaeth fabwysiadu'n ymestyn yn benodol i'r cyfrifoldebau cynnal a chadw ar gyfer system yn unig, ac felly mae'n gadael bwlch clir mewn perthynas â pherchnogaeth. |

# Atodiad B

## Adroddiad Interim

Gellir gofyn i Lywodraeth Cymru am fersiwn Saesneg o'r Adroddiad Interim.

# Atodiad C

## Nodiadau Gweithdy â Ffocws i Ymgeiswyr

Mae fersiwn Saesneg o nodiadau’r gweithdy ar gael ar gais gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiad Ch

## Canlyniadau'r Holiadur â Ffocws

Mae fersiwn Saesneg o ganlyniadau'r holiadur ar gael ar gais gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiad D

## Nodyn Adolygu Ffïoedd

Mae fersiwn Saesneg o'r Nodyn Adolygu Ffïoedd ar gael ar gais gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiad Dd

## Nodyn Adolygu’r Broses Cyn-ymgeisio

Mae fersiwn Saesneg o Nodyn Adolygu’r Broses Cyn-ymgeisio ar gael ar gais gan Lywodraeth Cymru.

# Atodiad E

## Adborth o'r Digwyddiad Ymgysylltu Rhithwir

Mae set wedi'i choladu o adborth Saesneg o'r digwyddiad ymgysylltu hwn ar gael ar gais gan Lywodraeth Cymru.